# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION | | PLANNING AND ORDERS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 9 IONAWR 2013 am 1.00 o'r gloch | | MEETING DATE at Meeting Time (English) |
| SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | MEETING LOCATION (ENGLISH) |
| Swyddog Pwyllgor | Mairwen Hughes (01248) 752 516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:

**W J Chorlton**
**E G Davies**
**Lewis Davies**
**R Dew**
**Jim Evans**
**K P Hughes**
**W T Hughes**
**Vaughan Hughes**
**C McGregor**
**R L Owen**
**J A Roberts (Cadeirydd/Chair)**
**Eric Roberts**
**H W Thomas**

# R h a g l e n

Atgoffir aelodau y bydd papurau cefndirol y cyfeirir atynt yn yr adroddiadau i'r pwyllgor ar gael i'w harchwilio ar mewn fformat electronig ar ddiwrnod y cyfarfod o 12.30 p.m. ymlaen yn Siambr y Cyngor neu gellir eu harchwilio yn yr Adain Rheoli Datblygu yn ystod oriau agor arferol. Hefyd gellir gweld dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiadau ar ffeiliau'r electronig y ceisiadau.

Adroddir ar lafar i'r Pwyllgor unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddaw I law yn dilyn cyhoeddi adroddiadau.

Efallai y gwneir man newidiadau I rybudd o benderfyniad mewn achosion o gamgymeriadau argraffu adroddiadau I'r Pwyllgor cyn rhyddhau rhybudd o benderfyniad I ganiatau neu I wrthod cais.

**Mynegai**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

**3 COFNODION_**(Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau a'u llofnodi, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2012.

**4 YMWELIAD SAFLEOEDD_**(Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno, i'w cadarnhau a'u llofnodi, gofnodion yr Ymweliadau Safle a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr, 2012.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

**6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO:_**(Tudalennau 13 - 16)

6.1 - 19C313A - Stâd Pentrefelin a Waenfawr, Caergybi (1)
6.2 - 39C285D - Lon Gamfa, Porthaethwy (3)

**7 CEISIADAU YN CODI:_**(Tudalennau 17 - 54)

7.1 - 10C114A - Tai Moelion, Ty Croes (5)
7.2 - 11C591 - 16 - 21Bor Trehirion, Amlwch (18)
7.3 - 37C174C - Tre Ifan, Brynsiencyn (23)
7.4 - 41C103N - Ty Gwyn, Penmynydd (38)

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

**9 AFFORDABLE HOUSING APPLICATIONS**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

**10 DEPARTURE APPLICATIONS**

Dim i’w hystyried gan y cyfarfod hwn.

**11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** (Tudalennau 55 - 58)

11.1 - 32C110A - Caeau Bychan, Caergeiliog (55)

**12 GWEDDILL Y CEISIADAU** (Tudalennau 59 - 104)

12.1 - 12C426 - 51 Stryd y Castell, Biwmares (59)

12.2 - 19C845G - Clwb Holyhead Hotspur, Canolfan Hamdden Caergybi, Caergybi (63)

12.3 - 25C102B - Chwaen Bach, Llanerchymedd (68)

12.4 - 26C14H - Chwarel Nant Newydd, Brynteg (80)

12.5 - 35C304 - Bryn Paun, Llangoed (85)

12.6 - 39C291E/1 - Iard Gychod Porth Daniel, Stryd y Paced, Porthaethwy (93)

12.7 - 44C182C - Bryn Goleu, Rhosybol (97)

12.8 - 46C483B - Y Log Cabin, oddiar Ffordd Ravenspoint , Trearddur (109)

**13 MATERION ERAILL** (Tudalennau 105 - 108)

13.1 – 16C136C – Treban Meurig, Bryngwran (115)

13.2 – 47C134 – Plas Newydd, Llanddeusant (117)

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 5 Rhagfyr 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J.Arwel Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd W.T.Hughes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard A.Dew, Jim Evans, Kenneth Hughes, Vaughan Hughes, Clive McGregor, R.L.Owen, Eric Roberts |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ)<br>Cynorthwywyr Cynllunio<br>Uwch Beiriannydd Rheoli Datblygu (EJ)<br>Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr W.J.Chorlton, E.G.Davies |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelod Lleol: Y Cynghorydd A.M.Jones (ar gyfer cais 7.2) |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau fel yr uchod.

**2 DATGAN DIDDORDEB**

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb ac fe'u cofnodwyd dan yr eitemau perthnasol.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion a gynhaliwyd 7 Tachwedd 2012 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**4 YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliad safle a gynhaliwyd 21 Tachwedd 2012 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

Rhoes y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor y byddai siaradwyr cyhoeddus ar gyfer ceisiadau 7.1 a 7.2.

**6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO**

**6.1 10C114A Cais llawn i osod fferm paneli solar ar dir ger Tai Moelion, Ty Croes**

Rhoes y Rheolwr Datblygu Cynllunio wybod i'r Pwyllgor yr argymhellwyd bod Aelodau'n ymweld â safle'r cais cyn gwneud unrhyw benderfyniad oherwydd natur a maint y datblygiad.

**Penderfynwyd ymweld â 'r safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**6.2 37C174C Cais llawn i godi un tyrbin gwynt gydag uchder hwb o ddim mwy na 36.5m, diamedr llafn o ddim mwy na 30m ac uchder pigyn o ddim mwy na 46.1m ynghyd â gosod ciosg rheoli a thrac mynediad ar dir yn 'Tre-Ifan', Brynsiencyn**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai'r gred oedd y byddai'n fuddiol i'r Aelodau ymweld â'r safle a gweld ei gyd-destun cyn penderfynu ar y cais.

**Penderfynwyd ymweld â'r safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**6.3 39C285D Cais llawn i godi 17 o dai ar dir yn Lôn Gamfa, Porthaethwy**

Rhoes y Rheolwr Datblygu Cynllunio wybod i'r Pwyllgor bod yr Aelod Lleol wedi gofyn am ymweliad safle. Y gred hefyd oedd ei bod yn angenrheidiol bod aelodau'n gweld y safle a'i gyd-destun cyn ystyried y cais yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Ionawr 2013.

**Penderfynwyd ymweld â'r safle am y rhesymau a nodir.**

**6.4 41C103N Cais llawn i godi un tyrbin gwynt gydag uchder hwb o ddim mwy na 44m, diamedr llafn o ddim mwy na 33m ac uchder pigyn o ddim mwy na 62m, adeiladu trac mynediad ynghyd â chodi cabinet storio offer ar dir yn 'Tŷ Gwyn', Penmynydd.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio yr ymwelwyd â'r safle 21 Tachwedd 2012. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth newydd yng nghyswllt gwrthwynebiad i'r cais gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru newydd ddod i law. Fel bod modd i bobl yr ymgynghorwyd â nhw gael cyfle i weld y wybodaeth honno, argymhellwyd gohirio'r cais gyda golwg ar gyflwyno adroddiad llawn ac argymhelliad i gyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2013.

**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais am y rheswm a roddir.**

**7 CEISIADAU'N CODI**

**7.1 20C277 Cais llawn i godi un tyrbin gwynt gydag uchder hwb o ddim mwy na 44m, diamedr llafn o ddim mwy na 56m ac uchder pigyn o ddim mwy na 72m, ynghyd â chodi gorsaf drosglwyddo, man ar gyfer cyfleustodau ac adeiladu trac mynediad newydd a llecyn caled yn 'Tai Hen', Rhos-goch**

*(Datganodd y Cynghorydd W.T.Hughes ddiddordeb yn y cais hwn a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno).*

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y cais oherwydd y penderfynwyd na fyddid yn defnyddio pwerau dirprwyedig yng nghyswllt datblygiadau tyrbinau gwynt. Ymwelwyd â'r safle ym mis Awst 2012.

Cyn i'r Pwyllgor ystyried y cais, cafodd y Pwyllgor eu hatgoffa gan Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol bod newidiadau yn Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio wedi bod mewn grym ers deuddeng mis ar arbrawf. Y ddau brif newid a fyddai'n cael effaith ar y Pwyllgor hwn fyddai bod Aelod Lleol ar y Pwyllgor yn cael ei wahardd rhag cynnig ac eilio cais a phleidleisio arno os oedd y cais yn ei ward etholaethol, a bod raid i Aelod o'r Pwyllgor fod wedi bod yn bresennol bob tro y bu trafod cais yn y gorffennol gan gynnwys ymweld â safle cyn y gallai gymryd rhan i ystyried y cais a phenderfynu arno wedi hynny. Roedd yr arbrawf wedi dod i ben fis diwethaf a byddai'r Cyngor Sir yn rhoi syllw i'r mater yn y Cyngor Sir a gynhelid 6 Rhagfyr gyda golwg ar weithredu ar y newidiadau'n barhaol. Wrth drafod y mater, roedd y Pwyllgor Gwaith wedi argymell arbrawf pellach o ddeuddeng mis. Rhoes Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybod i'r Pwyllgor, bod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion felly, yn dechnegol,yn gweithredu dan hen reolau gweithdrefn Materion Cynllunio oedd mewn grym cyn i'r arbrawf newid. Fodd bynnag, mater i'r Aelodau fel unigolion fyddai penderfynu, fel y gwelent orau, a oeddynt yn dymuno glynu wrth y rheolau newydd er nad oeddynt, yn dechnegol, mewn grym ond gan roi sylw i'r argymhelliad gâi ei wneud gan y Cyngor Sir.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mairede Thomas, gwrthwynebydd i'r cais annerch y Pwyllgor.

Rhoes Mairede Thomas wybod i'r Pwyllgor ei bod yn siarad ar ran perchenogion 'Ty'n y Gors' ac aeth yn ei blaen i dynnu sylw'r Aelodau at y materion a ganlyn yng nghyswllt y cais:

- Pa mor agos oedd y grŵp o dyrbinau y tu ôl i 'Tyn y Gors ' at y tŷ ei hun. Roedd y tyrbin agosaf yn 46m o uchder ac yn 520metr i ffwrdd o'r tŷ. Roedd effaith hyn wrth sefyll yn yr ardd yn aruthrol.

- Maint cymharol y cais oedd am dyrbin 72metr o uchder 445m i ffwrdd o'r eiddo.

- Roedd 'Tyn y Gors' wedi'i amgylchynu ar un ochr gan ffarm wynt 24 tyrbin Rhyd y Groes. Roedd pymtheg tyrbin i'r gogledd-ddwyrain, pedwar i'r gogledd a phump arall i'r gogledd-

orllewin.  I'r de roedd modd cael cipolwg o fferm wynt Llyn Alaw ac roedd dau dyrbin arall wedi'u caniatáu i'r de-ddwyrain.

- Roedd perchenogion 'Tyn y Gors' wedi treulio'r saith blynedd diwethaf yn ymestyn ac yn aildrefnu eu heiddo fel bod gan y rhan fwyaf o'u hystafelloedd ffenestr oedd yn edrych i'r de-orllewin, sef yr unig gyfeiriad lle nad oedd tyrbin.  Byddai caniatáu'r cais hwn yn golygu y byddai'r saith blynedd hyn wedi bod yn wastraff ac y byddai'r eiddo wedi'i amgylchynu gan dyrbinau.  Fodd bynnag, nid oedd y tyrbinau oedd eisioes yno mor fawr nac mor agos nac mor ormesol â'r rhai y gwnaed cais amdanynt heddiw.

- Yr effaith ar y mwynderau yn sgîl y sŵn a'r gwibiadau o gysgod a grëid gan y tyrbinau oedd eisoes yno.  Roedd darn o ffilm fideo o'r sŵn a'r gwibiadau o gysgod a ddangoswyd iddi gan y perchenogion yn dangos ei fod yn amhleserus a'u bod wedi egluro bod y sŵn yn tarfu arnynt. I'r gogledd oedd y tyrbinau agosaf, felly, roedd y gwynt arferol yn cario'r sŵn i ffwrdd o'r tŷ. Fodd bynnag, roedd tyrbinau'r cais hwn yn uniongyrchol yn llwybr y gwynt arferol o'r de-orllewin, oedd yn golygu nad oedd dim ar y tirlun i rwystro'r sŵn rhag cyrraedd y tŷ.  Byddai wedi peri distyrbans sŵn difrifol a chreu gwibiadau o gysgod y rhan fwyaf o'r amser. Roedd y rhain yn berygl i'r iechyd.

- Dim gostyngiad yn y sŵn na'r gwibiadau o gysgod ac eithrio trwy osod amod oedd yn gorfodi'r datblygwyr i brynu 'Tyn y Gors' am bris y farchnad fel iawndal.

- Bod modd gwrthod gan fod Canllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru'n awgrymu y dylid bod o leiaf 500m yn gwahanu'r tyrbinau a'r tai.

- Cyfaddefiad gan y datblygwyr y byddai'r tyrbinau'n cael effaith sylweddol ar y ddau dŷ gerllaw.

- Bod colled aruthrol i ddeiliaid 'Tyn y Gors' o ran mwynderau, ynghyd â'r perygl gwirioneddol o sŵn y tyrbinau, yn fwy na digon o reswm i ddefnyddio Canllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Lleol i wrthod y cais.

Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau ar y cyflwyniad a roddwyd.

Yna rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr James Merrigan annerch y Pwyllgor o blaid y cais.

Nododd Mr Merrigan y rhesymau a ganlyn dros ganiatáu'r cais –

- Taliad o £5,000 y flwyddyn a fyddai er budd y gymuned.

* Byddai incwm a wneid o 'r tyrbin o gymorth i gynnal ffarm yr ymgeisydd a châi ei fuddsoddi yn ôl i'r economi.

* Byddai'r budd a geid o'r tyrbin yn sylweddol fwy na'r effaith gyfyngedig a welid.  Câi hefyd ei weld yn nghyd-destun  ffarm wynt Rhyd y Groes oedd ddau gae i ffwrdd.

* Roedd y bwriad yn gwbl unol â'r Cynllun Datblygu a pholisi'r llywodraeth ar ynni.  Dylid caniatáu'r cais yn seiliedig ar rinweddau cynllunio'r bwriad.

* Roedd mwyafrif y bobl yn cefnogi'r bwriad.  Er bod y Cyngor wedi derbyn 40 llythyr yn gwrthwynebu, yr un adeg roedd 240 llythyr yn cefnogi wedi dod i law.

Gorffennodd Mr Merrigan trwy ddweud pe byddai'r Pwyllgor yn caniatáu'r cais, byddai hyn yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd gael cymorth i ariannu ei waith ar y ffarm a chynnal y tirlun gwledig trwy ei ffarmio yn ogystal â rhyddhau £5,000 y flwyddyn fyddai'n arwain at fudd i'r gymuned. Am hyn, byddai tyrbin gwynt ar y tirlun dros dro am 25 mlynedd.  O'r herwydd, roedd manteision y bwriad yn amlwg yn drech nag unrhyw niwed posib.

Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau i Mr Merrigan.

Tynnodd Rheolwr yr Adain Rheoli Datblygu sylw'r Aelodau at yr adroddiad ysgrifenedig oedd yn nodi 'r cais a'r ystyriaethau cysylltiedig. Adeg ysgrifennu'r adroddiad roedd yr ymgeiswyr wedi cyflwyno apêl oherwydd nad oedd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y cais ond nid oedd yr apêl wedi'i chaniatáu hyd yn hyn. Rhoes y Swyddog wybod i'r Aelodau bod yr Arolygwr Cynllunio bellach wedi caniatáu'r apêl oedd yn golygu nad oedd modd i'r Awdurdod Cynllunio lleol benderfynu ar y cais cynllunio, yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd yr Arolygwr Cynllunio wedi cadarnhau bod modd cyflwyno'r cais i 'r Pwyllgor ar gyfer argymhelliad yn unig ac nid ar gyfer penderfynu arno. Dim ond yn yr apêl yr oedd modd i'r Pwyllgor wneud penderfyniad ar sefyllfa'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac, o'r herwydd, gofynnid am ei farn ynghylch argymhelliad y Swyddogion. Yna aeth y Swyddog ymlaen a chyfeirio Aelodau at dudalennau 22 a 24 yr adroddiad oedd yn disgrifio lleoliad adeilad rhestredig Eglwys St. Peirio, Rhosbeirio. Er y bu asesiad ar yr effaith ar yr adeilad ar y pryd, roedd Swyddog Cadwraeth yr Awdurdod eisoes wedi cynnal asesiad llawnach. Yn ei farn o, roedd yr effaith ar yr adeilad rhestredig rhwng sylweddol a chymedrol ac y byddai modd ei lleddfu trwy dirlunio. Y bwriad oedd gosod amod i'r perwyl hwnnw. Er mai caniatáu oedd argymhelliad y Swyddog, golygai dilysrwydd yr apêl yn erbyn methu dod i benderfyniad ar y cais y byddai'r Arolygwr Cynllunio, bellach, yn delio gyda'r cais fel un oedd wedi'i wrthod. O gofio nad oedd modd i'r swyddogion amddiffyn argymhelliad o wrthod yn yr achos hwn, roedd dau opsiwn i'r Pwyllgor, sef cadarnhau ei fod yn cefnogi'r argymhelliad i wrthod ac, felly, yn cadarnhau i'r Arolygwr na fyddai'r Awdurdod yn herio'r apêl, neu dweud nad yw'n cefnogi'r argymhelliad a'i fod yn cefnogi 'r Awdurdod i herio'r apêl. Mewn sefyllfa o'r fath, mater i'r Pwyllgor fyddai amddiffyn y sefyllfa honno mewn apêl.

Dywedodd y Cynghorydd Clive McGregor pe byddai'r cais wedi'i gyflwyno er mwyn penderfynu arno byddai wedi'i wrthod oherwydd ei fod o'r farn bod y bwriad yn mynd un cam yn rhy bell o ran maint y datblygiad mewn ardal wledig ac oherwydd ei effaith ar adeilad rhestredig eglwys St Peirio a'r tirlun o'i gwmpas. Byddai'r tyrbin arfaethedig yn creu 500kw o bŵer oedd yn fwy nag unrhyw fwriad blaenorol o'r math hwn ac roedd o'r farn ei fod yn fwy nag yr oedd ei angen ar gyfer ffarmio'n unig a'i fod yno i wneud elw ariannol. Am y rheswm hwnnw, cynigiodd nad oedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad i ganiatáu. Roedd y Cynghorydd Eric Roberts yn cytuno gyda sylwadau'r Cynghorydd McGregor a dywedodd ei fod o'r farn nad oedd y budd i'r gymuned yn yr achos hwn yn drech na'r niwed y byddai'r datblygiad yn ei achosi. O'r herwydd, eiliodd gynnig y Cynghorydd Clive McGregor. At hyn, mynegwyd amheuon a fyddai tirlunio'n lliniaru effaith y datblygiad ar adeilad rhestredig yr eglwys.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Clive McGregor, Eric Roberts a Vaughan Hughes dros beidio â chefnogi argymhelliad y swyddog i ganiatáu.

**Penderfynwyd peidio â chefnogi argymhelliad y Swyddog i ganiatáu oherwydd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar dirlun yr ardal a hefyd ar adeilad rhestredig Eglwys St Peirio.**

Dywedodd Rheolwr yr Adain Rheoli Datblygu mai'r Cynghorwyr Clive McGregor ac Eric Roberts fyddai'n amddiffyn y penderfyniad mewn apêl.

**7.2 44C292 Codi un tyrbin gwynt gydag uchder hwb o ddim mwy na 44m, diamedr llafn o ddim mwy na 56m ac uchder pigyn o ddim mwy na 72m, ynghyd â chodi gorsaf drosglwyddo, man ar gyfer cyfleustodau, creu trac mynediad newydd a llecyn caled ac adeiladu ffordd gyswllt newydd ger y gyffordd â 'r B5111 ar dir sy'n gysylltiedig â 'Llety', rhifau caeau O.S. 0268 a 6366, Rhos-y-bol**

*(Datganodd y Cynghorydd W.T.Hughes ddiddordeb yn y cais hwn a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno).*

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y cais oherwydd y penderfynwyd na fyddid yn defnyddio pwerau dirprwyedig yng nghyswllt datblygiadau tyrbinau gwynt. Ymwelwyd â 'r safle ym mis Awst 2012.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Ms Bethan Griffiths, gwrthwynebydd i'r bwriad, annerch y Pwyllgor. Tynnodd Ms Griffiths sylw at y materion a ganlyn fel rhesymau dros wrthwynebu'r cais.

- Y modd y cyflwynwyd y cais a'r ffaith bod yr ymgeisydd gwreiddiol oedd yn cyflwyno'r cais wedi dweud ei fod yn berchen ar dir pedwar person arall – gwybodaeth a gafodd ond ei newid

trwy e-bost pan ddeallodd gwrthwynebwyr bod y wybodaeth yn anghywir. Dylid fod wedi cyflwyno cais newydd gyda'r cynlluniau cywir oherwydd, fel arall, ni fyddai wedi'i seilio ar wybodaeth gywir ac ni ddylid fod wedi bwrw ymlaen ag o'n gyfreithiol.

- Pa mor agos oedd y bwriad i dai cyfagos. Yn ôl Canllawiau Llywodraeth Cymru ni ddylai tyrbinau gwynt fod o fewn 500m i dai. Roedd y bwriad hwn am dyrbin oedd 338m i ffwrdd o'r tŷ agosaf ac o fewn 450m i dri thŷ arall.
- Pryderon ynghylch lleoliad y tyrbin arfaethedig ar ffordd oedd yn agos i'r briffordd rhwng Rhos-y-bol a Llannerch-y-medd Byddai tyrbin mor fawr â'r un arfaethedig yn tynnu sylw ar ffordd sydd eisoes yn beryglus.
- Pa mor addas oedd y ffordd sengl i gynnal y peiriannau a'r lorïau oedd yn angenrheidiol i godi'r tyrbin a'i wasanaethu.
- Effaith ar fwynder o ran sŵn ac effaith bosib ar iechyd oedd yn bynciau cynhennus.
- Gallai caniatáu'r cais gael sgîl-effeithiau ar fywyd gwyllt yr ardal.
- Bod yr adroddiad ar Fwynderau Preswyl yn gamarweiniol ac yn anghywir ac yn dweud y byddai modd gweld y tyrbin o un ystafell yn unig yn y tŷ agosaf iddo. Yn hytrach, byddai modd ei weld o bedair ystafell.
- Byddai modd gweld y tyrbin o bell gan y byddai ar fryn. Roedd Ynys Môn yn Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol. Dangosodd adroddiad a wnaed bod dwysedd tyrbinau gwynt o leiaf saith gwaith mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau i Ms Griffiths.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, anerchodd Mr James Merrigan y Pwyllgor i gefnogi'r cais a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn –

- Ar wahân i'r taliad o £5,000 y flwyddyn er budd y gymuned a'r manteision amlwg oedd yn gysylltiedig gyda'r incwm a grëid yn cael ei fuddsoddi'n ôl i'r ffarm leol, roedd effeithiau ymddangosiadol y tyrbin yn dderbyniol ac roedd y budd yr oedd yn ei gynnig yn fwy na'r effaith gyfyngedig y byddai'r datblygiad yn ei chael o ran y lleoliad y byddai modd ei weld ohono, a'r budd hwnnw'n sylweddol fwy.
- O'r bobl yr ymgynghorwyd â nhw'n statudol ac yn fewnol ac y gofynnodd y Cyngor iddynt roi barn, dau yn unig o'r deuddeg posib a wrthwynebodd, yn ôl adroddiad y Swyddog. Y Cyngor Cymuned ac Adain yr Amgylchedd Adeiledig oedd y rhain, yn seilio'u barn ar yr effaith bosib ar y tirlun ac ystyriaethau mwynderau gweledol oedd yn gysylltiedig ag un tŷ gerllaw.
- Byngalo oedd yr eiddo dan sylw ac roedd oddeutu 346m i ffwrdd o'r tyrbin arfaethedig. Oni bai am goed bychain bytholwyrdd yn yr ardd flaen, byddai modd gweld y bwriad o'r tŷ. Fodd bynnag, eisoes roedd modd gweld yn glir beilonau yn dod o Orsaf bŵer yr Wylfa. Roedd modd gweld Ffarm Wynt Trysglwyn hefyd .
- Roedd y tŷ agosaf i Ffarm Wynt Trysglwyn ac oedd â golygfeydd clir o’r tyrbinau oddeutu 270m i ffwrdd o'r tyrbin agosaf, tyrbin oedd 76m yn nes na'r tŷ agosaf dan sylw yn yr achos hwn.
- Felly, yng nghyd-destun y peilonau a'r ffarm wynt oedd eisoes yno, ni chredai y byddid effaith annerbyniol o ran pryderon ynghylch y tirlun na mwynder gweledol preswyl. Ni fyddai'r tyrbin yn ormesol.
- Roedd manteision y bwriad o ran rhoi budd cymunedol ac economaidd yn drech nag unrhyw bryderon dros dro a allai arwain at wrthod y cais. Cyfnod cyfyngedig o 25 mlynedd yn unig oedd i'r datblygiad.

Rhoes y Rheolwr Datblygu Cynllunio wybod i'r Pwyllgor bod amgylchiadau'r cais hwn yn debyg i amgylchiadau cais 7.1 gan bod yr ymgeiswyr wedi cyflwyno apêl yn erbyn methu penderfynu

ar gais a bod yr apêl honno, bellach, wedi'i chaniatáu gan yr Arolygwr Cynllunio. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, argymhelliad y Swyddog oedd gwrthod y cais a olygai y gallai'r Swyddogion amddiffyn y penderfyniad i wrthod ac roeddynt yn barod i wneud hynny. Pe byddai'r Pwyllgor yn anghytuno gyda'r argymhelliad, gallai ddweud nad oedd yn dymuno i'r Awdurdod herio'r apêl ac y byddai wedi caniatáu'r cais pe byddai wedi bod mewn sefyllfa i wneud hynny.

Anerchodd y Cynghorydd Aled Morris Jones y Pwyllgor fel yr Aelod Lleol. Rhoes wybod i'r Aelodau o'r cychwyn cyntaf ei fod eisoes wedi datgan diddordeb yn y mater hwn a'i fod wedi ceisio cyngor cyfreithiol oedd wedi cadarnhau mai personol ac nid anfanteisiol oedd y diddordeb. Diolchodd i'r Pwyllgor am ymweld â'r safle ac edrych ar leoliad arfaethedig y tyrbin gwynt a dywedodd mai yn Llandyfrydog oedd y bwriad yn hytrach nag yn Rhos-y-bol. Dywedodd ei fod yn bryderus ynghylch nifer y ceisiadau am dyrbinau gwynt yn ardaloedd Llandyfrydog a Rhos-y-bol. Roedd wedi gofyn am i fap gael ei ddangos oedd yn nodi lle caniatawyd tyrbinau gwynt, y ffarm tyrbinau gwynt yn 'Trysglwyn', ynghyd â safleoedd arfaethedig ar gyfer tyrbinau gwynt. Credai bod raid ystyried dwysedd datblygiadau o'r fath a'i fod yn bryderus eu bod yn dechrau amgylchynu Llandyfrydog a Rhos-y-bol. Cyfeiriodd yn benodol at asesiad o effaith y datblygiad ar fwynderau gweledol trigolion byngalo 'Rhosydd' fel a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig - byngalo y dywedodd y Swyddog y byddid yn effeithio arno i raddau gormesol ac aruthrol am y rhesymau a nodwyd. Gofynnodd i Aelodau gefnogi penderfyniad y Swyddog ar y cais gan ddweud mai'r pryder mwyaf oedd maint y datblygiad arfaethedig lle bynnag y byddai yn yr ardal.

Ceisiodd y Cynghorwyr Clive McGregor a Vaughan Hughes gyngor ar eu sefyllfa gan nad oeddynt wedi bod yn bresennol pan ymwelwyd â'r safle ym mis Awst. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol bod y cyfnod y bu arbrofi ar newidiadau i Reoliadau Gweithdrefn Materion Cynllunio a phan oeddynt mewn grym wedi dod i ben ac nid oeddynt wedi'u hymestyn hyd yn hyn. Golygai hyn bod y Pwyllgor mewn cyfnod o 'interregnum'. O'r herwydd, roedd hawl, felly, gan yr Aelodau hynny i gymryd rhan yn y drafodaeth er nad oeddynt wedi ymweld â'r safle ac yn enwedig, felly, o gofio cyngor y Swyddog nad oedd y Pwyllgor yn medru dod i benderfyniad ar y cais.

Dywedodd y Cynghorydd McGregor mai yr un oedd ei farn â chyda'r cais blaenorol, sef bod y bwriad hwn yn mynd gam yn rhy bell. Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts gefnogi'r argymhelliad i wrthod ac fei'i eiliwyd gan y Cynghorydd R.L.Owen.

**Penderfynwyd cefnogi argymhelliad y Swyddog i wrthod y cais am y rhesymau a roddir.**

***(Ni phleidleisiodd y Cynghorwyr Clive McGregor a Vaughan Hughes ar y mater)***

## 8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Nid oedd dim i'w ystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion.

## 9 CEISIADAU AM DŶ FFORDDIADWY

Nid oedd dim i'w ystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion.

## 10 CEISIADAU SY'N GWYRO

### 10.1 24C268E Adnewyddu caniatâd cynllunio 22C268B – Caniatâd cynllunio i godi tŷ ynghyd â chreu mynedfa newydd ar blot 3 ar dir ger Gwelfor, Cerrig-mân

Rhoes y Rheolwr Datblygu Cynllunio wybod i'r Pwyllgor bod y cais yn gwyro oddi wrth y cynllun datblygu y mae'r awdurdod cynllunio lleol o blaid ei ganiatáu oherwydd bod modd ei gefnogi dan Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn – cynllun sydd wedi'i atal. Ar ben hyn, mae'r ffaith bod gwaith paratoi ar gyfer y Cynllun Datblygu Unedol hwn wedi mynd cryn ffordd yn golygu bod modd, yn yr achos hwn, roi cymaint o bwys arno nes trechu darpariaethau'r cynllun datblygu. Mae'r cais ar blot mewnlenwi, mae hanes cynllunio blaenorol i'r safle ac mae'n gais i adnewyddu caniatâd cynllunio.

Cynigiodd y Cynghorydd Jim Evans ganiatáu'r cais a chafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad.**

## 11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

### 11.1 19C1015A Cais llawn i godi pum tŷ ynghyd â chreu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr yn yr Eglwys Fethodistaidd Saesneg, Ffordd Longford, Caergybi, Ynys Môn

Roedd y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion gan fod yr ymgeisydd yn perthyn i swyddog perthnasol fel a ddiffinnir ym mharagraff 4.6.10.42 y Cyfansoddiad. Edrychodd y Swyddog Monitro ar y cais yn fanwl yn ôl y gofyn dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Rhoes Rheolwr yr Adain Rheoli Datblygu wybod i Aelodau bod y Cyngor Tref bellach wedi ymateb i'r cais ac er nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais penodol hwn, roedd wedi mynegi pryderon ynghylch y sefyllfa draffig yn yr ardal yn gyffredinol. Roedd Swyddogion Priffyrdd, fodd bynnag, yn hapus gyda'r datblygiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts ganiatáu'r cais a chafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Clive McGregor.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad ac ar yr amod na dderbynid sylwadau'n gwrthwynebu erbyn y dyddiad cau am sylwadau, sef 12 Rhagfyr.**

### 11.2 49C171G/1 Cais llawn i wneud gwaith altro a chodi estyniadau yn 4 Gorwelion, y Fali, LL65 3AP

Roedd y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion gan fod yr ymgeisydd yn perthyn i swyddog perthnasol fel a ddiffinnir ym mharagraff 4.6.10.42 y Cyfansoddiad. Edrychodd y Swyddog Monitro ar y cais yn fanwl yn ôl y gofyn dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Cadarnhaodd Rheolwr yr Adain Rheoli Datblygu nad oedd gwrthwynebiad i'r bwriad wedi dod i law a bod dyluniad yr estyniadau arfaethedig yn dderbyniol.

Cynigiodd y Cynghorydd Clive McGregor ganiatáu'r cais a chafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad.**

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

### 12.1 11C591 Newid defnydd tir diffaith i greu ardal natur a hamdden ar dir y tu ôl i 16-21 Bro Trehirion, Amlwch

Datganodd W.T.Hughes ddiddordeb yn y cais hwn ond wedi cael cyngor cyfreithiol mai personol ac nid anfanteisiol oedd y diddordeb, a hynny dan Baragraff 12 y Côd Ymddygiad, arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran yn y drafodaeth a phleidleisio arno.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion am y cais gan fod y tir yn eiddo i Gyngor Sir Ynys Môn. At hyn, roedd yr Aelod Lleol wedi galw'r cais i'r Pwyllgor Cynllunio oherwydd pryderon trigolion lleol.

Rhoes y Cadeirydd wybod i'r Aelodau bod yr Aelod Lleol wedi gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle.

**Penderfynwyd ymweld â'r safle yn unol â chais yr Aelod Lleol.**

### 12.2 19C1105 Cais llawn i osod traen atal dan ddaear, siambr archwilio a gorsaf bwmpio fechan ar dir ger 1-12, Llys Watling, Caergybi, LL65 2PB

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion oherwydd iddo gael ei wneud ar dir y Cyngor.

Rhoes Rheolwr yr Adain Rheoli Datblygu wybod i'r Pwyllgor bod sylwadau wedi'u derbyn gan ddeiliaid Fflatiau 10 a 11 Llys Watling ers drafftio'r adroddiad. Er nad oedd y deiliaid yn gwrthwynebu'r cais roeddynt wedi mynegi pryderon ynghylch y sŵn posib y gallai'r orsaf bwmpio arfaethedig ei greu - roedd hyn yn fater a godwyd yn adroddiad y Swyddog, hefyd. Ers

ysgrifennu'r adroddiad, roedd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod wedi cadarnhau na fyddai'r orsaf bwmpio'n creu niwsans o ran sŵn.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad.**

**12.3 46LPA965/CC Cais llawn i ledu'r llithrfa ar dir yn Lôn Isallt, Trearddur, LL65 2UN**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion oherwydd iddo gael ei wneud ar dir y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Clive McGregor ganiatáu'r cais a chafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Kenneth Hughes.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad.**

**12.4 48LPA851C/CC Uwchraddio'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref yng Nghanolfan Ailgylchu Gwalchmai, Gwalchmai**

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion at y bwriad gan mai Adran Rheoli Gwastraff y Cyngor oedd yn ei wneud.

Eglurodd Rheolwr yr Adain Rheoli Datblygu mai cais yng nghyswllt rheoli traffic ar y safle oedd hwn a'r bwriad oedd gwahanu llifoedd traffic cyhoeddus a masnachol ar y safle am resymau diogelwch ac fel ei bod yn haws defnyddio'r safle. Yr argymhelliad oedd caniatáu gyda newid i amod 2. Nid oedd modd i amod ei gwneud yn ofynnol i safle gael ei gadw'n 'lân' ac yn 'daclus' gan mai prawf goddrychol oedd hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts ganiatáu'r cais gyda'r newid a chafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Clive McGregor.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r newid i'r amodau yn yr adroddiad.**

**13 MATERION ERAILL**

**13.1 33C258A Cais i benderfynu a oes angen caniatâd blaenorol i godi estyniad i'r sied amaethyddol er mwyn cadw anifeiliaid yn 'Cefn Poeth', Penmynydd**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y penderfynwyd nad oedd angen caniatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r datblygiad uchod a'i fod yn ddatblygiad a ganiateir. Felly, er gwybodaeth y rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion am y cais gan fod yr ymgeisydd yn perthyn i aelod o staff.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth.**

**13.2 Cais i benderfynu a oes angen caniatâd blaenorol i godi sied amaethyddol i gadw peiriannau a bwyd yn 'Bryn Derwydd', Brynsiencyn**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y penderfynwyd nad oedd angen caniatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r datblygiad uchod a'i fod yn ddatblygiad a ganiateir. Felly, er gwybodaeth yn unig y rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchymynion am y cais.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth.**

**Y Cynghorydd J.Arwel Roberts**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# YMWELIADAU Â SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL :** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Richard A Dew; Jim Evans, Kenneth P. Hughes, Vaughan Hughes, W. T. Hughes, Clive McGregor, R. L. Owen, Eric Roberts; |
| **WRTH LAW** : | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (Nia Jones)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (Priffyrdd) (Richard Eames) (ar gyfer eitem 3 yn unig)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU** : | Y Cynghorydd Lewis Davies |
| **HEFYD YN BRESENNOL :** | Aelodau Lleol : Y Cynghorydd H. Eifion Jones (eitem 2), Cynghorydd Selwyn Williams (eitem 3), Cynghorydd R. Dylan Jones (eitem 4). |

---

1. **10C114A – Cais llawn i leoli fferm arae heulol ar dir yn gyfagos i Tai Moelion, Ty Croes**

   Y Swyddogion oedd wedi argymell mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2012 y dylai'r aelodau ymweld â'r safle.

   Dangosodd y Swyddog Cynllunio fap i'r Aelodau o safle'r datblygiad oedd yn 30 hectar i gyd gyda 10 hectar wedi ei neilltuo ar gyfer y datblygiad. Eglurodd y swyddog bod y cynnig yn golygu gosod 3,200 o fodiwlau heulol gyda 20 cell i bob un. Bydd pob modiwl yn mesur 10m o hyd a 3m o led a'u huchder yn 2.5m. Edrychodd yr aelodau ar y safle a dywedodd y Swyddog wrthynt y byddai defaid yn gallu pori rhwng y modiwlau gyda hynny'n golygu y byddai yna ddeunydd cymysg i'r safle. Bydd y modiwlau yn cynhyrchu 15 megawat o bŵer. Byddai'r modiwlau heulol yn rhai na fydd yn adlewyrchu goleuni.

   Holodd yr Aelodau y Swyddog ar faterion mewn perthynas â phŵer a gosodiad ac fe edrychwyd ar safle'r datblygiad arfaethedig o gyfeiriad arall tuag at gefn y safle. Cadarnhaodd y Swyddog bod asesiad wedi ei wneud o'r dirwedd ac ar yr effaith weledol.

2. **37C174C – Cais llawn i godi un tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder hwb o hyd at 36.5m, uchafswm diametr rotor o hyd at 30m ac uchafswm uchder i flaen y llafn o 46.1m a hefyd gosod ciosg rheoli a thrac mynediad ar dir yn Tre-Ifan, Brynsiencyn.**

   Y Swyddogion oedd wedi argymell mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2012 y dylai'r aelodau ymweld â'r safle.

   Cyfeiriodd y Swyddog Cynllunio at fesuriadau'r tyrbin gwynt arfaethedig a dywedodd wrth yr Aelodau bod cynllun mynediad i'r safle ar gael. Cyfeiriodd at Melin Bodowyr fel adeilad rhestredig ac yr oedd delwedd weledol wedi ei chyflwyno yn ei chylch. Cyfeiriodd yr Aelodau at y ddau eiddo oedd agosaf i'r cynnig gyda'r preswylwyr wedi mynegi pryder ynglŷn â'r effaith debygol a gâi'r cynnig o ran fflachiadau cysgodion. Eglurodd fod yna asesiad o fflachiadau cysgodion ynghyd â'r cais ond bod yr asesiad hwnnw yn seiliedig ar dyrbin mwy o faint. Ni fydd fflachiadau cysgodion o dyrbin o faint a fwriedir yma yn debygol o gyrraedd yr eiddo dan sylw.

Mynegwyd pryderon hefyd gan ddeilyddion eiddo i'r cyfeiriad arall ac yr oedd y perchennog wedi cael caniatad cynllunio am addasiad gwyliau ac roedd yn bryderus oherwydd yr effeithiau posibl o safbwynt twristaidd.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn ag effaith weledol y cynnig o gyfeiriad Gwynedd. Cadarnhaodd y swyddog bod asesiad effaith weledol wedi ei wneud o safbwynt Gwynedd ac hefyd wedi'i asesu gan y swyddogion. Mae safle'r datblygiad arfaethedig hefyd rhyw 1.1 km o'r AHNE. Soniodd y Swyddog am faterion eraill oedd yn codi ac yn ymwneud â'r effeithiau posibl ar yr ardal fel ardal o ddiddordeb archeolegol o safbwynt y nodweddion archeolegol oedd i'w gweld yn Caer Leb a'r 2 meini hirion o safbwynt yr effaith bosibl ar y gosodiad archeolegol.

**3. 39C285D – Cais llawn i godi 17 annedd ar dir yn Lôn Gamfa, Porthaethwy**

Y Swyddogion oedd wedi argymell mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2012 y dylai'r aelodau ymweld â'r safle.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio wrth yr Aelodau nad oedd cadarnhad wedi ei dderbyn oedd yn caniatáu mynediad ar y safle. Edrychodd yr Aelodau ar safle'r datblygiad arfaethedig felly o ben y stad dai cyfagos. Dywedodd y Swyddog mai'r prif faterion sydd yn codi yw materion priffyrdd a draenio. Mae yna hefyd bryderon ynglŷn â pharcio. Roedd Adrannau Priffyrdd a Draenio'r Awdurdod wedi cadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r cynnig. Roedd y cais wedi cael ei hysbysebu fel un oedd yn groes i bolisi oherwydd ei fod yn disgyn y tu allan i'r Cynllun Datblygu ond y mae yn dod o fewn darpariaethau'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Roedd adroddiad ecolegol hefyd ar gael lle'r oedd Swyddog Ecolegol y Cyngor yn gofyn rhai cwestiynau.

Dangosodd y Swyddog Rheoli Datblygu (Priffyrdd) gopi i'r Aelodau o'r cynllun mynediad ac eglurodd y byddai'r fynedfa a'r traffig i'r safle'n cael eu rheoli gan system flaenoriaeth. Mae arolwg archwilio annibynnol llawn o'r fynedfa i'r safle wedi ei gynnal ac y mae'r canlyniadau yn foddhaol.

Cyfeiriodd yr Aelod Lleol at faterion yn ymwneud â pharcio, priffyrdd, llifogydd ac edrych drosodd.

**4. 11C591 – Newid defnydd tir gwag i ffurfio ardal natur a hamdden ar dir yng ngefn 16 - 21 Bro Trehirion, Amlwch.**

Ymwelwyd â'r safle ar ofyn yr Aelod Lleol.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio mai cais oedd hwn i newid defnydd tir gwag i greu ardal natur gyda llwybrau a byrddau dehongli. Dangosodd i'r Aelodau gynllun o osodiad arfaethedig y safle. Edrychodd yr Aelodau ar y safle gan nodi ei agosrwydd at eiddo preswyl cyfagos. Cyfeiriodd yr Aelod Lleol at bryderon y preswylwyr.

**Y Cynghorydd J. Arwel Roberts**
**Cadeirydd**

## 6.1 Gweddill y Ceisiadau — Remainder Applications

Rhif y Cais: **19C313A** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Executors of the Estate of Eleanor Bouch Jones Deceased**
**c/o Jan Tyrer Planning Consultant**
**Awelfryn**
**Allt Cichle**
**Llandegfan**
**Menai Bridge**
**Ynys Mon**
**LL59 5TD**

Cais amlinellol ar gyfer codi 22 annedd ynghyd a chreu mynedfa newydd ar dir rhwng

Outline application for the erection of 22 dwellings together with the construction of a new access on land between

Pentrefelin and Waenfawr Estate, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(NJ)**

**Argymhelliad:**

Ymweliad Safle

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Oherwydd natur a chyd-destun y datblygiad byddai'n ddefnyddiol i'r aelodau fod wedi gweld y safle cyn dod i benderfyniad.

**1. Argymhelliad**

Ymweliad Safle

**6.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **39C285D** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Bennett Homes**
**c/o J S Allan RIBA**
**Gerallt**
**3 Stâd Castellor**
**Cemaes**
**Ynys Môn**
**LL67 0NP**

Cais llawn ar gyfer codi 17 o dai ar dir yn

Full application for the erection of 17 dwellings on land at

Lon Gamfa, Menai Bridge



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(DPJ)**

**Argymhelliad:**

Gohirio

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Parhau i ddisgwyl am ymateb i ymgynghori gan Ymgynghorydd Amgylcheddol y Cyngor ac mae angen datrys hyn cyn y gellir cyflwyno adroddiad llawn ar y cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio.

**1. Argymhelliad**

Gohirio

**7.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **10C114A** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Bodorgan Environmental Management Ltd**
**c/o D.K. Symes Associates**
**Mr. Douglas Symes**
**39 Main Road**
**Middleton Cheney**
**Banbury**
**Oxfordshire**
**OX17 2ND**

Cais llawn ar gyfer lleoli fferm arae heulol ar dir ger

Full application for the siting of a solar array farm on land adjacent to

Tai Moelion, Ty Croes



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DFJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor oherwydd maint a natur y cynnig.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r cais yn un i godi fferm solar ar 30 hectar o dir pori wedi ei wella yn Fferm Tai Moelion sydd mewn lleoliad anghysbell 3km i'r gogledd orllewin o bentref Aberffraw, 0.5km i'r gorllewin o bentrefan Soar ac i'r gogledd o'r brif reilffordd rhwng Caergybi a Chaer.

Bydd y cynnig yn cynhyrchu hyd at 15MW o drydan ac yn cysylltu i'r gwifrau 33kv sydd uwchben y ddaear ar hyn o bryd. Gofynnir am ganiatâd cynllunio yn y lle cyntaf am gyfnod o 25 o flynyddoedd.

Dywed yr ymgeisydd bod 15MW yn cyfateb i'r trydan a ddefnyddir bob blwyddyn gan oddeutu 4,500 o gartrefi.

Er bod y safle cyffredinol yn ymestyn i 30 hectar, mae ôl-troed gwirioneddol y gwahanol gydrannau ar y ddaear yn sylweddol llai; oddeutu 10 hectar. Y cydrannau hyn yw:

- 6 chae yn cynnwys 3200 o fodiwlau solar (yn cynnwys 20 o gelloedd) gyda phob un ohonynt yn 10m o hyd wedi eu haleinio o'r dwyrain i'r gorllewin mewn rhesi. Mae'r rhesi hyn oddeutu 3m o led a 2.5m o uchder ac mae 4.5m rhyngddynt.
- 18 o adeiladau ar gyfer gwrthdroyddion/trawsnewidwyr (oddeutu un ar gyfer pob 1.5MW o ynni). Mae pob adeilad yn mesur 3m x 5m x 2.5m o uchder.
- Byndiau pridd a gwaith tirlunio.

Mae'r modiwlau wedi eu gosod yn ôl o ffiniau'r caeau cyfredol a bydd y ffiniau yn cael eu cadw a bydd ffens ddiogelwch 2m yn cael ei chodi o gwmpas y safle.

Oherwydd y ffaith na fydd rhannau mawr o'r safle (yr ardaloedd rhwng y rhesi) yn cael eu datblygu, parheir i ddefnyddio'r tir fel tir pori; mewn gwirionedd, bydd defnydd cymysg yn cael ei wneud o'r tir, defnydd amaethyddol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
Mae'r cais yn gyflwyniad cynhwysfawr a gefnogir gan:

Asesiad o'r Dirwedd ac Asesiad Gweledol
Asesiad Ecolegol

Asesiad Diwylliannol/Treftadaeth.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Er y gall cais o'r math a'r maint hwn godi nifer o faterion eang ac amrywiol, rwyf wedi crynhoi'r prif rai yn fy marn i;

A yw'r egwyddor o ddatblygu yn dderbyniol o ran polisi cynllunio.

A yw'r cynnig yn cael effaith dderbyniol ar yr amgylchedd ai peidio yn arbennig felly o ran y dirwedd, materion ecolegol a threftadaeth ddiwylliannol.

Yn yr adroddiad hefyd, ystyrir materion eraill sy'n ymwneud â dŵr, y perygl o lifogydd, mwynderau a thrafnidiaeth.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
C7 Ynni Adnewyddadwy
D1 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
D3 Ardal Gadwraeth Tirwedd
D4 Amgylchedd
D9 Amgylchedd
D15 Archaeoleg

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 Cyffredinol
30 Tirwedd
31 Tirwedd
32 Tirwedd
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
P08b Datblygiadau Ynni
GP1 Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
GP2 Dyluniad
EN4 Bioamrywiaeth
EP 18 Ynni Adnewyddadwy
EN1 Cymeriad y Dirwedd
EN2 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
EN14 GCC a Gwrychoedd
EN16 Nodweddion Tirwedd

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 5 (Tachwedd 2012)**

**Nodyn Cyngor Technegol 5:Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Nodyn Cyngor Technegol 18;Trafnidiaeth (2007)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr', Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror 2011)**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Mewn ymateb i’r ymgynghori, cafwyd ymatebion gan yr isod a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd – Dim sylwadau.

SP Energy Networks – Yn dweud bod ganddynt offer o fewn safle’r datblygiad a bod angen i’r datblygwr Gymryd camau priodol i osgoi unrhyw beryglon yn ystod gwaith ar y safle.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – Yn ystyried mai risg amgylcheddol isel sydd gan y cais ac yn amlinellu cyngor safonol ynghylch yr amgylchedd dwr a’r angen i gael yr holl ganiatadau perthnasol yn hynny o beth.

Adain Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Nid yw’n gwrthwynebu ond yn nodi’n hytrach fod llwybr 52 yn hollti’r safle ac yn gwneud cais i’r datblygwr weithio gyda nhw i wella’r llwybr.

Ymgynghorydd Ecolegol y Cyngor – Dim gwrthwynebiadau.

Swyddog AHNE y Cyngor – Dim gwrthwynebiadau.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Dim yn gwrthwynebu oherwydd eu bod yn ystyried na fydd y cynigion yn cael effaith andwyol ar rywogaethau a ddiogelir na’r dirwedd.

Awdurdod Priffyrdd – Dim gwrthwynebiad.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r cais hefyd gan yr awdurdod cynllunio lleol yn unol â gofynion statudol.

Ni chafwyd unrhyw sylwadau hyd yma.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

10C114/SCR - Penderfynwyd barn sgrinio ar gyfer gosod fferm araE heulol ar 26.11.12 pryd benderfynwyd nad oedd angen asesiad o’r effaith ar yr amgylched.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**A yw’r egwyddor o ddatblygu yn dderbyniol o ran polisi cynllunio.**

Noda Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:

“Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i’r awdurdod cynllunio lleol. Lle bo hynny’n briodol, dylid cefnogi’r cynigion gan asesiad o’r effaith ar yr amgylchedd.”

Noda Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn;

“Bydd caniatâd yn cael ei roddi i brosiectau ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir
na chânt effaith annerbyniol ar :- i. Gymeriad y dirwedd. ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o safbwynt diogelu natur.
iii. Rhywogaethau pwysig o safbwynt diogelu natur.
iv. Safleoedd a henebion hanesyddol o bwys.
v. Safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu mwynhau. vi. Sustemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Noda Polisi 8B- Datblygiadau Ynni Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd:
“Caniateir ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac adnewyddadwy lle y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir y flaenoriaeth i ddatblygu ffynonellau ynni glan ac adnewyddadwy, ond gellir caniatáu cynigion ar gyfer prosiectau ynni anadnewyddadwy os byddant yn hyrwyddo manteisio i’r eithaf ar effeithlonrwydd ynni yn eu cynllun.”

Ceir eglurhad o fewn y fersiwn diweddaraf o Polisi Cynllunio Cymru fod y dybiaeth o blaid datblygu gynaliadwy wedi’i gryfhau.

Mae’r Adran 12.8.1 Polisi Cynllunio Cymru (Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) yn nodi’r targedau ac yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy yn unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010).

Mae Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 12.8.15 yn dweud y bydd yr effeithiau oddi wrth ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn amrywio gan ddibynnu ar eu lleoliad a’u maint a bydd angen eu hystyried yn wahanol o ran polisi a rheoli datblygu. Fel fferm heulol 15MW mae’r un sy’n destun yr adroddiad hwn yn cael ei gategoreiddio fel “Yr Awdurdodau Lleol” ym Mholisi Cynllunio Cymru sy’n cynnwys datblygiadau rhwng 5MW a 50MW yn ôl ffigwr 12.3

Fel gosodiad “Yr Awdurdodau Lleol” mae maint y fferm heulol yn dderbyniol mewn egwyddor o ran termau polisi yn y lleoliad hwn ond y mae yna hefyd ystyriaethau manwl o fewn yr ystyriaethau polisi fel y manylir arnynt isod.

Mae Adran12.10.1 a atgynhyrchir isod yn tynnu sylw at faterion y dylai’r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth ymdrin â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys agweddau cadarnhaol megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewropeaidd, ac yn ehangach buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn amlygu'r angen i ystyried yr effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol a'r angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol. Amlygir materion eraill hefyd o fewn yr adran hon, megis lliniaru a materion seilwaith h.y. y cysylltiad â'r grid a’r rhwydwaith cludiant, fel a ganlyn:

12.10.1 Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried:

- cyfraniad y cynnig at fodloni targedau a’r potensial a bennwyd yn genedlaethol, a chan y DU ac Ewrop, ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cyfraniad at dorri allyriadau nwyon tŷ̂ gwydr;
- y manteision a’r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler Adran 5.5), yr arfordir (gweler Adran 5.6) a’r amgylchedd hanesyddol (gweler Adran 6.5);
- yr angen i leihau’r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;
- ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt;
- effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a’r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a ydy’r mesurau i ymaddasu i effeithiau’r newid yn yr hinsawdd yn arwain at effeithiau eraill (gweler 4.5);
- materion sy’n ymwneud â’r cysylltiad â’r grid, pan gynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan);
- gallu’r seilwaith trafnidiaeth, a’r effeithiau arno, yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu’r cynnig.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) (paragraff 1.4) yn datgan fod gan Lywodraeth y Cynulliad darged o 4TWh o drydan y flwyddyn i gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020.

Mae paragraff 3.15 o TAN 8 yn nodi"other than in circumstances where visual impact is critically damaging to a listed building, ancient monument or a conservation area vista, proposals for appropriately designed solar thermal and PV systems should be supported".

Mewn llythyr o eglurhad dyddiedig Gorffennaf 2011 dywed Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy "er mwyn osgoi unrhyw amheuon yn y dyfodol, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio o dan ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref ar brosiectau sy'n gysylltiedig ag ynni yng Nghymru
(ar wahân i rai gosodiadau ynni penodol), y fframwaith polisi cynllunio pwysicaf yw cynllun
datblygu mabwysiedig yr awdurdod cynllunio lleol, ac os yn fwy diweddar, Bolisi Cynllunio
Llywodraeth Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 8".

Mae Adran 2 Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

"2.1.1 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi cyflenwad cymunedau gwledig cynaliadwy. Gall helpu sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr
adeg gywir drwy sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau gwledig. Ar yr un pryd, rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhaid iddo hefyd warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored. Nod cyffredinol y system gynllunio yw cefnogi cymunedau gwledig sy'n fyw ac yn gweithio er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Dylai awdurdodau cynllunio geisio cryfhau cymunedau gwledig, drwy helpu i sicrhau bod modd i'w trigolion presennol weithio a defnyddio gwasanaethau yn lleol, gan ddefnyddio dulliau teithio carbon isel a chael cyfran uwch o'u hynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol.

Yng nghyswllt arallgyfeirio ar ffermydd mae Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

"3.7.2 Mae'n bosibl lleoli nifer o weithgareddau economaidd yn gynaliadwy ar ffermydd. Mae gweithrediadau bach ar y fferm, megis prosesu bwyd a choed a phecynnu bwyd, ynghyd â gwasanaethau (e.e. swyddfeydd, gweithdai, llogi a chynnal a chadw offer), gwasanaethau chwaraeon a hamdden, cynhyrchu cnydau heblaw am fwyd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i gyd yn debygol o fod yn ddefnyddiau priodol."
Mae'n amlwg bod y polisïau a restrir uchod yn darparu tybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy wrth gyfarfod â thargedau a nodwyd ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel. Mae maint y datblygiad a ddosbarthir fel "Yr Awdurdodau Lleol" yn dderbyniol mewn egwyddor yn y lleoliad hwn. Fel y manylir yn y polisïau a restrir, mae yna ystyriaethau amgylcheddol eraill sydd angen eu hasesu, ac fe'u hystyrir isod.

**A yw'r cynnig yn cael effaith dderbyniol ar yr amgylchedd ai peidio, yn arbennig mewn perthynas â thirwedd, a threftadaeth ddiwylliannol ac ecolegol.**

**Tirwedd a Gweledol** - Mae asesiad Tirwedd a Gweledol, Asesiad Ecolegol ac Asesiad Treftadaeth Diwylliannol wedi eu cynnwys gyda'r cais.

Mae'r asesiad yn cynnwys ardal astudiaeth o 1km o gwmpas y safle a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol sydd y tu draw i'r brif linell reilffordd sy'n rhedeg o Gaergybi i Gaer. Mae'r safle y tu allan i'r AHNE ond o fewn Ardal Tirwedd Arbennig(ATA) ac fe'i disgrifir yn yr asesiad fel tir o fewn dyffryn bas sy'n rhedeg o'r gogledd ddwyrain i'r de orllewin mewn tirwedd donnog wedi ei britho gan fryncynnau creigiog, tir prysg, perthlys a ffiniau caeau. Mae'r safle ei hun ar dir fferm agored ac unig o fewn y dirwedd hon.

Mae arglawdd y rheilffordd yn nodwedd hynod yn y dirwedd sy'n 8m o uchder ac yn rhedeg yn erbyn graen y dirwedd naturiol. Mae'r arglawdd rhwng y safle a'r AHNE sydd y tu draw iddo.

Mae'r asesiad yn darogan y bydd effaith andwyol fechan yn y lle cyntaf ar y dirwedd a'r olygfa ond bod modd i'r yr ardal gymryd y datblygiad oherwydd topograffi'r safle a chadw ffiniau'r caeau cyfredol. Bydd yr effeithiau hyn yn gostwng dros amser wrth i'r mesurau tirweddu arfaethedig (ar ffurf plannu a banciau ddaear) sefydlu ac aeddfedu. Nodir hefyd na fydd y safle'n cael ei oleuo yn ystod oriau o dywyllwch.

Rhagwelir y bydd unrhyw effeithiau andwyol yn lleol i'r safle ac y bydd yr effaith yn fwy ar eiddo cyfagos a defnyddwyr y llwybr cyhoeddus sy'n croesi'r safle. Fodd bynnag, bwriedir cymryd camau lliniaru fel y disgrifir uchod. Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol eraill o'r tu draw i'r safle (fel o'r AHNE) wedi eu nodi a'r casgliad cyffredinol yw nad yw hwn yn ddatblygiad annerbyniol.

Mae'n anochel y byddai'r datblygiad yn cael effaith fwy yn ystod y gwaith adeiladu a dadgomisiynu oherwydd gweithgareddau gydag offer a pheiriannau yn y safle. Fodd bynnag, cyfnodau byr fydd y rhain (10-12 wythnos bob tro) a byddant yn dod i ben.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn fodlon gyda'r asesiad a wnaed ac nid ydynt yn ystyried y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol. Mae'r Awdurdod cynllunio lleol hefyd yn ystyried bod yr asesiad a ddarparwyd ar y dirwedd a'r effaith weledol yn gadarn ac yn fodlon nad yw'r cynnig mor ddifrodol fel na ddylid ei gefnogi.

Gellir defnyddio amod priodol mewn perthynas â thirlunio.

**Ecoleg** - Mae Asesiad Ecolegol gyda'r cais sy'n casglu bod gwerth y safle yn adlewyrchu gwerth tir pori sydd wedi ei wella; sef gwerth ecolegol isel.

Y prif feysydd diddordeb yw'r gwrychoedd, waliau cerrig, pyllau a thir corsiog ac nid yw'r un o'r rhain yn cael ei golli. Collir rhywfaint o gynefin ar gyfer adar ar y caeau agored ond mae digonedd o'r fath gynefin yn yr ardal.

Mae'r safle'n cael ei ffensio i ffwrdd ac, o ganlyniad, mae cynllun pori gyda mwy o reolaeth, ynghyd â chreu ymylon na fyddir yn tarfu arnynt o gwmpas ffiniau'r caeau yn creu cyfleon ar gyfer bioamrywiaeth.

Mae'r asesiad yn casglu bod unrhyw dir a gollid yn dir o werth isel a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer casglu porthiant ac mae digonedd ohono yn yr ardal. Heb gymryd camau lliniaru, mae effaith andwyol fechan ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, cynigir camau lliniaru trwy gadw'r cynefinoedd allweddol a nodir uchod ac fe gânt eu gwella trwy well rheolaeth. Cynigir Cynllun Rheoli Cynefin ac ystyrir bod y camau lliniaru hyn yn ddigonol.

Nid yw Ymgynghorydd Ecolegol y Cyngor; Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru na Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn codi unrhyw wrthwynebiadau ar sail ecolegol. Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn cytuno gyda'r asesiad a gyflwynwyd ac yn ystyried y gellid delio gyda'r mater yn foddhaol trwy osod amod.

**Treftadaeth ddiwylliannol -** Mae'r Asesiad Treftadaeth Ddiwylliannol yn cydnabod nad amherir yn fawr ar y tir a bod hynny wedi ei gyfyngu'n bennaf i osod coesau'r modiwlau yn y tir. Cyfrifir bod y treiddiad tir yn 0.08 hectar.

Gall ffosydd bas ar gyfer ceblau i ffiniau caeau achosi rhywfaint o ddifrod ond gellir bod yn hyblyg ynghylch lleoliad a'r dulliau o gloddio'r fath ffosydd.

Nododd asesiad gwaelodlin nad oedd unrhyw asedau treftadaeth ddiwylliannol o fewn y safle ac y byddai monitro archeolegol yn lliniariad digonol.

Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn cytuno gyda'r asesiad hwn ac yn ystyried y gellid delio â'r mater yn

foddhaol gydag amod.

**Dwr, risg llifogydd, mwynderau a chludiant**

**Dwr a risg llifogydd** - Dywed y cais mai prin iawn fydd yr effaith oherwydd bod y rhan fwyaf o'r tir gwyrdd ar ôl. Ni ragwelir unrhyw newidiadau amlwg i batrymau draenio. Mae'r adeiladau arfaethedig yn fychan a byddant yn draenio'n uniongyrchol i'r tir ac ni fydd unrhyw lygredd oherwydd bod y panelau heulol wedi eu hadeiladu o ddeunyddiau anadweithiol. Ymddengys bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cytuno ar y dadansoddiad hwn ac maent wedi asesu mai risg amgylcheddol isel sydd i'r cais. Nid oes gan yr awdurdod cynllunio lleol unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb.

**Mwynderau** - Dywed y cais nad yw'r panelau heulol na'r gwrthdroydd/trawsnewidydd yn gwneud unrhyw sŵn ac na fyddant chwaith yn codi llwch pan fyddant yn gweithredu. Mae'r unedau wedi eu gorffen gydag wyneb sydd ddim yn adlewyrchu ac sydd am sugno golau ac nid ydynt yn cynhyrchu arogleuon.

Bydd yr effeithiau cyfyngedig hyn yn cael eu lliniaru ar unwaith gan waith plannu cyfredol ac fe gânt eu lliniaru ymhellach dros amser wrth i waith tirlunio ychwanegol aeddfedu.

Mae peth potensial ar gyfer niwsans yn ystod y gwaith adeiladu a digomisiynu ond cyfnodau byr fydd y rhain (10-12 wythnos bob tro) a gelir eu rheoli trwy arferion gorau a rheolaeth dda.

Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd – dim sylwadau i'w gwneud ac mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried na fydd unrhyw effaith andwyol sylweddol ar fwynderau trigolion cyfagos yn ystod oes weithredol y datblygiad.

**Cludiant** – Mae Cynllun Cludiant gyda'r cais sy'n nodi mai'r prif weithgaredd fydd ar adeg adeiladu a digomisiynu'r gwaith. Unwaith y bydd yn weithredol, ni fydd ond angen mynediad ar gyfer diogelwch, gwasanaethu a chynnal.

Danfonir deunyddiau yn y lle cyntaf i Trac Môn/Anglesey Circuit sydd â mynediad uniongyrchol i rwydwaith priffyrdd da; yr A4080 a'r A55. Wedi hynny caiff deunyddiau eu danfon i safle'r datblygiad gan ddefnyddio offer fferm a cherbydau ysgafn.

Cynigir system un ffordd gyda symudiad "ar y safle" trwy Aberffraw a'r ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain heibio Cae Mawr, Fferm tŷ Mawr a Graig. Bydd y llwybr "oddi ar y safle" trwy Soar yn ôl i Aberffraw a heibio Cerrig Cafael a Glanrafon. Llwybr arall o bosib ar gyfer traffig oddi ar y safle yw trwy Orsaf Tŷ Croes a heibio Bodelwa.

Mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiadau. Mae'n anochel y bydd rhywfaint o amharu ar ddefnyddwyr ffyrdd cyfredol yn ystod y cyfnodau hyn (10-12 wythnos bob tro). Fodd bynnag, cyfnodau byr fydd y rhain a byddant yn cael eu rheoli. O'r herwydd, nid yw'n fwriad codi gwrthwynebiad ar y sail hon.

**7. Casgliad**

Mae polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol yn rhagdybio o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy fel ffordd o gyfrannu'n gadarnhaol at yr agenda gynaliadwyedd ehangach.

Mae'r cynnig yn dderbyniol o ran y dirwedd a'r effaith weledol, nid yw'n niweidio bioamrywiaeth na threftadaeth ddiwylliannol ac nid yw'n cael effaith andwyol annerbyniol ar fwynderau.

Bydd unrhyw effeithiau andwyol (fel amharu ar draffig, sŵn a llwch) yn cael eu cyfyngu i'r cyfnodau adeiladu

a digomisiynu.  Cyfnodau dros dro fydd y rhain a gellir eu rheoli.

Darperir camau lliniaru i sicrhau y bydd unrhyw effeithiau tymor hwy yn gostwng dros oes weithredol y datblygiad.  Mae'r caniatâd cynllunio am gyfnod dros do ac mae modd ei wrthdroi; bydd modd dychwelyd y tir i ddefnydd amaethyddol llawn.

**8. Argymhelliad**

Bod **caniatâd** cynllunio yn cael ei roi gyda'r amodau canlynol;

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02)  Bydd raid tynnu'r datblygiad a gymeradwyir drwy hyn oddi ar y tir dim hwyrach na 25 mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn neu pan nad oes unrhyw drydan wedi ei gynhyrchu am gyfnod di-dor o 6 mis, pun bynnag sy'n digwydd gyntaf.  Wedi hynny, bydd raid adfer y safle yn unol â chynllun adfer ysgrifenedig y bydd rhaid ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.  Bydd raid adfer y safle yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt cyn pen 6 mis i'r caniatâd ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm:  Diffinio sgôp y caniatâd a sicrhau bod y safle'n edrych yn foddhaol ar ôl i'r datblygiad ddod i ben.
**(03) Rhaid i'r holl geblau o fewn y safle sydd eu hangen mewn cysylltiad â'r datblygiad a ganiateir trwy hyn fod wedi'u gosod o dan y ddaear.**

Rheswm: Er lles mwynderau gweledol.

**(04) Ni chyflawnir unrhyw ddatblygiad ar y safle hyd nes fo gweithrediad rhaglen o waith archeolegol wedi ei sicrhau yn unol â chynllun ymchwiliad ysgrifenedig a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol**.

Rheswm: I gofnodi a gwarchod unrhyw dystiolaeth archeolegol a all fod yn bresennol ar y safle.

**(05) Bydd y safle yn cael ei dirlunio a choed a llwyni'n cael eu plannu yn unol â chynllun i'w gytuno arno yn ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol cyn cychwyn unrhyw waith datblygu ar y safle, oni bai bod cytundeb ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol i'r gwrthwyneb.  Bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol fod yn fodlon hefo'r holl waith plannu a thirlunio a wneir yn ystod y tymor plannu cyntaf sy'n dilyn cychwyn defnyddio'r adeilad(au) neu gwblhau'r adeilad(au) pa un bynnag yw'r cyntaf.  Bydd y coed a'r llwyni hyn yn cael eu cynnal am gyfnod o 5 mlynedd ar ôl eu plannu ac os yw unrhyw goed neu lwyni marw, yn cael eu difrodi'n ddifrifol neu'n cael eu heintio yn ystod y cyfnod hwn, bydd rhai newydd o faint a rhywogaeth debyg i'r rhai gwreiddiol yn cael eu rhoi yn eu lle yn ystod y tymor plannu nesaf, oni bai fod yr awdurdod cynllunio lleol yn  rhoi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer unrhyw newid.**

Rheswm ; I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei integreiddio'n foddhaol yn y dirwedd.

**(06) Ni chyflawnir unrhyw ddatblygiad ar y safle hyd nes y bydd rhaglen rheoli cynefin wedi ei sicrhau yn unol â chynllun ysgrifenedig a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd ar bapur gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

Rheswm ; I sicrhau na fydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar fioamrywiaeth.

**(07) Ni chaniateir i’r safle gael ei oleuo gan olau artiffisial yn ystod oriau tywyllwch.**

Rheswm: I sicrhau na fydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar gymeriad yr ardal

**(08) Rhaid ymgymryd â'r datblygiad a ganiateir dan y caniatâd hwn yn gwbl unol â’r cynllun a gyflwynwyd ar y 26.11.12 and 03.12.12 dan gais cynllunio rhif. 10C114A.**

Rheswm: Er mwyn diffinio sgôp y caniatâd ac er mwyn eglurder.

**7.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **11C591** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Cyngor Tref Amlwch**
**c/o RGR Partnership**
**1st Floor NatWest Bank Building**
**Glanhwfa Road**
**Llangefni**
**LL77 7EN**

Newid defnydd o dir diffaith i greu ardál natur a hamdden ar dir tu cefn i

Change of use of derelict land to form a nature and recreation area on land to the rear of

16 - 21 Bor Trehirion, Amlwch



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cyngor Sir Ynys Môn sydd biau’r tir.

Ymwelwyd â’r safle ar 19eg Rhagfyr, 2012

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle’r cais oddeutu 0.5 hectar ac mae arno goed a llystyfiant. Yn y Datganiad ynghylch Dyluniad a Mynediad, dywedir bod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn digwydd yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae eiddo sy’n wynebu Stryd Mona a’r tai gwarchod cyfagos yn ffinio ar y safle.

Mae’r cynnig yn un i newid defnydd yr ardal yn faes adloniant gan gynnwys clirio’r llystyfiant, gwella’r fynedfa a’r gwaith ffensio a darparu llefydd i eistedd a gwaith tirlunio.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddorion y Datblygiad
- Mwynderau’r Ardal
- Mwynderau Preswyl

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
CH1 (Datblygiadau Adloniadol a Thwristaidd)
D4 (Lleoliad, Dyluniad a Gosodiad)
D14 (Amddiffyn Coetiroedd Bras-Ddeiliog)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 (Polisi Cyffredinol)
14 (Cyfleusterau Hamdden a Cymunedol)
17 (Cyfleusterau Hamdden a Cymunedol)
32 (Tirlunio)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP1 (Canllawiau Rheoli Datblygu)
GP2 – (Dyluniad)
CC1 – (Cyfleusterau Cymunedol)

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 5 (Tachwedd 2012)**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Yr Aelod Lleol** – Wedi gofyn i’r Pwyllgor Cynllunio ystyried y cais oherwydd pryderon trigolion lleol.

**Cyngor Cymuned** – Gadael y penderfyniad i'r awdurdod cynllunio lleol.

**Priffyrdd** – Dim argymhelliad

**Network Rail** – Dim gwrthwynebiad

**Dŵr Cymru** – Caniatâd amodol

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd un ddeiseb gan drigolion Bro Trehinion a Stryd Mona yn gwrthwynebu'r cais cynllunio. Mae 45 o bobl wedi llofnodi'r ddeiseb.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim hanes cynllunio perthnasol.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Egwyddorion y Datblygiad

Dywed Polisi CH1 Cynllun Fframwaith Gwynedd y caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau adloniadol a thwristaidd lle maent yn cydymffurfio gyda fframwaith polisi'r cynllun.

Dywed Polisi 14 Cynllun Lleol Ynys Môn y bydd y Cyngor yn caniatáu cyfleusterau adloniadol a chymunedol a ddangosir at y mapiau cynigion a chynlluniau eraill yn amodol ar y meini prawf isod:

i. Eu bod yn ychwanegu at safon ac amrediad y cyfleusterau sydd ar gael i drigolion lleol ac ymwelwyr
ii. Lleddfu pwysau ar ardaloedd sy'n fwy sensitif o safbwynt amgylcheddol
iii. Sicrhau mynediad hwylusach i'r cyhoedd i ardaloedd agored sydd o wrth adloniadol

Dywed Polisi 17 Cynllun Lleol Ynys Môn y bydd y Cyngor yn caniatáu cyfleusterau cymunedol a ddangosir ar y map cynigion a chynlluniau eraill ar safleoedd addas o fewn y ffin ddatblygu neu ar gyrion aneddiadau eraill.

Dywed Polisi CC1 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd y bydd y Cyngor yn caniatáu datblygu cyfleusterau cymunedol sy'n cynnal neu'n gwella'r cyfleusterau cymunedol sydd o fewn neu yn ymyl ffiniau datblygu.

Mae egwyddor y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r polisïau a restrir uchod.

**Mwynderau'r Ardal**

Ystyrir bod nodweddion cadarnhaol i'r cynnig oherwydd byddai'n arwain at welliant sylweddol o ran mwynderau'r ardal a hynny oherwydd y byddai'r safle'n cael ei glirio ac oherwydd safon y cynigion.

**Mwynderau Preswyl**

Derbyniwyd deiseb yn gwrthwynebu'r datblygiad.

Nid ystyrir bod y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau eiddo cyfagos. Byddai unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai ddigwydd yn fater i'r heddlu.

**7. Casgliad**

Mae egwyddor y datblygiad yn dderbyniol a bydd y cynigion yn gwella mwynderau yn yr ardal. Nid ystyrir y bydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau preswyl.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn y datblygiad y cyfeirir ato yn y caniatâd cynllunio hwn ddim hwyrach na (phum) mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei wneud yn gwbl unol â'r manylion yn y cynlluniau yn y tabl isod ac sydd wedi eu cynnwys yn y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cyfryw gais.**

| **Rhif Darlun** | **Enw Darlun** |
|---|---|
| BM2624-A4-03 | Cynllun Lleoliad |
| 1831.01 | Arolwg o'r Safle |
| 1831.04 | Cynllun Plannu |
| 1831.02 | Cynigion Tirlunio |
| 1831.04 | Llwybr Graean |
| 1831.05 | Giât Mochyn 1.2m o uchder a Manylion Ffensio |

**Oni bai cymeradwywyd yn ysgrifenedig fel arall gan yr awdurdod cynllunio lleol neu wedi cynnwys o dan ddarpariaeth unrhyw amodo'r caniatâd cynllunio.**

Rheswm i sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

**(03) Ni chaniateir i ddŵr wyneb lifo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus oni bai y cytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Atal gormod o ddŵr rhag llifo i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus, gwarchod iechyd a diogelwch preswylwyr a sicrhau na chaiff yr amgylchedd ei niweidio.

**(04) Ni chaiff dŵr draenio tir arllwys yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.**

Rheswm: Rhwystro gormod o ddŵr rhag llifo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

**(05) Mae Carthffos gyhoeddus yn croesi'r datblygiad arfaethedig ac mae'r lleoliad bras yn cael ei nodi ar y Cofnod Statudol - Carthffosydd Cyhoeddus. Dan y Ddeddf diwydiant Dwr 1991 mae hawl gan Dwr Cymru I gael at ei offer ar unrhyw adeg. Ni Chaniateir I unrhyw ran o'r adeilad fod o fewn 3 metr i linell y garthffos gyhoeddus**

Rheswm: Er mwyn gwarchod y cyfan o'r garthffos gyhoeddus ac osgoi difrod iddi..

**7.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **37C174C** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Richard Rogers**
**c/o Mr PeterLeach**
**Awel Menai Cyf**
**Maes Gwenith**
**Nercwys**
**Mold**
**Sir y Fflint**
**CH74EL**

Cais llawn ar gyfer codi un twrbin gwynt gyda uchder hwb hyd at cyfanswm o 36.5m, diamder rotor hyd at at uchafswm o 30m, a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 46.1m ynghyd a gosod ciosg rheoli a thrac mynediad ar dir yn

Full application for the erection of one wind turbine with a maximum hub height of up to 36.5m, a maximum rotor diameter of up to 30m, and a maximum upright vertical tip height of up to 46.1m together with the installation of a control kiosk and access track on land at

Tre-Ifan, Brynsiencyn



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasnaeth Cynllunio (NJ)**

**Argymhelliad:**

Gwrthod

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd penderfynwyd na fydd pwerau dirprwyedig yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â datblygiadau tyrbinau gwynt.

Cynhaliwyd ymweliad â'r safle ar 19eg Rhagfyr 2012.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais yn cynnwys cae amaethyddol, gyda mynediad ar hyd trac fferm presennol, sydd â mynediad iddo o ffordd fach sy'n arwain o'r A4080.

Mae'r cais yn cael ei wneud am un tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder i flaen y llafn o 46.1 metr, uchafswm uchder i'r hwb o 36.5 metr ac uchafswm diamedr rotor o 30 metr. Uchafswm sgôr pŵer y tyrbin y gwneir cais amdano yw 50 kw. Mae uchder y strwythur arfaethedig yn cymharu gydag uchder o tua 45m ar gyfer mast Penmynydd.

Mae'r cais hefyd yn cynnwys strwythurau atodol, gan gynnwys adeilad rheoli a ffyrdd mynediad / lloriau caled.

Mae'r cais cynllunio yn cael ei gefnogi gan y canlynol:

Datganiad i Gefnogi'r Cais sy'n cynnwys asesiad o dirwedd ac effaith weledol a wnaed gan y datblygwr, adroddiad sŵn, adroddiad cysgodion symudol, ac adroddiad ecoleg Cyfnod 1.

Mae cynllun yn dangos y llwybr y traffig cyflenwi arfaethedig ac Asesiad Archeolegol hefyd wedi cael eu cyflwyno.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Tirwedd ac Effaith Weledol
- Amwynder Preswyl.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
C7 Ynni Adnewyddadwy
D1 AHNE
D3 Ardal Gadwraeth Tirwedd

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 Cyffredinol
30 Tirwedd
31 Tirwedd
35 Diogelu Natur
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

EP 18 Ynni Adnewyddadwy
EN1 Cymeriad y Dirwedd
EN2 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
EN4 Bioamrywiaeth

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 5 (Tachwedd 2012)**

**Nodyn Cyngor Technegol 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr', Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror 2011)**

**Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994).**

**Canllawiau Dros Dro Nodyn Cyngor Technegol Natural England TIN051 (Ystlumod a Thyrbinau Gwynt ar y Tir)**

**4. Ymateb i Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Yr Aelod Lleol** – Yn cefnogi'r penderfyniad i ddod â phob cais am dyrbin gwynt gerbron y Pwyllgor i'w penderfynu.

**Cyngor Cymuned** – Codwyd pryderon i gychwyn ynglŷn â diffyg ymgynghoriad cyhoeddus, nid oes datganiad ymgysylltu cymunedol wedi cael ei gyflwyno, mae'r cyflwyniad mewn perthynas ag effeithiau gweledol yn wan, mae angen montage ychwanegol ynghyd ag Asesiad Tirwedd ac effaith Weledol llawn; mae'n rhy gynnar i ystyried effeithiau sŵn hyd nes y gwyddom beth fydd union fodel y tyrbin; lleoliad y tyrbin wedi symud ymlaen ers i'r farn sgrinio gael ei gwneud; sawl eiddo wedi eu lleoli o fewn 500m o'r tyrbin, sydd yn groes i ganllawiau'r CCA newydd; angen Asesiad Effaith Twristiaeth; nid oes digon o fanylion wedi'u darparu mewn perthynas â chysgodion symudol, traffig adeiladu, effeithiau ecolegol ac archeolegol a derbyniad teledu a radar .Gwrthwynebu'r cais ar sail canlyniadau'r Asesiad Archeolegol, ar y sail nad oes unrhyw Asesiad Trafnidiaeth wedi cael ei wneud ac oherwydd y bwriedir i'r traffig adeiladu gael ei gyfeirio drwy bentref Brynsiencyn,

**Draenio**: sylwadau ar gyfer y cam adeiladu.

**Priffyrdd** – Awgrymu amodau mewn perthynas â mynediad i'r safle a hysbysiadau cynghori o ran cyfnod adeiladu.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**: Ni ystyrir y bydd y cynllun yn effeithio ar olygfeydd allan o'r Parc Cenedlaethol oherwydd ei faint a'i leoliad, ond gallai golygfeydd i'r gwrthwyneb effeithio ar osodiad y Parc Cenedlaethol.

**Ymgynghorydd Amgylcheddol** Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â phellter o nodweddion tirwedd / awgrymu ail-leoli'r tyrbin. Cyflwynwyd manylion ychwanegol ac ystyrir bod y cais yn cydymffurfio â chanllawiau TIN051.

**Swyddog Iechyd yr Amgylchedd** Ystyrir y dylai'r cais allu cydymffurfio â'r amod ETSU syml.

**Amgylchedd Adeiledig** Ddim yn gallu cefnogi'r cais presennol ar y sail y byddai'n cael effaith weledol andwyol sylweddol; effaith tirwedd a gweledol cronnus posibl ar yr AHNE arfordirol a choridorau tirwedd a thrafnidiaeth, a newidiadau sylweddol i gymeriad y dirwedd.

**Arqiva** Dim gwrthwynebiad ar sail effaith ar dderbyniad teledu.

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:** Gofynnwyd am Asesiad Archeolegol cyn-penderfynu. Mae hyn wedi cael ei baratoi, ond ni ystyrir ei fod yn ddigonol i gwrdd â'r canllawiau cyfredol gan nad yw'r adroddiad yn ystyried effaith y gosodiad yn ddigonol. Gofynnwyd am fanylion pellach gan GAPS ond ni dderbyniwyd y rhain ar adeg ysgrifennu.

**CADW**: Dim gwerthusiad o effaith bosibl y tyrbin arfaethedig ar leoliad henebion cofrestredig ac o'r herwydd nid yw'r cais wedi dangos na fyddai'n cael effaith andwyol. Disgwyl sylwadau mewn ymateb i'r Asesiad Archeolegol a gyflwynwyd.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** Nid yw'n gwrthwynebu'r cais gan ei fod yn annhebygol o effeithio, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar nodweddion, ymarferoldeb neu gyfanrwydd safleoedd gwarchodedig statudol o ddiddordeb ecolegol, daearegol neu geomorffolegol. Mae'n annhebygol bod rhywogaethau a warchodir yn bresennol yn ardal y cais ac ni ystyrir y bydd y cais yn andwyol i gynnal statws cadwraeth ffafriol o unrhyw boblogaethau rhywogaethau gwarchodedig statudol presennol yn eu hamrediad naturiol.

Mae'r cais o fewn 1km i AHNE Ynys Môn o fewn tirwedd amaethyddol cymharol wastad gyda ffiniau gwrychoedd a choed gwrychoedd aeddfed a bydd codi unrhyw strwythur fertigol o'r raddfa arfaethedig o fewn y math hwn o dirwedd yn cynhyrchu effeithiau gweledol andwyol ac yn creu canolbwynt gweledol o fewn y cefn gwlad ehangach. O ystyried y pellter gwahanu a thopograffeg, mae'n annhebygol y caiff y tyrbin arfaethedig effeithiau andwyol sylweddol ar yr AHNE.

Fodd bynnag, gellir cael effeithiau lleol neu ranbarthol, mewn perthynas â'r AHNE, y dylid eu hasesu ynghyd ag effeithiau cronnus

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn** Caniatâd amodol

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd 587 o lythyrau yn gwrthwynebu'r cais cynllunio am y rhesymau a ganlyn:

Bydd y cynnig yn dominyddu'r dirwedd;
Bydd y cais yn golygu ymyrraeth weledol sylweddol;
Bydd y cais yn cynrychioli strwythur diwydiannol estron mewn tirwedd heb ei difetha yn flaenorol;
Bydd effeithiau cronnus annerbyniol gyda cheisiadau eraill yn arwain at i'r ardal ddod yn fferm wynt;
Bydd effeithiau negyddol ar osodiad adeiladau rhestredig;
Bydd y cais yn tynnu oddi ar osodiad colofn yr ardalydd;
Bydd effeithiau sylweddol ar y dirwedd ac amwynder gweledol;
Effaith niweidiol ar asedau twristiaeth a'r economi twristiaeth;
Bydd yn gosod cynsail ar gyfer datblygiad pellach;
Ni ddylai polisïau cenedlaethol sy'n hybu'r defnydd o adnoddau adnewyddadwy gael blaenoriaeth dros bolisïau tirwedd lleol;
Effeithiau niweidiol ar yr AHNE a'r Parc Cenedlaethol;
Effeithiau niweidiol ar rywogaethau, bywyd gwyllt a gwlypdiroedd sy'n cael eu diogelu;
Effeithiau sŵn a chysgodion symudol, effeithiau iechyd;
Dim digon o fanylion yn y cais, gan ei wneud yn annilys;
Goblygiadau archeolegol;
Mae technolegau eraill yn bodoli sy'n fwy effeithlon na thyrbinau gwynt
Goblygiadau traffig a chludiant

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

37C174/SCR Barn Sgrinio ynghylch codi un tyrbin gwynt 18m o uchder ar dir yn Nhre Ifan, Brynsiencyn - Dim angen EIA 19/11/10

37C174A/SCR Barn Sgrinio ynghylch lleoli tyrbin 500kw 40m o uchder, ynghyd â'r is-orsaf gysylltiedig ar dir yn Nhre Ifan, Brynsiencyn – Dim angen EIA 22/6/11

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Egwyddor datblygu**

Noda Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:

"Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i'r awdurdod cynllunio lleol. lle bo hynny'n briodol, dylid cefnogi'r cynigion gan asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd."

Noda Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:

"Bydd caniatâd yn cael ei roddi i brosiectau ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir
na chânt effaith annerbyniol ar :- i. Gymeriad y tirwedd. ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o safbwynt diogelu natur.
iii. Rhywogaethau pwysig o safbwynt diogelu natur.
iv. Safleoedd a henebion hanesyddol o bwys.
v. Safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu mwynhau. vi. Sustemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Noda Polisi 8B- Datblygiadau Ynni Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd:

"Caniateir ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac adnewyddadwy lle y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir y flaenoriaeth i ddatblygu ffynonellau ynni glan ac adnewyddadwy, ond gellir caniatáu cynigion ar gyfer prosiectau ynni anadnewyddadwy os byddant yn hyrwyddo manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd ynni yn eu cynllun."

Cafodd Polisi Cynllunio Cymru ei ddiweddaru i Argraffiad 5 ym mis Tachwedd 2012. Y newid mwyaf arwyddocaol oedd egluro a chryfhau'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy. O ran adran 12.8 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel Polisi Cynllunio Cymru, nid oes unrhyw newidiadau sylweddol.

Mae Adran 12.8.1 (Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) Polisi Cynllunio Cymru (5ed Argraffiad Tachwedd 2012) yn nodi targedau ac yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy yn unol â Llywodraeth Cynulliad Cymru Datganiad Polisi Ynni (2010).

Dywed Polisi Cynllunio Cymru ym mharagraff 12.8.15 y bydd effeithiau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy hefyd yn amrywio gan ddibynnu ar eu lleoliad a graddfa a bod angen polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu gwahanol. Ar 330KW, mae'r tyrbin sy'n destun yr adroddiad hwn yn cael ei gategoreiddio fel 'Is Awdurdod Lleol' ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n cynnwys datblygiadau o rhwng 50KW a 5MW (Ffigwr 12.3). Mae Tabl 3.1 y Canllaw Ymarfer – Mae Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel yn datgan nad oes unrhyw gategorïau pendant i ddisgrifio maint y tyrbinau gwynt unigol ond bod gosodiadau yn tueddu i ddod o fewn 4 prif led band. Byddai'r tyrbin sy'n destun i'r adroddiad hwn yn dod o fewn y categori 'Canolig' sy'n cael ei ddosbarthu ar uchder o hyd at 65m i flaen y llafn - ond ar 50kw mae ar ben isaf y sbectrwm, gyda thyrbinau 'Bach' yn cael eu diffinio fel rhai rhwng 1.5 a 50kw gydag uchder o 20m nodweddiadol i flaen y llafn. Fel gosodiad 'Is Awdurdod Lleol' neu 'Ganolig' mae maint y tyrbin yn dderbyniol mewn egwyddor o ran polisi yn y lleoliad, ond mae hefyd ystyriaethau manwl o fewn yr ystyriaethau polisi i'w cymryd i ystyriaeth.

Mae Adran12.10.1 o PCC (Argraffiad 5) a atgynhyrchir isod yn tynnu sylw at faterion y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth ymdrin â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn

cynnwys agweddau cadarnhaol megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewropeaidd, ac yn ehangach buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn amlygu'r angen i ystyried yr effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol a'r angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol. Amlygir materion eraill hefyd o fewn yr adran hon, megis lliniaru a materion seilwaith h.y. y cysylltiad â'r grid a'r rhwydwaith cludiant, fel a ganlyn:

12.10.1 Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel
a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried:

- cyfraniad y cynnig at fodloni targedau a'r potensial a bennwyd yn genedlaethol a chan y DU ac Ewrop, ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cyfraniad at dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- y manteision a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler Adran 5.5), yr arfordir (gweler Adran 5.6) a'r amgylchedd hanesyddol (gweler Adran 6.5);
- yr angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;
- ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt;
- effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a'r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a ydy'r mesurau i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at
  effeithiau eraill (gweler 4.5);
- materion sy'n ymwneud â'r cysylltiad â'r grid, pan gynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan);
- gallu'r seilwaith trafnidiaeth, a'r effeithiau arno, yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu'r cynnig.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) (paragraff 1.4) yn datgan fod gan Lywodraeth y Cynulliad darged o 4TWh o drydan y flwyddyn i gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad bod angen 800MW o gapasiti gosodedig ychwanegol o ffynonellau gwynt ar y tir.

Mae paragraff 2.12 o TAN 8 yn nodi fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol annog, drwy eu polisïau cynllun datblygu ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol, cynlluniau ffermydd gwynt cymunedol llai (yn gyffredinol yn llai na 5 MW). Mae'r paragraff yn esbonio y gallai awdurdodau cynllunio lleol ddiffinio 'yn y gymuned'. Nid oes diffiniadau polisi y gellir eu defnyddio ar hyn o bryd a'u pwysoli yn hyn o beth. Mae'r cais yn cadarnhau mai bwriad y cynllun yw cefnogi arallgyfeirio amaethyddol ac amcanion hyfywedd economaidd ond mae hefyd yn anelu at fod o fudd i'r gymuned ehangach pryd bynnag y bo'n bosib trwy osod contractau adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'n lleol; gwario'r incwm fferm cynyddol ar wasanaethau ffermio lleol a gwelliannau, a chyfrannu 2.5% o'r elw net o'r prosiect bob blwyddyn i'w gadw mewn ymddiriedolaeth i gefnogi prosiectau cymunedol lleol (t.2 Datganiad Cynllunio).

Mae Adran 2 Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

*"2.1.1 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi cyflenwad cymunedau gwledig cynaliadwy. Gall helpu sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir drwy sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau gwledig. Ar yr un pryd, rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhaid iddo hefyd warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored. Nod cyffredinol y system gynllunio yw cefnogi cymunedau gwledig sy'n fyw ac yn gweithio er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Dylai awdurdodau cynllunio geisio cryfhau cymunedau gwledig, drwy helpu i sicrhau bod modd i'w trigolion presennol weithio a defnyddio gwasanaethau yn lleol, gan ddefnyddio dulliau teithio carbon isel a chael cyfran uwch o'u hynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol."*

Yng nghyswllt arallgyfeirio ar ffermydd mae Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

*"3.7.2 Mae'n bosibl lleoli nifer o weithgareddau economaidd yn gynaliadwy ar ffermydd. Mae gweithrediadau bach ar y*

*fferm, megis prosesu bwyd a choed a phecynnu bwyd, ynghyd â gwasanaethau (e.e. swyddfeydd, gweithdai, llogi a chynnal a chadw offer), gwasanaethau chwaraeon a hamdden, cynhyrchu cnydau heblaw am fwyd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i gyd yn debygol o fod yn ddefnyddiau priodol.”*

Mae’r Canllaw Cynllunio Atodol: ‘Datblygiadau Ynni Gwynt' (1994) a fabwysiadwyd gan y cyngor yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, oherwydd oed y ddogfen, mae yn y broses o gael ei disodli gan fersiwn wedi'i diweddaru o'r enw 'Ynni Gwynt ar y Tir', sydd ar hyn o bryd yn yr 2il gyfnod ôl-ymgynghorol, a dim ond ychydig o bwysau y gellir ei briodoli iddi.

Mae'n amlwg bod y polisïau a restrir uchod yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy, i gyrraedd y targedau a nodwyd ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel. Mae graddfa’r datblygiad sy’n cael ei ddosbarthu fel 'Is Awdurdod Lleol' neu 'Ganolig' yn dderbyniol mewn egwyddor yn y lleoliad hwn. Gall pwysau hefyd gael ei briodoli i'r manteision i'r economi wledig. Fel y nodwyd yn y polisïau a restrir, mae yna hefyd ystyriaethau amgylcheddol a chymunedol eraill y mae angen eu hasesu, ac ystyrir y rhain isod

**Tirwedd ac Effaith Weledol**

Mae'r asesiad yn cynnwys Map Parth Gweledadd Damcaniaethol (ZTV) hyd at 15km, delweddau panoramig, ffotogyfosodiadau, delweddau trychlun hir, a Datganiad Dylunio a Mynediad (DAS). Ceir lluniau ychwanegol yn yr Asesiad Archeolegol. Nid yw’r Asesiad Tirwedd a Gweledol a geir yn y DAS yn dilyn y fethodoleg a argymhellir ond mae’n cael ei ystyried yn ddigonol i asesu’r cais hwn.

Mae'r safle arfaethedig o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd 12 (LCA) Canol Dwyrain Ynys Môn. Mae'r LCA yn ffurfio parth clustogfa mewndirol i Afon Menai ac mae’n adlewyrchu llawer o dirwedd donnog nodweddiadol Ynys Môn. LCA 12 yw'r LCA drydedd fwyaf ar yr ynys, yn cynnwys ardal o 100kms².

Materion perthnasol allweddol ar gyfer LCA 12 yn achos y cais hwn yw: -

- effeithiau ar y cynefinoedd arfordirol a'r angen i ystyried y Cynllun Rheoli AHNE; effaith y datblygiad ar ymylon aneddiadau;
- effeithio ar goridorau cludiant a chymeriad ac ansawdd y porth i Ynys Môn.

Mae'r safle tua 1.1 km o ymyl yr AHNE (yr A4080 ym Mrynsiencyn), tua 21 (AOD), ac mewn tirwedd amaethyddol o gaeau agored mawr, tua’r tir o’r Dirwedd Arfordirol.

Mae'r map yn dangos golygfeydd ZTV damcaniaethol o’r AHNE. Mae'n dangos yr effaith gyfyngedig yn Ardal Cymeriad Tirwedd 13 (LCA 13) a golygfeydd damcaniaethol yn Ardal Cymeriad Tirwedd 14 (LCA 14). Dangosir bod cyfran uwch o LCA14 o fewn y ZTV nag yn yr LCA13 sy’n agosach. Mae golygfeydd o’r tyrbin o'r ardaloedd hyn yn debygol o fod yn debyg o ran graddfa i’r montage ffotograffig o Llangaffo a gyflwynwyd fel rhan o'r cais. Mae maint y newid mewn golygfeydd yn cael ei ystyried yn uchel a sylweddol yn yr AHNE. Mae'r ZTV yn ymestyn i Wynedd ac ystyrir y byddai amlygrwydd y tyrbin yn cynyddu o safbwyntiau uchel e.e. Castell Caernarfon. Byddai’r golygfeydd yn gosod y tyrbin yng nghyd-destun yr AHNE arfordirol lle byddai'n cael ei weld fel nodwedd ar y gorwel. Er y byddai ei amlygrwydd yn lleihau gyda phellter, bernir ei fod yn sylweddol andwyol, gan greu argraff o dyrbin gwynt o fewn tirwedd yr AHNE.

Mewn perthynas â derbynyddion gweledol, mae rhai golygfeydd uniongyrchol ac agored o lwybrau troed cyfagos, tra mewn rhai rhannau, efallai y bydd golygfeydd yn cael eu cuddio gan Dre Ifan ei hun a choed o amgylch. Byddai'r datblygiad yn nodwedd amlwg ac adnabyddus ac yn sylweddol andwyol o ran ei effaith hyd at radiws o 1km o'r safle. Ni ystyrir bod y golygfeydd o Lwybr Arfordirol Cymru yn sylweddol, o ystyried y pellter a sgrinio.

O ran effeithiau cronnus, mae’n annhebygol y bydd golygfeydd mewn cyfuniad gyda ffermydd gwynt presennol yng ngogledd yr ynys, oherwydd y pellter. Y golygfeydd o Ynys Môn o'r A487 yw’r AHNE ar hyd yr Afon Menai. Byddai'r tyrbin yn weladwy uwchben yr AHNE, yn torri’r nenlinell. Mae effeithiau dilyniannol ac mewn cyfuniad posibl o'r A487 gyda cheisiadau eraill sydd wedi'u clystyru yn ardal Penmynydd, a fyddai'n creu argraff o dirwedd gyda thyrbinau gwynt, gan niweidio lleoliad gweledol yr AHNE.

ae effeithiau cyfunol damcaniaethol o goridorau ffyrdd e.e. yr A5 a'r A55 ger Rhostrehwfa lle byddai tyrbinau'n cael eu gweld yn erbyn cefndir o fynyddoedd, ac yn cael eu deall fel elfen newydd a chydnabyddedig yn yr olygfa. Byddai effaith weledol gronnus wrth eu hystyried â pheilonau a mastiau telathrebu sy'n bodoli eisoes yn yr olygfa.

Gall cyflwyno tyrbin i LCA 12 leihau ymhellach sensitifrwydd y dirwedd hon i newid ychwanegol, yn enwedig tyrbinau gwynt pellach a lleihau ansawdd y *'glustogfa'* dirwedd i'r AHNE.

Dywed Adran 8.4 NCT 8 bod amcan goblygedig i gynnal ansawdd ac integriti AHNE, h.y. ni ddylai'r tybrinau newid cymeriad y dirwedd. Yr un modd, ar gyfer gweddill Cymru, y tu allan i'r Ardaledd Chwilio Strategol, yr amcan goblygedig yw y dylid gwarchod cymeriad y diwedd, h.y. eto, ni ddylai tyrbinau newid cymeriad y diwrwedd.

Yn unol â TAN8, yr amcan ymhlyg yw na ddylai fod unrhyw newid sylweddol yng nghymeriad y dirwedd o ddatblygiad tyrbin gwynt o fewn ardal o'r fath. Mae gogledd Ynys Môn wedi bod yn destun cryn newid yn y dirwedd ac effaith weledol o dair fferm wynt bresennol, ynghyd â chynlluniau eraill sydd wedi cael caniatâd. Gallai cyflwyno tyrbin i Ardal Cymeriad Tirwedd arall sicrhau newid, lle bo tyrbinau yn nodwedd gyffredin mewn rhan fawr o'r sir. Byddai'r cais yn arwain at effeithiau gweledol andwyol sylweddol; effaith sylweddol ar yr Ardal Cymeriad Tirwedd ac effeithiau tirwedd a gweledol cronnus posibl i dirwedd yr AHNE arfordirol a choridorau cludiant.

**Treftadaeth Ddiwylliannol**

Mae Asesiad Archeolegol wedi cael ei gyflwyno sy'n awgrymu y bydd y cais yn cael effaith uniongyrchol ffisegol ar waliau terfyn cerrig sydd o bwysigrwydd lleol yn unig; mae risg ganolig i uchel bod olion archeolegol anhysbys wedi eu claddu ar y safle oherwydd natur a graddau'r safleoedd archeolegol hysbys yn yr ardal, sy'n arwain at yr angen i gael briff gwylio dwys yn ystod y cyfnod adeiladu; yn nhermau effeithiau gweledol, gwelir bod gan y cais effeithiau gweledol ar dair heneb restredig, dwy yn cael eu diffinio fel rhai lefel ganolig i uchel (maen hir Trefwri a grŵp cytiau Pont Sarn-Las) a'r llall fel un effaith isel (Siambr Gladdu Bodowyr). Nododd Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd fodd bynnag nad yw'r adroddiad yn ystyried effaith y gosodiad yn ddigonol, yn unol â chanllawiau cyfredol ac mae wedi gofyn am wybodaeth bellach. Fodd bynnag, awgrymir y gall yr effaith ar osodiad maen hir Trefwri fod yn annerbyniol. Disgwylir am y wybodaeth honno ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Hefyd disgwylir ymateb gan CADW ar yr Asesiad Archeolegol.

**Ecoleg**

Cyflwynwyd adroddiad arolwg ecolegol i gefnogi'r cais sy'n awgrymu nad oes tystiolaeth o gynefinoedd sensitif neu rywogaethau a ddiogelir ar safle'r tyrbin arfaethedig. Mae'r tyrbin dros 50m o unrhyw wrychoedd ac mae'n annhebyol iawn y byddai ystlumod yn taro i mewn iddo.
Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi adolygu'r cais a'r adroddiad arolwg ac wedi dod i'r canlyniad na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol o ran cynnal statws cadwraeth ffafriol unrhyw rywogaethau a ddiogelir . Ym marn Ymgynghorydd Ecolegol y Cyngor, mae'r cais yn cwrdd â'r canllawiau presennol TIN051.

**Sŵn**

Mae'r cais yn cynnig tyrbin gwynt E-3120 Endurance fel y tyrbin ymgeisiol ar gyfer y safle, er mai dim ond cyn adeiladu'r tyrbin y bydd dewis terfynol yn cael ei wneud, petai caniatâd cynllunio yn cael ei roi. Mae paragraff yn y Datganiad Cynllunio a map sŵn a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur wedi'u cyflwyno i gefnogi'r cais. Mae'r cais, fodd bynnag, wedi cael ei asesu gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd sy'n cadarnhau y dylai'r tyrbin ymgeisiol fedru cydymffurfio â'r amod ETSU syml. Nid yw'r tyrbin wedi ei leoli mewn ardal a ystyrir yn gyffredinol yn un sydd ag effaith sŵn cronnus, ond dylid ystyried hyn petai unrhyw ddatblygiadau ychwanegol yn cael eu cynnig yn y dyfodol.

**Amwynder Preswyl**

Gwnaethpwyd asesiad o effeithiau ar amwynder preswyl anheddau cyfagos, a oedd yn cynnwys anheddau preswyl

ynghyd â'r bythynnod gwyliau sy'n cael eu hadeiladu yn Nhyddyn Adda a Dolwaenydd.

Mae Polisi C7 o Gynllun Fframwaith Gwynedd yn cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy os yw'r effaith ar yr ardal yn dderbyniol. Mae Polisi 45 o Gynllun Lleol Ynys Môn yn ei gwneud yn ofynnol nad yw datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael effaith annerbyniol ar 'safon y mwynderau a fwynheir gan breswylwyr a'r boblogaeth dwristiaid'. Mae Polisi EP18 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn cynnwys yr un maen prawf, ond yn ei gwneud yn ofynnol iddo beidio â chael effaith andwyol sylweddol. Mae Polisïau 1 a GP1 o Gynllun Lleol Ynys Môn a Chynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd hefyd yn berthnasol wrth ystyried amwynder preswyl.
Noda paragraff 12.8.14 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5):

"..Bydd angen i ddatblygwyr fod yn sensitif i amgylchiadau lleol, gan gynnwys lleoli datblygiadau yn unol â thirffurfiau lleol, pa mor agos ydynt at aneddiadau, ac ystyriaethau eraill o ran cynllunio…"

Mae Atodiad D TAN 8 yn rhestru'r ffactorau y dylid fel arfer eu hadolygu i ganfod 'ardaloedd sy'n dechnegol ddichonadwy' ar gyfer datblygu cynlluniau ynni gwynt ar y tir. Ym mharagraff 3.4, nodir 'ar hyn o bryd mae 500m yn cael ei ystyried yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbin gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol, fodd bynnag, pan gaiff ei ddefnyddio mewn modd anhyblyg gall arwain at ganlyniadau ceidwadol ac felly cynghorir rhywfaint o hyblygrwydd"

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt (1994) 'CCA' y Cyngor yn nodi y bydd y cyngor yn rhoi ystyriaeth ffafriol i brosiectau ynni adnewyddadwy yn yr achosion hynny lle y gellir dangos yn glir na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar yr ystyriaethau rhestredig sy'n cynnwys 'safon y mwynderau a fwynheir gan y boblogaeth breswyl a thwristiaid '. O dan 7.3 'Diogelwch y Cyhoedd, Fflachiadau Cysgodion, Ymyrraeth Weledol ac Effaith ar Ddiogelwch y Briffordd' mae'r 'CCA' yn cynnwys safon a argymhellir na fydd unrhyw dyrbin yn cael ei osod yn nes na 400 metr at y tŷ annedd agosaf, gydag eithriad posibl anheddau a feddiannir gan y perchnogion tir lle bwriedir lleoli'r tyrbinau.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, ychydig o bwysau y gellir ei briodoli i'r CCA drafft sydd wrthi'n cael ei baratoi gan y cyngor.

Mae swyddogion hefyd wedi ystyried penderfyniadau a wnaed gan Arolygwyr Cynllunio mewn perthynas ag amwynder gweledol preswyl. Mae dadansoddiad o'r fath yn awgrymu mai trothwy maen prawf cyffredin a ddefnyddir gan Arolygwyr ar gyfer asesu amwynder gweledol preswyl yw lle byddai'r newid golygfa'n effeithio ar amodau byw sylfaenol. Mae'r termau amrywiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r trothwy hwn yn cynnwys, e.e. 'gormesol', 'gormodol', neu 'llethol'.

Rhai o'r anheddau sydd agosaf at y tyrbin arfaethedig yw:

| Eiddo | Pellter Bras o'r Cais |
|---|---|
| Llys Elen | 449m |
| Ty Mawr | 470m |
| Cae'r Ffynnon | 516m |
| Dolwaenydd | 540m |
| Estyniad Bodlew Bach | 568m |
| Tyddyn Adda | 572m |
| Bodlew Bach | 584m |

Maent i gyd yn bellach na'r pellter 400m a argymhellir o dan y CCA ar hyn o bryd ac mae pob un ond dau ymhellach na'r pellter 500m a awgrymir yn TAN 8.

Mae Atodiad C Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi cyngor ar Gysgodion Symudol a Golau a Adlewyrchir. Gwelir nad yw cysgodion symudol ond yn digwydd mewn eiddo sydd hyd at 10 diamedr rotor oddi wrth dyrbin ac o fewn 130 gradd ar naill ochr ogleddol o'r lledredau hyn yn y DU. Nid oes eiddo preswyl yn yr ardal hon. Mae'r ymgeiswyr wedi cyflwyno dadansoddiad cysgodion symudol wedi eu seilio ar dyrbin mwy (uchder hwb o 40m ac uchder blaen y llafn o 65.75m a diamedr rotor o 51.5m) yn nodi graddfa'r cysgodion a fyddai'n effeithio ar yr eiddo a nodwyd. Dywed yr ymgeisydd gan fod y cais yn cael ei wneud am dyrbin llai ei bod yn annhebygol y bydd cysgodion yn effeithio ar unrhyw eiddo preswyl, gan nad oes yr un o fewn 10 pellter o ddiamedr y rotor.

Mewn penderfyniad apêl diweddar yn Bodneithior, Llandyfrydog, cyfeiriodd yr Arolygydd at y Canllaw Atodol i PPS 22 'Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy' a'r cyfarwyddyd a gynhwysir ynddo nad yw effeithiau cysgodion symudol yn digwydd uwchben pellter sy'n cyfateb i ddeg gwaith diamedr y rotor tyrbin. Mae'r pellter perthnasol yn yr achos hwn yn 300m. Llys Elen yw'r eiddo agosaf, ac mae oddeutu 449m i ffwrdd.

Aiff Atodiad C ymlaen i nodi fod y gall tyrbinau hefyd achosi fflachiadau o olau adlewyrchol, a all fod yn weladwy o gryn bellter. Noda'r canllawiau y gellir lliniaru golau adlewyrchol trwy ddewis lliw llafn priodol, ac mae amod wedi cael ei argymell ynglŷn â'r lliw er mwyn lliniaru'r effeithiau.

**Ystyriaethau Perthnasol Eraill**

Nid oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn wrthwynebiadau i'r datblygiad, yn destun i amodau.

Mae effaith y datblygiad ar dwristiaeth yn ystyriaeth berthnasol. Comisiynodd Cyngor Ynys Môn ymchwil ar 'Effaith Tyrbinau Gwynt ar Dwristiaeth' sydd wedi ei bwysoli wrth wneud yr argymhelliad isod.

O ran Iechyd a Diogelwch nid yw'r cynigion yn cael eu lleoli yn agos at unrhyw ffyrdd nac adeiladau, gan roi sylw i gyngor yn Atodiad C, paragraffau 2.19 a 2.20 o 'TAN 8'.

Mae Adran Priffyrdd y Cyngor yn fodlon â'r cais, yn destun i amodau.

**7. Casgliad**

Mae'r polisïau a restrir uchod yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar yr ystyriaethau a restrir. Fel y nodwyd yn y polisïau mae hefyd ystyriaethau amgylcheddol a chymunedol eraill y mae angen eu hasesu ac yn yr achos hwn mae'r datblygiad arfaethedig yn cael ei ystyried yn annerbyniol am y rhesymau a roddir isod.

Byddai effaith weledol andwyol sylweddol leol; effaith dirwedd a gweledol gronnus gan gynnwys effaith sylweddol ar Goedwig Pentraeth a chyflwyno newid sylweddol i Ardal Cymeriad Tirwedd 12.
Nid yw'r effeithiau ar safleoedd archeolegol wed eu nodi'n glir

**8. Argymhelliad**

**Gwrthodir** caniatâd cynllunio am y rhesymau canlynol:

(01) Byddai graddfa'r datblygiad arfaethedig yn arwain at effeithiau gweledol andwyol sylweddol, newidiadau sylweddol i Gymeriad Tirwedd ac effeithiau tirwedd a gweledol cronnus posibl i AHNE Coedwig Pentraeth. Byddai hyn yn groes i ddarpariaethau polisïau C7, D1, D3 o Gynllun Fframwaith Gwynedd, 1, 30, 31, 45 o Gynllun Lleol Ynys Môn, EN1, EN2, GP1, EP18 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5) (Tachwedd 2012) a Chanllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ynys Môn ar Ddatblygu Ynni Gwynt (1994).

(02) Nid yw wedi cael ei ddangos na fydd y cais yn cael effaith andwyol ar osodiad henebion cofrestredig ac mae'r cais felly yn groes i bolisïau D15 o Gynllun Fframwaith Gwynedd, polisïau 1, 39 a 45 Cynllun Lleol Ynys Môn, polisïau GP1 a EN12 Cynllun Unedol Ynys Môn a Stopiwyd.

## 9. Polisïau Perthnasol Eraill

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
FF11 (Traffig)
D32 Cynlluniau tirlunio

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
32 (Tirwedd)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
TR3 Dylunio Priffyrdd
EN14 (Gorchmynion Cadw Coed a Gwrychoedd)
EN16 (Nodweddion Tirwedd o Bwysigrwydd Mawr ar gyfer Fflora a Ffawna)

Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 01.04.09 Materion Cludiant yn Codi o Ffermydd Gwynt

**7.4** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **41C103N** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Windberry Operations Ltd**
**c/o Savills**
**Wessex House**
**Priors Walk**
**East Borough**
**Wimborne**
**Dorset**
**BH21 1PB**

Cais llawn ar gyfer codi un twrbin wynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 44m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 33m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 62m, creu trac fynedfa ynghyd a chodi cabinet storio offer ar dir yn

Full application for the erection of one wind turbine with a maximum hub height of up to 44m, rotor diameter of up to 33m and a maximum upright vertical tip height of up to 62m, the construction of an access track together with the erection of an equipment housing cabinet on land at

Ty Gwyn, Penmynydd



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (NJ)**

**Argymhelliad:**

Gwrthod

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd penderfynwyd na fydd pwerau dirprwyedig yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â datblygiadau tyrbinau gwynt.

Cynhaliwyd ymweliad safle ar 21ain Tachwedd 2012. Cafodd y cais ei ohirio yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Rhagfyr er mwyn caniatáu datrys y materion sy'n weddill.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais yn cynnwys cae amaethyddol, gyda mynediad ar hyd trac fferm presennol, sydd â mynediad iddo o ffordd fach sy'n arwain o'r B5420 ym Mhenmynydd a mân ffyrdd yn arwain at Rhoscefnhir i'r gogledd.

Mae'r cais yn cael ei wneud am un tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder i flaen y llafn o 62 metr, uchafswm uchder i'r hwb o 44.28 metr ac uchafswm diamedr rotor o 33 metr. Uchafswm sgôr pŵer y tyrbin y gwneir cais amdano yw 330 kw.  Mae uchder y strwythur arfaethedig yn cymharu gydag uchder 106m ar gyfer mast y BBC yn Llanddona a tua 45m o uchder ar gyfer mast Penmynydd.

Mae'r cais hefyd yn cynnwys strwythurau atodol, gan gynnwys adeilad rheoli a ffyrdd mynediad / lloriau caled. Mae'r cais datgan yn anghywir mai'r ymgeisydd yw perchennog yr eiddo preswyl cyfagos yn Nhŷ Gwyn. Nid yw hyn yn wir ac mae'r datblygwr wedi cydnabod ac ymddiheuro am y camgymeriad.

Mae'r cais cynllunio yn cael ei gefnogi gan y canlynol:

- Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol.
  gan gynnwys ffotogyfosodiadau
- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Asesiad Ecolegol ac Adroddiad Arolwg Ystlumod.
- Adroddiad Sŵn
- Asesiad Treftadaeth Ddiwylliannol
- Adroddiad Cysgodion symudol a Diogelwch

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Tirwedd ac Effaith Weledol
- Amwynder Preswyl.
- Gosodiad yr Adeilad Rhestredig

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
C7 Ynni Adnewyddadwy
D1 AHNE
D3 Ardal Gadwraeth Tirwedd
D22 Gosodiad Adeilad Rhestredig

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 Cyffredinol
30 Tirwedd
31 Tirwedd
41 Diogelu Adeiladau
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)
EP 18 Ynni Adnewyddadwy
EN1 Cymeriad y Dirwedd
EN2 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
EN13 Gosodiad Adeiladau Rhestredig

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 5 (Tachwedd 2012)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr', Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror 2011)**

**Cylchlythyr 61/96 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth'**

**Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994).**

**Canllawiau Dros Dro Nodyn Cyngor Technegol Natural England TIN051 (Ystlumod a Thyrbinau Gwynt ar y Tir)**
**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Aelod Lleol** Galwodd y cais i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio ar sail gwrthwynebiad cryf yn lleol ac ar draws yr ynys.

**Cynghorau Cymuned:**

**Penmynydd** (yn ardal y mae'r cais wedi'i leoli ynddi) Gwrthwynebu yn seiliedig ar effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau ar fywydau trigolion lleol.

**Pentraeth** (ardal gyfagos) annerbyniol oherwydd y bydd y tyrbin yn weladwy o ardal eang yn Ynys Môn a Gwynedd; bydd yn effeithio ar fwynderau trigolion cyfagos; bydd yn effeithio'n andwyol ar y dirwedd o gwmpas.

**Priffyrdd** Awgrymu amodau mewn perthynas â mynediad i'r safle a hysbysiadau cynghori o ran cyfnod adeiladu.

**RSPB** Dim sylwadau

**Ymgynghorydd Amgylcheddol** Awgrymu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag ystlumod / ail-leoli

tyrbin. Mae’r set data yn yr Adroddiad Arolwg Ystlumod dilynol yn anghyflawn a dylai’r arolwg gael ei ail-wneud / dylai’r tyrbin gael ei adleoli i gydymffurfio â chanllawiau TIN051. Rhywfaint o wybodaeth ychwanegol wedi’i chyflwyno, ond pryder yn parhau y dylid adleoli’r tyrbin.

**Swyddog Iechyd yr Amgylchedd** Mewn ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol, nodwyd y byddai lefelau sŵn ar eiddo cyfagos ychydig yn uwch na'r terfyn yn y dull asesu ETSU symlach, ond gan fod y data a ddefnyddiwyd yn debygol o fod yn fwy swnllyd nag y gellid ei gyflawni gan dyrbin tebyg nad yw’n un tonyddol, rhagwelwyd y gallai model gwahanol gydymffurfio â'r terfyn ETSU symlach. Cynhaliwyd arolwg sŵn a chyflwynwyd adroddiad sy'n disodli'r un a gyflwynwyd yn flaenorol i gefnogi'r cais. Ar ôl asesu cynnwys yr adroddiad mae Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn cynghori er y gellir o bosibl gwrdd â therfynau ETSU, nad oes digon o sicrwydd wedi ei roi na fydd problemau sŵn tonyddol yn digwydd, ac y dylai'r awdurdod lleol wrthod dewis yr ymgeisydd o dyrbin.  Gan ei fod yn rhagweld y gallai tyrbin tebyg heb fod yn un tonyddol gyflawni lefelau sŵn derbyniol, cynigir amod na ddylai'r tyrbin sydd i'w osod ar y safle fod yn un tonyddol.

**Amgylchedd Adeiledig** Ddim yn gallu cefnogi'r cais presennol ar y sail y byddai’n cael effaith weledol andwyol sylweddol; effaith tirwedd a gweledol cronnus posibl ar yr AHNE arfordirol a choridorau tirwedd a thrafnidiaeth, a newidiadau sylweddol i gymeriad y dirwedd.

**Arqiva** Dim gwrthwynebiad ar sail effaith ar dderbyniad teledu.

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd** yn awgrymu amod sy'n gofyn am frîff gwylio archeolegol.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** yn gwrthwynebu rhoi caniatâd hyd nes yr ymdrinnir â’r set data anghyflawn yn yr Adroddiad Arolwg Ystlumod, naill ai drwy waith arolygu pellach neu fodelu. Mae'r asiant wedi darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â nodweddion tirwedd ac yn nodi nad oes angen gwybodaeth bellach o blaid y cais. Mewn ymateb i hyn, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cadarnhau ei wrthwynebiad parhaus yn niffyg gwybodaeth bellach.  Darparwyd peth gwybodaeth ychwanegol, ond roedd hyn yn dal i gael ei asesu ar adeg ysgrifennu.

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn** Caniatâd amodol.

**Ymateb i Cyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd 369 o lythyrau yn gwrthwynebu'r cais cynllunio am y rhesymau a ganlyn:

Bydd y cynnig yn dominyddu'r dirwedd;
Bydd y cais yn golygu ymyrraeth weledol sylweddol;
Bydd y cais yn cynrychioli strwythur diwydiannol estron mewn tirwedd heb ei difetha yn flaenorol;
Bydd effeithiau cronnus annerbyniol gyda cheisiadau eraill yn arwain at i’r ardal ddod yn fferm wynt;
Bydd effeithiau negyddol ar osodiad adeiladau rhestredig;
Bydd y cais yn tynnu oddi ar osodiad colofn yr ardalydd;
Bydd effeithiau sylweddol ar y dirwedd ac amwynder gweledol;
Effaith niweidiol ar asedau twristiaeth a'r economi twristiaeth;
Bydd yn gosod cynsail ar gyfer datblygiad pellach;
Ni ddylai polisïau cenedlaethol sy'n hybu'r defnydd o adnoddau adnewyddadwy gael blaenoriaeth dros bolisïau tirwedd lleol;
Effeithiau niweidiol ar yr AHNE a'r Parc Cenedlaethol;
Effeithiau niweidiol ar rywogaethau, bywyd gwyllt a gwlypdiroedd sy’n cael eu diogelu;
Effeithiau sŵn a chysgodion symudol, effeithiau iechyd;
Dim digon o fanylion yn y cais, gan ei wneud yn annilys;
Goblygiadau archeolegol;
Mae technolegau eraill yn bodoli sy'n fwy effeithlon na thyrbinau gwynt.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

41C103B Creu mynedfa i gerbydau a trac amaethyddol newydd ar dir yn Tŷ Gwyn, Penmynydd – tynnwyd yn ôl 8/10/08

41C103K/SCR Barn sgrinio ar gyfer gosod un tyrbin gwynt gyda uchder hwb hyd at 49.9m, diamedr rotor hyd at 33.4m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 66.6m ar dir Tŷ Gwyn, Penmynydd - Dim angen AEA

41C103M Cais llawn ar gyfer codi mast anemometer 40.5m o uchder dros dro ar dir Tŷ Gwyn, Penmynydd - Gwrthod 9/7/12

41C103P/SCR Cais am farn sgrinio ar gyfer codi un tyrbin wynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 44m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 33m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 62m, creu trac fynedfa ynghyd a chodi cabinet storio offer ar dir yn Tŷ Gwyn, Penmynydd – Dim angen AEA

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Egwyddor datblygu**

Noda Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:

“Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i’r awdurdod cynllunio lleol. Lle bo hynny’n briodol, dylid cefnogi’r cynigion gan asesiad o’r effaith ar yr amgylchedd.”

Noda Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:

“Bydd caniatâd yn cael ei roddi i brosiectau ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir
na chânt effaith annerbyniol ar :- i. Gymeriad y tirwedd. ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o safbwynt diogelu natur.
iii. Rhywogaethau pwysig o safbwynt diogelu natur.
iv. Safleoedd a henebion hanesyddol o bwys.
v. Safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu mwynhau. vi. Sustemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Noda Polisi 8B- Datblygiadau Ynni Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd:
“Caniateir ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac adnewyddadwy lle y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir y flaenoriaeth i ddatblygu ffynonellau ynni glan ac adnewyddadwy, ond gellir caniatáu cynigion ar gyfer prosiectau ynni anadnewyddadwy os byddant yn hyrwyddo manteisio i’r eithaf ar effeithlonrwydd ynni yn eu cynllun.”

Ers y Pwyllgor Cynllunio diwethaf mae Polisi Cynllunio Cymru wedi ei ddiweddaru i Fersiwn 5 ym mis Tachwedd. Y newid mwyaf sylweddol oedd egluro a chryfhau’r dybiaeth o blaid datblygu gynaliadwy. Nid oes, er hynny unrhyw newidiadau i adran 12.8 yn y Polisi Cynllunio Cymru : Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel.

Mae’r Adran 12.8.1 Polisi Cynllunio Cymru (Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) yn nodi’r targedau ac yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy yn unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010).

Mae Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 12.8.15 yn dweud y bydd yr effeithiau oddi wrth ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn amrywio gan ddibynnu ar eu lleoliad a’u maint a bydd angen eu hystyried yn wahanol o ran polisi a rheoli datblygu. Fel tyrbin 500Kw mae’r un sy’n destun yr adroddiad hwn yn cael ei gategoreiddio fel “Is-Awdurdod Lleol” ym Mholisi Cynllunio Cymru sy’n cynnwys datblygiadau rhwng 50KW a 5MW (Ffigwr 12.3). Mae Tabl 3.1 y Canllaw Ymarfer – Mae Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel yn datgan nad oes unrhyw gategorïau pendant i ddisgrifio maint y tyrbinau gwynt unigol ond bod gosodiadau yn tueddu i ddod o fewn 4 prif led band. Byddai'r tyrbin sy’n destun i'r adroddiad hwn yn dod o fewn y categori 'Canolig' (ond ar 330kw ac o bosibl yn cyflenwi 185 o gartrefi, mae ychydig yn is na’r gyfradd 'nodweddiadol'

o 500kW a fyddai o bosibl yn cyflenwi 205 o gartrefi). Fel gosodiad “Is Awdurdod Lleol” neu “Ganolig” mae maint y tyrbin yn dderbyniol mewn egwyddor o ran termau polisi yn y lleoliad hwn ond y mae yna hefyd ystyriaethau manwl o fewn yr ystyriaethau polisi fel y manylir arnynt isod i’w hystyried.

Mae Adran12.10.1 o PCC (argraffiad 5) a atgynhyrchir isod yn tynnu sylw at faterion y dylai’r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth ymdrin â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys agweddau cadarnhaol megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewropeaidd, ac yn ehangach buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn amlygu'r angen i ystyried yr effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol a'r angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol. Amlygir materion eraill hefyd o fewn yr adran hon, megis lliniaru a materion seilwaith h.y. y cysylltiad â'r grid a’r rhwydwaith cludiant, fel a ganlyn:

12.10.1 Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried:

- cyfraniad y cais at fodloni targedau a’r potensial a bennwyd yn genedlaethol, a chan y DU ac Ewrop, ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cyfraniad at dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- y manteision a’r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler Adran 5.5), yr arfordir (gweler Adran 5.6) a’r amgylchedd hanesyddol (gweler Adran 6.5);
- yr angen i leihau’r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;
- ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt;
- effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a’r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a ydy’r mesurau i ymaddasu i effeithiau’r newid yn yr hinsawdd yn arwain at effeithiau eraill (gweler 4.5);
- materion sy’n ymwneud â’r cysylltiad â’r grid, pan gynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan);
- gallu’r seilwaith trafnidiaeth, a’r effeithiau arno, yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu’r cais.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005) (paragraff 1.4) yn datgan fod gan Lywodraeth y Cynulliad darged o 4TWh o drydan y flwyddyn i gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad bod angen 800MW o gapasiti gosodedig ychwanegol o ffynonellau gwynt ar y tir.

Mae paragraff 2.12 o TAN 8 yn nodi fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol annog, drwy eu polisïau cynllun datblygu ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol, cynlluniau ffermydd gwynt cymunedol llai (yn gyffredinol yn llai na 5 MW). Mae'r paragraff yn esbonio y gallai awdurdodau cynllunio lleol ddiffinio 'yn y gymuned'. Nid oes diffiniadau polisi y gellir eu defnyddio ar hyn o bryd a'u pwysoli yn hyn o beth. Mae'r cais yn cadarnhau bod y cynllun mewn egwyddor yn gais tariff cyflenwi trydan a fydd o fudd i'r tirfeddiannwr lleol yn ei amcanion arallgyfeirio gwledig (para.4.33 Datganiad Dylunio a Mynediad Cynllunio).

Mae Adran 2 Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

*“2.1.1 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i’w chwarae wrth gefnogi cyflenwad cymunedau gwledig cynaliadwy. Gall helpu sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir drwy sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau gwledig. Ar yr un pryd, rhaid i’r system gynllunio ymateb i’r heriau sy’n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhaid iddo hefyd warchod a gwella’r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored. Nod cyffredinol y system gynllunio yw cefnogi cymunedau gwledig sy’n fyw ac yn gweithio er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Dylai awdurdodau cynllunio geisio cryfhau cymunedau gwledig, drwy helpu i sicrhau bod modd i’w trigolion presennol weithio a defnyddio*

*gwasanaethau yn lleol, gan ddefnyddio dulliau teithio carbon isel a chael cyfran uwch o'u hynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol."*

Yng nghyswllt arallgyfeirio ar ffermydd mae Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

*"3.7.2 Mae'n bosibl lleoli nifer o weithgareddau economaidd yn gynaliadwy ar ffermydd. Mae gweithrediadau bach ar y fferm, megis prosesu bwyd a choed a phecynnu bwyd, ynghyd â gwasanaethau (e.e. swyddfeydd, gweithdai, llogi a chynnal a chadw offer), gwasanaethau chwaraeon a hamdden, cynhyrchu cnydau heblaw am fwyd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i gyd yn debygol o fod yn ddefnyddiau priodol."*

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol: 'Datblygiadau Ynni Gwynt' (1994) a fabwysiadwyd gan y cyngor yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, oherwydd oed y ddogfen, mae yn y broses o gael ei disodli gan fersiwn wedi'i diweddaru o'r enw 'Ynni Gwynt ar y Tir', sydd ar hyn o bryd yn yr 2il gyfnod ôl-ymgynghorol, a dim ond ychydig o bwysau y gellir ei briodoli iddi.

Mae'n amlwg bod y polisïau a restrir uchod yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy, i gyrraedd y targedau a nodwyd ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel. Mae graddfa'r datblygiad sy'n cael ei ddosbarthu fel 'Is Awdurdod Lleol' neu 'Ganolig' yn dderbyniol mewn egwyddor yn y lleoliad hwn. Gall pwysau hefyd gael ei briodoli i'r manteision i'r economi wledig. Fel y nodwyd yn y polisïau a restrir, mae yna hefyd ystyriaethau amgylcheddol a chymunedol eraill y mae angen eu hasesu, ac ystyrir y rhain isod.

**Tirwedd ac Effaith Weledol**

Cefnogir y cais gan Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol (LVIA) a baratowyd gan yr Environmental Dimension Partnership (EDP) dyddiedig Mai 2012. Mae'r asesiad yn cynnwys Map Parth Gweledd Damcaniaethol (ZTV) hyd at 10km, a 7 o ddelweddau golygfannau a gyflwynwyd ar ffurf Ffotogyfosodiadau, Ffotograffau presennol a delweddau Ffrâm weiren.

Mae'r safle arfaethedig o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd 12 (LCA) Canol Dwyrain Ynys Môn. Mae'r LCA yn ffurfio parth clustogfa mewndirol i Afon Menai ac mae'n adlewyrchu llawer o dirwedd donnog nodweddiadol Ynys Môn. LCA 12 yw'r LCA drydedd fwyaf ar yr ynys, yn cynnwys ardal o 100kms².

Materion perthnasol allweddol ar gyfer LCA 12 yn achos y cais hwn yw: -

- effeithiau ar y cynefinoedd arfordirol a'r angen i ystyried y Cynllun Rheoli AHNE;
- effaith y datblygiad ar ymylon aneddiadau;
  effeithio ar goridorau cludiant a chymeriad ac ansawdd y porth i Ynys Môn.

Mae'r safle tua 3.1 km o ymyl yr AHNE (yr A5025 ym Mhorthaethwy), tua 57 (AOD), ac mewn tirwedd amaethyddol agored o gaeau mawr, tua'r tir o'r Dirwedd Arfordirol.

Mae'r LVIA a gyflwynir yn asesu y byddai ychwanegu y cais tyrbin yn arwain at:

- maint newid Uchel Iawn i Uchel o fewn 500 metr gan arwain at effeithiau sylweddol ffiniol;
- ni ragwelir y bydd effaith o 500 metr i 1km yn sylweddol
- Cyflwynir maint y newid fel ei fod yn dibynnu ar bellter, yn yr un modd ag y byddai derbynnydd gweledol.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dyrbinau gwynt canolig i fawr wedi'u lleoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd 12 ac nid oes yr un yn hawdd i'w weld oddi yno. Mae'r LVIA a gyflwynir yn asesu y byddai ychwanegu tyrbin yn Nhŷ Gwyn yn arwain at faint newid Uchel Iawn i Uchel o fewn 500m o'r tyrbin, gan arwain at effeithiau sylweddol ffiniol, ond ni ragwelir y bydd yr effaith o 500m i 1km yn sylweddol. Fodd bynnag, cyflwynir maint y

newid fel ei fod yn dibynnu ar bellter, gyda'r effaith yn lleihau wrth i'r pellter gynyddu, yn yr un modd ag y mae derbynyddion gweledol yn cael eu hasesu. Nid oes methodoleg safonol gyhoeddedig ar gyfer meintioli'r effaith hon ac ystyrir bod trothwy pellter yn gorsymleiddio maint y newid ar y dirwedd. Gellid disgwyl i dyrbin o'r maint hwn ddod yn elfen dirwedd ddiffiniol ac arwain at newidiadau sylweddol i gyfuniadau tirwedd presennol a phatrymau ymhell y tu hwnt i 500 metr.

Gall cyflwyno tyrbin i LCA 12 leihau ymhellach sensitifrwydd y dirwedd hon i newid ychwanegol, yn enwedig tyrbinau gwynt pellach a lleihau ansawdd y *'glustogfa'* dirwedd i'r AHNE a'r dirwedd arfordirol.
Mae'r map ZTV yn dangos golygfeydd damcaniaethol o'r AHNE. Mae Golygfan 6 wedi ei dynnu o ymyl Coedwig Pentraeth o fewn yr AHNE. Mae Tabl 2 EDP o fewn yr LVIA yn rhoi syniad o'r meini prawf yn erbyn y rhai y bydd maint y newid yn y dirwedd neu'r derbynnydd gweledol yn cael eu barnu yn yr Asesiad. Mae maint y newid ar gyfer y derbynnydd gweledol yng ngolygfan 6 wedi ei ddisgrifio fel isel gan y datblygwr (a ddiffinnir fel 'bydd y datblygiad yn fân elfen gyfansoddol yn yr olygfa, yn rhannol weladwy neu yn ddigon pell i fod yn elfen fach'). Fodd bynnag, ystyrir y byddai'n cael ei ddisgrifio'n well fel newid canolig yn hytrach na newid isel (a ddiffinnir fel 'bydd y datblygiad yn ffurfio elfen newydd ac adnabyddadwy o fewn y farn sy'n debygol o gael ei adnabod gan y derbynnydd'). Mae sensitifrwydd pob derbynnydd a maint y newid yn cyfuno i nodi'r lefel o effaith, yn unol â matrics safonol a argymhellir mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan Scottish Natural Heritage (Arfer Gorau Asesiad Gweledol o Ffermydd Gwynt (2002). Mae maint isel o newid yn cynhyrchu effaith gymedrol i gymedrol/mân nad yw'n sylweddol. Mae asesu'r effaith fel canolig yn cynhyrchu effaith fawr/canolig sydd yn arwyddocaol yn yr AHNE. Tynnwyd golygfannau o lwybrau troed cyhoeddus o fewn 1.5km o'r safle a rhagwelir y byddant yn sylweddol andwyol o ran effaith lle mae golygfeydd agored i'r safle. Rhagwelir effeithiau sylweddol i anheddiad Rhoscefnhir lle mae golygfeydd uniongyrchol o anheddau.

O ran effeithiau cronnus, bernir bod y cais yn annhebygol o gynhyrchu rhyngweleddedd sylweddol neu effeithiau mewn cyfuniad gyda ffermydd gwynt a safleoedd tyrbinau eraill a ganiatawyd. Mae'r cais yn asesu effeithiau cronnus posibl gyda datblygiad fferm wynt sydd wedi cael ei sgrinio ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol, a elwir yn Fferm Wynt Braint. Nid oes unrhyw gais ffurfiol am ganiatâd cynllunio wedi'i gyflwyno hyd yma.

Mewn perthynas â cheisiadau cynllunio byw ar hyn o bryd, ystyrir y byddai effeithiau cyfunol ychwanegol ar yr AHNE yng ngolygfan 6, a drafodwyd uchod. Mae golygfeydd dilyniannol ac mewn cyfuniad posibl o'r ynys a'r AHNE (gyda'r tyrbinau efallai'n torri'r nenlinell) yn debygol o'r A55 a'r A487. Mae coridorau ffyrdd yn debygol o weld golygfeydd cyfunol yn cael eu cynhyrchu, a byddai effeithiau cronnus yn digwydd ar lwybrau cyhoeddus ac yn Rhoscefnhir, er enghraifft.

Dywed Adran 8.4 o TAN 8 bod amcan ymhlyg i gynnal ansawdd ac integriti'r AHNE, h.y. ni ddylai tyrbinau achosi unrhyw newid mewn cymeriad tirwedd. Yn yr un modd, ar gyfer gweddill Cymru, tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol, yr amcan ymhlyg hefyd yw cynnal cymeriad tirwedd h.y. unwaith eto, ni ddylai tyrbinau achosi unrhyw newid mewn cymeriad tirwedd. Mae'r LVIA yn nodi effaith weledol andwyol sylweddol bosibl ar dderbynyddion sensitif o fewn radiws o 2km o'r safle ac mae'n bosibl y ceir effeithiau cyfunol ychwanegol o geisiadau eraill. Bydd cais Tŷ Gwyn yn cael effaith andwyol sylweddol ar ymyl anheddiad Rhoscefnhir, tra ei bod yn debygol y bydd effeithiau gweledol cronnus ar yr AHNE yng Nghoedwig Pentraeth (golygfan 6). Mae effeithiau cymeriad tirwedd andwyol sylweddol yn debygol o ddigwydd oddi ar yr ynys lle byddai'r tyrbin yn nodwedd amlwg ac annodweddiadol. Byddai effeithiau o'r fath o bosibl yn lleihau sensitifrwydd y dirwedd i newid pellach. Yn unol â TAN8, yr amcan ymhlyg yw ni ddylai datblygiad tyrbinau achosi unrhyw newid sylweddol mewn cymeriad tirwedd o fewn ardal o'r fath. Mae gogledd Ynys Môn wedi bod yn destun cryn newid yn y dirwedd ac effaith weledol o dair fferm wynt bresennol, ynghyd â chynlluniau eraill sydd wedi cael caniatâd. Gallai cyflwyno tyrbin i Ardal Cymeriad Tirwedd arall sicrhau newid, lle bo tyrbinau yn nodwedd gyffredin mewn rhan fawr o'r sir.

**Treftadaeth Ddiwylliannol**

Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu'r effeithiau ar henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig yng nghyffiniau'r safle, a chafodd ei asesu'n dderbyniol i'r cais hwn gan Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd. Mynegir peth pryder ynghylch effeithiau cronnus posibl ond mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i wneud sylwadau gan y disgwylir asesiadau archeolegol ar gyfer safleoedd eraill, ac nid yw rhai ohonynt ar y cam cyflwyno cais cynllunio. Awgrymir amod gan Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd mewn perthynas â brîff gwylio archeolegol ar gyfer cyfnod adeiladu'r prosiect hwn.

**Ecoleg**

Cyflwynwyd asesiad ecolegol i gefnogi'r cais sy'n awgrymu y bydd y cais yn cael effaith niwtral gyffredinol ar safleoedd a rhywogaethau dynodedig er bod disgwyl am arolwg ystlumod ar adeg cyflwyno. Cyflwynwyd Adroddiad Arolwg Ystlumod wedi hynny, ond mynegwyd pryder gan Ymgynghorydd Ecolegol y Cyngor a Chyngor Cefn Gwlad Cymru bod y cais wedi ei leoli yn agosach at nodwedd tirwedd na'r pellter 50m a argymhellir yng nghanllawiau TIN051, tra bod bwlch yn bodoli yn y data a gyflwynwyd oherwydd methiant offer yn ystod yr arolwg ym mis Awst 2012. Mae'r Ymgynghorydd Ecolegol yn awgrymu bod y tyrbin yn cael ei symud er mwyn cydymffurfio â phellteroedd a argymhellir. Gofynnodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru am wneud gwaith arolwg pellach neu fodelu i gywiro'r set data anghyflawn. Mae'r datblygwr yn anghytuno bod y nodwedd tirwedd y cyfeirir ato'n wrychyn, ac yn awgrymu bod digon o wybodaeth gefnogol wedi cael ei chyflwyno gyda'r cais i ddangos ei fod yn cwrdd â safonau cyfredol. Mae Ymgynghorydd Ecolegol y Cyngor yn parhau i awgrymu y dylai'r tyrbin gael ei symud. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn parhau i wrthwynebu'r cais hyd nes bod gwybodaeth bellach wedi'i darparu. Cafwyd rhai manylion ychwanegol o'r arolwg ystlumod, na chawsant eu cyflwyno'n flaenorol gan y datblygwr, ond cynghorodd yr Ymgynghorydd Ecolegol, yn unol â'r dull rhagofalus a argymhellir ym mharagraff 2.4 o TAN 5, ei fod yn parhau o'r farn nad yw'r cais wedi dangos na chaiff unrhyw effaith anerbyniol ar ystlumod ac mae'n parhau i gynghori y dylai'r tyrbin, yn absenoldeb data cadarn, gael ei symud yn unol â'r pellter gwahanu a gynghorir yng Nghanllawiau TIN 051. Nododd yr asiant eisoes fod y tyrbin yn annhebygol o gael ei symud. Ar adeg ysgrifennu roeddem yn disgwyl sylwadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Fodd bynnag, gan nad yw wedi cael ei brofi'n bendant na fydd unrhyw effaith annerbyniol ar ystlumod, awgrymir dilyn ymagwedd ragofalus fel y cynghorir ym mharagraff 5.5 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5) ac ym mharagraff 6.2.2 o TAN 5.

**Sŵn**

Mae'r adroddiad asesiad sŵn cychwynnol a gyflwynwyd gyda'r cais yn rhagweld y byddai lefelau sŵn ar eiddo cyfagos o fewn y terfyn ETSU-R-97 o 35dB LA90 hyd at gyflymder o gwynt o 10m/s ar uchder o 10m, ac eithrio Rhyd y Delyn Bach a oedd ychydig dros y terfyn hwn. Gwnaeth Swyddog Iechyd yr Amgylchedd sylwadau ar yr arfarniad a mynegodd bryderon hyd yn oed gyda chosb donyddol, efallai y byddai'r cais yn arwain at bryderon o ran niwsans sŵn i breswylwyr cyfagos. Serch hynny, mae'r Adran wedi cynnal asesiad sŵn yn seiliedig ar lefel y sŵn achos gwaethaf o 7m/s ar uchder 10m ac hefyd wedi dod i'r casgliad y byddai lefelau sŵn yn Rhyd y Delyn Bach ychydig yn uwch na'r terfyn ETSU syml. Nid oedd effeithiau sŵn cronnus gyda thyrbin arfaethedig ar safle yn Marchynys, Penmynydd (41C66E) yn cael eu hystyried yn bryder. Awgrymwyd, fodd bynnag, gan fod y data ar gyfer y tyrbin ymgeisiol yn fwy swnllyd na'r hyn y gellid ei gyflawni gan dyrbin nad oedd yn un tonaidd, y gallai tyrbin tebyg heb fod yn un tonyddol gydymffurfio â'r asesiad ETSU syml.

Comisiynodd y datblygwr arolwg sŵn i gynnwys asesiad sŵn cefndir yn y rhagfynegiadau sŵn ar gyfer sŵn tyrbinau gwynt, yn parhau'n seiliedig ar y tyrbin ymgeisiol Enercon E33 330kW gydag uchder hwb o 44m. Cyflwynwyd yr Asesiad Sŵn Atodol hwn i gymryd lle'r adroddiad a gyflwynwyd yn wreiddiol. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod lefelau sŵn y tyrbin yn bodloni'r terfyn ETSU syml o 35dB LA90 ar gyfer pob eiddo, ar wahân i Rhyd y Delyn Bach a Maes Llwyn/ Llwyn Ogan, y mae arolwg sŵn wedi ei wneud ar eu cyfer sy'n gosod terfynau sŵn yn unol ag ETSU-R-97. Dywedir bod y lefelau sŵn a ragwelir, gan gynnwys cosb donyddol

+5dB, yn gymharol isel ac yn is na therfynau sŵn cefndir ar bob cyflymder gwynt islaw terfynau ETSU-R-97 ac o dan arweiniad WHO ynglŷn ag aflonyddwch cwsg. Mae'r Adroddiad yn ystyried sŵn tonyddol ac yn awgrymu na fydd sŵn tonyddol yn broblem yn yr eiddo agosaf, yn enwedig gan na fydd lefelau sŵn cysylltiedig â gwynt yn digwydd yn aml, oherwydd cyfeiriad y prifwynt. Dywed Swyddog Iechyd yr Amgylchedd fod gan y tyrbin ymgeisiol dôn glywadwy ac nid yw'n ystyried bod digon o sicrwydd wedi cael ei ddarparu na fydd y problemau amledd sŵn isel yn digwydd. Awgrymir y dylai dewis yr ymgeisydd o dyrbin gael ei wrthod. O ystyried fodd bynnag, y gallai tyrbin tebyg nad yw'n un tonyddol gyflawni terfynau sŵn derbyniol, awgrymir y gellid ymdrin â'r mater hwn drwy osod amod.

**Amwynder Preswyl**

Mae asesiad o effaith ar fwynderau eiddo cyfagos wedi cael ei wneud, a oedd yn cynnwys eiddo preswyl a'r bwthyn gwyliau yn Nhŷ Gwyn a'r gwesty 5 seren yn Neuadd Lwyd.

Mae Polisi C7 o Gynllun Fframwaith Gwynedd yn cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy os yw'r effaith ar yr ardal yn dderbyniol. Mae Polisi 45 o Gynllun Lleol Ynys Môn yn ei gwneud yn ofynnol nad yw datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael effaith annerbyniol ar 'safon y mwynderau a fwynheir gan breswylwyr a'r boblogaeth dwristiaid'. Mae Polisi EP18 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn cynnwys yr un maen prawf, ond yn ei gwneud yn ofynnol iddo beidio â chael effaith andwyol sylweddol. Mae Polisïau 1 a GP1 o Gynllun Lleol Ynys Môn a Chynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd hefyd yn berthnasol wrth ystyried amwynder preswyl.

Mae paragraff 12.8.14 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5) (Tachwedd 2012) yn datgan:

“..Bydd angen i ddatblygwyr fod yn sensitif i amgylchiadau lleol, gan gynnwys lleoli datblygiadau yn unol â thirffurfiau lleol, pa mor agos ydynt at aneddiadau, ac ystyriaethau eraill o ran cynllunio…”

Mae Atodiad D TAN 8 yn rhestru'r ffactorau y dylid fel arfer eu hadolygu i ganfod 'ardaloedd sy'n dechnegol ddichonadwy' ar gyfer datblygu cynlluniau ynni gwynt ar y tir. Ym mharagraff 3.4, nodir 'ar hyn o bryd mae 500m yn cael ei ystyried yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbin gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol, fodd bynnag, pan gaiff ei ddefnyddio mewn modd anhyblyg gall arwain at ganlyniadau ceidwadol ac felly cynghorir rhywfaint o hyblygrwydd”

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt (1994) 'CCA' y Cyngor yn nodi y bydd y cyngor yn rhoi ystyriaeth ffafriol i brosiectau ynni adnewyddadwy yn yr achosion hynny lle y gellir dangos yn glir na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar yr ystyriaethau rhestredig sy'n cynnwys 'safon y mwynderau a fwynheir gan y boblogaeth breswyl a thwristiaid '. O dan 7.3 'Diogelwch y Cyhoedd, Fflachiadau Cysgodion, Ymyrraeth Weledol ac Effaith ar Ddiogelwch y Briffordd' mae'r 'CCA' yn cynnwys safon a argymhellir na fydd unrhyw dyrbin yn cael ei osod yn nes na 400 metr at y tŷ annedd agosaf, gydag eithriad posibl anheddau a feddiannir gan y perchnogion tir lle bwriedir lleoli'r tyrbinau.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, ychydig o bwysau y gellir ei briodoli i'r CCA drafft sydd wrthi'n cael ei baratoi gan y cyngor.

Mae swyddogion hefyd wedi ystyried penderfyniadau a wnaed gan Arolygwyr Cynllunio mewn perthynas ag amwynder preswyl gweledol. Dengys dadansoddiad o'r fath mai maen prawf trothwy cyffredin a ddefnyddir gan Arolygwyr ar gyfer asesu amwynder gweledol preswyl yw lle byddai'r newid yn yr olygfa'n effeithio ar amodau byw sylfaenol. Mae'r termau amrywiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r trothwy hwn yn cynnwys, e.e. 'gormesol', 'gormodol', neu 'llethol'.

Rhai o'r anheddau sydd agosaf at y tyrbin arfaethedig yw:

| Eiddo | Pellter Bras o’r Cais |
|---|---|
| Rhyd y Delyn Bach | 523m |
| Llwyn Ogan | 620m |
| Tŷ Gwyn & Bwthyn Gwyliau Tŷ Gwyn | 648m |
| Llwyn Hudol & adeilad allanol gerllaw gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer ei drosi i ddefnydd preswyl | 650m |
| Maes Llwyn | 656m |
| Neuadd Lwyd | 713m |
| Bryn Eglwys | 812m |

Maent i gyd yn bellach na'r pellter 400m a argymhellir o dan y CCA ar hyn o bryd ac mae pob un ymhellach na'r pellter 500m a awgrymir yn TAN 8.
Cafodd delweddau fframiau weiren a montage ffotograffig ger yr annedd yn Rhyd y Delyn Bach eu cyflwyno i gefnogi'r cais. Rhyd y Delyn Bach yw’r eiddo agosaf at y safle tra bo Llwyn Hudol ag agwedd agored yn edrych yn uniongyrchol tuag at safle'r cais o’r ardd a rhan o'r annedd. Fodd bynnag, er y bydd y tyrbin yn amlwg mewn golygfeydd, gan gymryd i ystyriaeth agosrwydd, lleoliad, faint o’r tyrbin fydd yn weladwy a graddfa'r tyrbin, nid yw swyddogion yn ystyried y byddai'r tyrbin yn 'ormesol' neu’n 'llethol' mewn perthynas ag amwynder gweledol preswyl yr eiddo uchod.

Mae Atodiad C Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi cyngor ar Fflachiadau Cysgod a Golau a Adlewyrchir. Gwelir nad yw fflachiadau cysgodion ond yn digwydd mewn adeiladau sydd hyd at 10 diamedr rotor oddi wrth dyrbin ac o fewn 130 gradd ar naill ochr ogleddol y lledredau hyn yn y DU. Nid oes eiddo preswyl yn yr ardal hon.

Aiff Atodiad C ymlaen i nodi fod y gall tyrbinau hefyd achosi fflachiadau o olau adlewyrchol, a all fod yn weladwy o gryn bellter. Noda’r canllawiau y gellir lliniaru golau adlewyrchol trwy ddewis lliw llafn priodol, ac mae amod wedi cael ei argymell ynglŷn â’r lliw er mwyn lliniaru’r effeithiau.

**Materion Eraill**

Nid oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn wrthwynebiadau i'r datblygiad, yn destun i amodau.

Mae effaith y datblygiad ar dwristiaeth yn ystyriaeth berthnasol. Comisiynodd Cyngor Ynys Môn ymchwil ar 'Effaith Tyrbinau Gwynt ar Dwristiaeth' sydd wedi ei bwysoli wrth wneud yr argymhelliad isod.

O ran Iechyd a Diogelwch nid yw'r cynigion yn cael eu lleoli yn agos at unrhyw ffyrdd nac adeiladau, gan roi sylw i gyngor yn Atodiad C, paragraffau 2.19 a 2.20 o 'TAN 8'.

Mae Adran Priffyrdd y Cyngor yn fodlon â'r cais, yn destun i amodau.

**7. Casgliad**

Mae'r polisïau a restrir uchod yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar yr ystyriaethau a restrir. Fel y nodwyd yn y polisïau mae hefyd ystyriaethau amgylcheddol a chymunedol eraill y mae angen eu hasesu ac yn yr achos hwn mae’r datblygiad arfaethedig yn cael ei ystyried yn annerbyniol am y rhesymau a roddir isod.

Byddai effaith weledol andwyol sylweddol leol; effaith dirwedd a gweledol gronnus gan gynnwys effaith sylweddol ar Goedwig Pentraeth a chyflwyno newid sylweddol i Ardal Cymeriad Tirwedd 12.

Ni chafwyd digon o wybodaeth yng nghyswllt effeithiau'r cais ar ystlumod ac o'r herwydd rhaid mabwysiadu ymagwedd ragofalus.

**8. Argymhelliad**

**Gwrthod** caniatâd cynllunio am y rhesymau canlynol:

(01) Byddai graddfa'r datblygiad arfaethedig yn arwain at effeithiau gweledol andwyol sylweddol, newidiadau sylweddol i Gymeriad Tirwedd ac effeithiau tirwedd a gweledol cronnus posibl i'r AHNE arfordirol a Coedwig Pentraeth. Byddai hyn yn groes i ddarpariaethau polisïau C7, D1, D3 o Gynllun Fframwaith Gwynedd, 1, 30, 31, 45 o Gynllun Lleol Ynys Môn, EN1, EN2, GP1, EP18 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5) (Tachwedd 2012) a Chanllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ynys Môn ar Ddatblygu Ynni Gwynt (1994).

(02) Nid yw wedi cael ei ddangos na fydd y cais yn cael effaith andwyol ar rywogaethau a warchodir (ystlumod) ac mae'r cais felly yn groes i bolisïau D4 a D10 o Gynllun Fframwaith Gwynedd, polisïau 1, 34, 35 a 45 o Gynllun Lleol Ynys Môn, polisïau GP1 ac EN4 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd a'r dull rhagofalus a gynghorir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5) (Tachwedd 2012) a Chadwraeth Natur Nodyn Cyngor Technegol 5 a Chynllunio (2009)

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
FF11 (Traffig)
D32 Cynlluniau tirlunio

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
32 (Tirwedd)
35 (Diogelu Natur)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
TR3 Dylunio Priffyrdd
EN4 (Bioamrywiaeth)
EN14 (Gorchmynion Cadw Coed a Gwrychoedd)
EN16 (Nodweddion Tirwedd o Bwysigrwydd Mawr ar gyfer Fflora a Ffawna)

Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 01.04.09 Materion Cludiant yn Codi o Ffermydd Gwynt

This page is intentionally left blank

**11.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **32C110A** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr & Mrs R & C Williams**
**c/o Mr Gerwyn Williams**
**Bryn Clyd**
**Caergeiliog**
**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 3YG**

Cais llawn ar gyfer codi ystafell haul yn Full application for the erection of a conservatory at

Caeau Bychan, Caergeiliog



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (AMG)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeisydd yn perthyn i 'swyddog perthnasol' fel y diffinnir hynny ym mharagraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Mae'r cais wedi cael ei archwilio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 o'r Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Lleolir y safle ar gyrion Caergeiliog. Mae'r eiddo yn fyngalo dormer annibynnol.

Mae'r cynnig yn un i godi ystafell haul wrth ochr yr adeilad.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Materion allweddol y cais yw dyluniad y datblygiad arfaethedig ac effaith y cynnig ar ddeiliad eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
Polisi 1 – Cyffredinol
Polisi 42 – Dylunio
Polisi 58 – Estyniadau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D29 – Safonau Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**
Polisi GP1 – Canllawiau Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dylunio

**Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 5, Tachwedd 2012**

**Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio**

**Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig 2008**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Chyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cyngor Cymuned – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Dwr Cymru – Sylwadau.

Draenio – Sylwadau.

Ymgynghori Cyhoeddus – Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynnig mewn dwy ffordd; gosod rhybudd safle ger y safle ac anfonwyd llythyrau personol i berchnogion / deiliaid eiddo cyfagos yn y cyffiniau. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 21 Tachwedd 2012. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd unrhyw sylwadau wedi cael eu derbyn yn yr adran.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

32C110 - Addasu ac ehangu yn cynnwys 2 ystafell wely ychwanegol ar y llawr cyntaf a gosod dwy ffenestr ddormer ychwanegol yn Caeau Bychan, Caergeiliog – Caniatáu 16/06/2003

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Dyluniad** - Mae'r cynnig yn un i godi ystafell haul ar ochr yr eiddo. Ymddengys fod y cynnig yn foddhaol o ran lleoliad, dyluniad a deunyddiau. Mae yna ddigon o le ar y safle ar gyfer yr estyniad arfaethedig heb iddo ymddangos yn gyfyng neu wedi'i or-ddatblygu.

**Effaith y cynnig ar ddeiliad eiddo cyfagos** – Nid wyf o'r farn y bydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos. Mae oddeutu 40m rhwng yr ystafell haul arfaethedig a'r eiddo agosaf. Dywed Polisi Cynllunio Cymru "the planning system does not exist to protect the private interests of one person against the activities of another".

**7. Casgliad**

Wedi rhoi sylw i'r uchod a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, mae fy argymhelliad yn un o ganiatáu gyda rhai amodau.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 09/10/2012 o dan cais cynllunio rhif. 32C110A.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

This page is intentionally left blank

**12.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **12C426** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Stephen Burkhill**
**Dwr Cymru / Welsh Water**
**Vista**
**St David's Park**
**Ewloe**
**Flintshire**
**North Wales**
**CH5 3DT**

Gosod 2 giosc i gadw offer rheoli ar gyfer gorsaf bwmpio bach ar dir ger

Siting of 2 kiosks housing control equipment for a small package pumping station on land adjoining

51 Castle Street, Beaumaris, LL58 8BB



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (SCR)**

**Argymhelliad:**

Mae’r cais ar dir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r cais ar dir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae’r cais yn un i leoli dau giosg fel lle i gadw offer rheoli ar gyfer gorsaf bwmpio fechan a fydd yn datrys problem ddraenio yn 47 a 49 Stryd y Castell, Biwmares.

Bydd y ddau giosg yn cael eu lleoli ochr yn ochr ar y pafin yn ymyl y golofn goleuni â’r camera goruchwylio cyfredol sydd wedi eu lleoli oddeutu 18m o’r eiddo a adwaneir fel 51 Stryd y Castell sydd yn Adeilad Rhestredig Graddfa 2. Mae’r safle yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac yn yr ardal sydd wedi’i dynodi’n Ardal Gadwraeth.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y materion allweddol sy’n ymwneud â’r safle yw a fydd y cynnig yn cael effaith ar y dirwedd o gwmpas y safle sydd wedi’i dynodi’n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, effaith y cynnig ar yr ardal o gwmpas yr adeilad rhestredig cyfagos a’r ardal gadwraeth neu a fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch defnyddwyr y pafin neu fwynderau deiliaid eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 27 – Trin Carthffosiaeth
Polisi 30 – AHNE
Polisi 40 – Cadwraeth Adeiladau
Polisi 41 – Cadwraeth Adeiladau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
Polisi D1 - AHNE
Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D22 – Adeilad Rhestredig
Polisi D25 – Ardal Cadwraeth

**Cynllun Datblygu Unedol a stopiwyd**
Polisi GP1 – Canllawiau Rheoli Datblygu
Polisi GP2 - Dyluniad
Polisi EN2 – AHNE
Polisi EN13 – Cadwraeth Adeiladau
Polisi WP10 – Cadwraeth Adeiladau

Canllawiau Cynllunio Atodol – Gwerthusiad o Gymeriad Ardal Gadwraeth Biwmares

Cylchlythyr 61/96 – Cynllunio a’r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb hyd yn hyn

Cyngor Tref - Dim ymateb hyd yn hyn

Dwr Cymru - Dim ymateb hyd yn hyn

Asiantaeth yr Amgylchedd - Dim ymateb hyd yn hyn

Priffyrdd – Sylwadau a’n argymell caniatad amodol

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r cais mewn tair ffordd. Arddangoswyd rhybudd ger y safle, anfonwyd llythyrau personol ar berchenogion eiddo cyfagos a chyhoeddwyd rhybudd yn y wasg leol. Y dyddiad diwethaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd Ionawr 2013 ac ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, nid oedd yr adran wedi derbyn unrhyw sylwadau.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Effaith y cynnig ar yr Ardal a ddynodir yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a’r ardal o gwmpas yr Adeilad Rhestredig cyfagos a’i effaith ar Ardal Gadwraeth Biwmares – Lleolir y safle y mae wnelo’r cais ag ef yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae’n ddynodiad statudol sy’n cydnabod ei bwysigrwydd o ran ansawdd y dirwedd ac o safbwynt cadwraeth natur.

Prif amcan dynodiad AHNE yw gwarchod a gwella eu prydferthwch naturiol. Mae’n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ystyried pwrpas AHNE a dylai penderfyniadau rheoli datblygu sy’n cael effaith ar AHNE yn y lle cyntaf, ffafrio cadwraeth eu prydferthwch naturiol.

Mae’r ciosgau arfaethedig wedi cael eu lleoli ar ran lletach y pafin ac mae’r gwaith plannu cefndirol yn lliniaru eu heffaith. Mae deunyddiau gorffenwaith y ddau giosg yn cyd-fynd â’r dodrefn stryd presennol ac o’r herwydd, ni fydd y cynnig yn niweidio’r dirwedd o’i gwmpas.

Diogelwch y Ffyrdd – Mae’r Awdurdod Priffyrdd wedi gwrthwynebu i gau’r ddwy lôn am gyfnod drod dro yn Stryd y Castell yn ystod y gwaithh adeiladu ac wedi argymell y dylid cynnwys amod ar y caniatâd sy’n dweud y dylai’r ymgeisydd edrych ar ddulliau eraill o reoli traffig.

Effaith ar eiddo o’i gwmpas – Mae’r cynnig yn un i wella’r cyfleusterau cyfredol yn yr ardal ar gyfer cael gwared ar wastraff. Byddai’r ciosgau arfaethedig oddeutu 18 metr i ffwrdd o’r eiddo agosaf a adwaenir fel 51 Stryd y Castell ac o’r herwydd, ni fydd yn cael effaith andwyol ar y mwynderau y mae deiliaid eiddo cyfagos yn eu mwynhau ar hyn o bryd.

**7. Casgliad**

Mae’r cynnig yn parchu cymeriad yr ardal a ddynodwyd yn Ardal Gadwraeth trwy ddefnyddio deunyddiau gorffen tebyg ac o’r herwydd, ni fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar yr ardal a ddynodwyd yn Ardal o

Harddwch Naturiol Eithriad nac ychwaith ar Ardal Gadwraeth Biwmares ac ni fydd yn cael effaith andwyol ar fwynderau deiliaid eiddo cyfagos.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd â'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 23:11:12 o dan gais cynllunio rhif 12C426.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**(03) Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad hyd nes y cafwyd caniatâd ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol, ynghyd â'r awdurdod priffyrdd, mewn perthynas â lleoliad compwnd y safle, cynllun rheoli traffig, cyfleusterau golchi olwynion cerbydau (os yn briodol) dyddiau ac oriau gweithredu a rheolaeth a gweithrediad cerbydau adeiladu, gan gynnwys cyfleusterau parcio i gontractwyr a staff. Bydd raid gwneud gwaith yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

12.2 **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **19C845G** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr Richard Parry**
**27 Tan y Bryn Road**
**Holyhead**
**Ynys Môn**
**LL65 1AR**

Cais ôl-weithredol i gadw'r estyniad i'r clwb yn | Retrospective application for the retention of the extension to the clubhouse at

Holyhead Hotspur Clubhouse, Holyhead Leisure Centre, Kingsland, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (AMG)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn ymwneud â thir y Cyngor

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Lleolir y safle ar diroedd Canolfan Hamdden Caergybi mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Mae'r cais yn un i gadw'r estyniad i'r tŷ clwb. Clwb Pêl-droed Hotspurs Caergybi sy'n defnyddio'r tŷ clwb ar hyn o bryd.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y materion allweddol i'w hystyried yw a fydd y cynnig yn cael effaith ar gymeriad yr ardal leol ai peidio ynghyd â'r effaith ar fwynderau eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
Polisi 1 - Polisi Cyffredinol
Polisi 14 – Cyfleusterau Hamdden a Chymunedol
Polisi 30 – Tirwedd
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
Polisi CH1 – Datblygiadau Hamdden a Thwristiaeth
Polisi D1 – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D29 – Safon y Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**
Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN2 – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Polisi TO11 – Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden

**Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 5, Tachwedd 2012**

**Nodyn Cyngor Technegol 9: Gorfodi Rheolaeth Gynllunio**

**Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cyngor Tref - Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Priffyrdd - Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Dwr Cymru - Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Iechyd yr Amgylchedd - Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Adran Eiddo - Dim ymateb wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Ymgynghori gyda'r Cyhoedd – Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn dwy ffordd – gosod rhybudd safle ger y safle a chyhoeddi rhybudd yn y wasg leol. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 14 Ionawr 2013. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn yn yr adran.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

19LPA296 – Cyfnod 2 Canolfan Chwaraeon, Caergybi – Caniatáu 05/09/72

19LPA296A – Cyfnod 2 newydd – Caniatáu 02/11/77

19LPA296C – Cyfnod 3 Canolfan Chwaraeon Caergybi – Dim gwrthwynebiad 07/11/79

19LPA296D - Adeilad trin dŵr a storfa cemegolion yng Nghanolfan Chwaraeon Caergybi - Dim gwrthwynebiad 05/01/83

46LPA296F/DC – Codi estyniad unllawr i'w ddefnyddio fel storfa – Dim gwrthwynebiad 04/02/87

46LPA296G/DC – Estyniad i'r dderbynfa a'r pwll nofio a gwaith ailwampio allanol yng Nghanolfan Hamdden Caergybi, Caergybi – Dim gwrthwynebiad 02/12/1987

46LPA296H/DC – Codi mynedfa, swyddfeydd, salon prydferthwch a mannau gweithgareddau chwaraeon newydd yng Nghanolfan Chwaraeon Caergybi, Kingsland, Caergybi – Dim gwrthwynebiad 21/02/91

19C845 – Gosod cysgodfan i wylwyr yn y New Oval, Canolfan Hamdden Caergybi, Caergybi – Caniatau 04/03/2004

19C845A – Newid defnydd y tir i leoli adeilad parod i'w ddefnyddio fel clwb yng Nghanolfan Hamdden Caergybi, Caergybi – Caniatau 27/07/06

19C845B – Adeiladu ystafell ffisiotherapi o dan stand y gwylwyr yn The Oval, Canolfan Hamdden Caergybi, Caergybi – Caniatáu 14/04/08

19C845C – Cadw'r gwaith altro a'r estyniadau i'r Clwb, The Oval, Canolfan Hamdden Caergybi, Caergybi – Caniatáu 16/01/09

19C845D – Cais i godi lle sefyll i wylwyr dan do yng Nghanolfan Hamdden Caergybi, Kingsland, Caergybi – Caniatáu 08/04/10

19C845E - Cais i ddiwygio amod (01) ar ganiatâd cynllunio 19C845A i ganiatáu ymestyn y cyfnod ar gyfer lleoli'r ty clwb yn Yr Oval, Canolfan Hamdden Caergybi, Kingsland, Caergybi – Caniatáu 16/08/2011

19C845F - Cais i ddiwygio amod (01) ar ganiatâd cynllunio 19C845C i ganiatáu ymestyn y cyfnod ar gyfer cadw'r estyniadau i'r clwb yn Yr Oval, Canolfan Hamdden Caergybi, Kingsland, Caergybi – Caniatau 16/08/2011

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Effaith ar gymeriad yr ardal leol** - Er bod y safle wedi'i leoli mewn ardal a ddynodir yn ardal o harddwch naturiol eithriad, nid ystyrir bod y dynodiad yn un o'r prif faterion oherwydd cyd-destun y safle. Mae'r estyniad yn cynnwys cynhwysydd glas i'w ddefnyddio fel storfa selar. Cafwyd caniatâd dros dro eisoes ar gyfer gwneud gwaith altro ac ymestyn i dy'r clwb. Mae'r Cyngor yn bryderus y bydd yr adeiladau dros dro hyn sydd yn amlwg yn annerbyniol o ran eu hadeiladwaith a'u dyluniad yn cael eu cadw am gyfnod mwy parhaol. O'r herwydd, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y byddai ond yn dderbyniol cymeradwyo'r estyniad am gyfnod dros dro hyd 25/07/16 i gyd-fynd gyda'r caniatadau dros dro blaenorol.

**Effaith ar fwynderau eiddo cyfagos** - Nid ystyrir y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ychwanegol ar eiddo cyfagos oherwydd mae'r tŷ clwb wedi'i leoli ar diroedd y ganolfan hamdden gyfredol ac ni chafwyd unrhyw sylwadau hyd yma gan ddeiliaid neu berchenogion yr eiddo cyfagos.

**7. Casgliad**

Mae'r estyniad yn cynnwys cynhwysydd glas a ddefnyddir fel storfa selar. Rhoddwyd caniatâd dros dro eisoes ar gyfer y gwaith altro a'r estyniad i dy'r clwb. Mae'r Cyngor yn bryderus y bydd yr adeiladau dros dro hyn sydd yn amlwg yn annerbyniol o ran eu hadeiladwaith a'u dyluniad yn cael eu cadw am gyfnod mwy parhaol. O'r herwydd, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y byddai ond yn dderbyniol cymeradwyo'r estyniad am gyfnod dros dro hyd 25/07/16 i gyd-fynd gyda'r caniatadau dros dro blaenorol.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu** ar yr amod na cheir unrhyw sylwadau anffafriol yn dilyn y cyfnod o gyhoeddusrwydd.

**(01) Rhaid symud ymaith yr adeilad a ganiateir yma oddi ar y tir erbyn 25/07/2016.**

Rheswm: Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi caniatâd am gyfnod dros dro yn unig gan ei fod yn dymuno ailystyried y sefyllfa ar 25/07/2016 yng ngoleuni'r amgylchiadau fydd yn bodoli ar y dyddiad hwnnw.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 03/12/2012 o dan cais cynllunio rhif. 19C845G.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**12.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **25C102B** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr. David Thomas**
**c/o Dragon Power Services Ltd**
**Mr. David North**
**Old Smithy**
**Field Street**
**Valley**
**Anglesey**
**LL65 3EG**

Cais llawn ar gyfer codi un twrbin gwynt gyda uchder hwb hyd at cyfanswm o 9.42m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 7.19m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 13.02m ar dir yn

Full application for the erection of one wind turbine with a maximum hub height of up to 9.42m, a maximum rotor diameter of up to 7.19m, and a maximum upright vertical tip height of up to 13.02m on land at

Chwaen Bach, Llanerchymedd



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (MTD)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd penderfynwyd na fydd pwerau dirprwyedig yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â datblygiadau tyrbinau gwynt.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Gwneir cais am un tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder i flaen y llafn o 13.02m metr ac uchafswm diamedr rotor o 7.19m metr. Mae’r gwneuthuriad a'r model wedi eu nodi yn y cais cynllunio a bydd yn cael ei osod ar fonopol a osodir ar sylfaen goncrid Mae'r manylion a gyflwynwyd yn dangos y bydd y ceblau sy’n cysylltu â'r rhwydwaith trydan o dan y ddaear.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Tirwedd ac Effaith Weledol
- Amwynder Preswyl.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
C7 Ynni Adnewyddadwy
D3 Ardal Gadwraeth Tirwedd
D10 Diogelu Treftadeth Naturiol

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
31 Tirwedd
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
EP 18 Ynni Adnewyddadwy
EN1 Cymeriad y Dirwedd

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 5 (Tachwedd 2012)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr’, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror 2011)**

**Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994).**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Cyngor Cymuned** – Dim yn cefnogi'r cais oherwydd nad yw'n siwr o bolisïau'r Cyngor.

**Priffyrdd** –Sylwqdau dim gwrthwynebiad

**Draenio** – Argymell hysbysiadau cynghori.

**Gwasanaethau Amgylcheddol** – Caniatâd amodol.

**Ymgynghorydd Amgylcheddol** - Dim gwrthwynebiad

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** Ddim yn gwrthwynebu'r bwriad

**MOD** - Dim Gwrthwynebad

**Arqiva** Dim gwrthwynebiad ar sail yr effeithiau ar dderbyniad teledu.

**Dŵr Cymru** Dim sylwadau.

**Asiantaeth yr Amgylchedd** Risg amgylcheddol isel.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

25C102/SCR – Barn sgrinio – Dim angen AEA

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Egwyddor datblygu**

Noda Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:

"Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i'r awdurdod cynllunio lleol. lle bo hynny'n briodol, dylid cefnogi'r cynigion gan asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd."

Noda Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:

"Bydd caniatâd yn cael ei roddi i brosiectau ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir
na chânt effaith annerbyniol ar :- i. Gymeriad y tirwedd. ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o safbwynt diogelu natur.
iii. Rhywogaethau pwysig o safbwynt diogelu natur.
iv. Safleoedd a henebion hanesyddol o bwys.
v. Safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu mwynhau. vi. Sustemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Noda Polisi 8B- Datblygiadau Ynni Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd:

"Caniateir ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac adnewyddadwy lle y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir y flaneoriaeth i ddatblygu ffynonellau ynni glan ac admewuddadwy, ond gellir caniatau cynigion ar gyfer proseictau ynni anadnewyddadwy os byddant yn hyrwyddo manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd ynni yn eu cynllun."

Mae Polisi EP18 (Ynni Adnewyddadwy) o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn datgan bydd prosiectau yni adnewyddadwy yn cael eu caniatáu lle gellir yn glir gellir dangos na fydd unrhyw effaith

andwyol sylweddol ar y meini prawf a restrir.

Mae Adran 12.8 (Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) Polisi Cynllunio Cymru (4ydd Argraffiad Chwefror 2011) yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy yn unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), paragraff 12.8.1 sy'n datgan:

" ...Mae'n esbonio ein nod o fod mewn sefyllfa, erbyn 2050, lle y gellir diwallu bron y cyfan o'n hanghenion ynni lleol drwy drydan o ffynonellau carbon isel. Gwnawn hyn drwy leihau defnydd ynni a gwella effeithlonrwydd ynni ar bob graddfa ledled Cymru..."

Noda Paragraff 12.8.2:

*"...Dylai polisïau cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni Datganiad Polisi Ynni cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad, a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy..."*

Mae Adran12.10.1 a atgynhyrchir isod yn tynnu sylw at faterion y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth ymdrin â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys agweddau cadarnhaol megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewropeaidd, ac yn ehangach buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn amlygu'r angen i ystyried yr effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol a'r angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol. Amlygir materion eraill hefyd o fewn yr adran hon, megis lliniaru a materion seilwaith h.y. y cysylltiad â'r grid a'r rhwydwaith cludiant, fel a ganlyn:

*12.10.1 Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried:*

- *cyfraniad y cynnig at fodloni targedau a'r potensial a bennwyd yn genedlaethol, a chan y DU ac Ewrop, ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cyfraniad at dorri allyriadau nwyon tyˆ gwydr;*
- *y manteision a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;*
- *yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler Adran 5.5), yr arfordir (gweler Adran 5.6) a'r amgylchedd hanesyddol (gweler Adran 6.5);*
- *yr angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;*
- *ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt;*
- *effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a'r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a ydy'r mesurau i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at effeithiau eraill (gweler 4.2);*
- *materion sy'n ymwneud â'r cysylltiad â'r grid, pan gynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan);*
- *gallu'r seilwaith trafnidiaeth, a'r effeithiau arno, yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu'r cynnig.*

Noda paragraff 12.8.13 y bydd yr effeithiau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig yn amrywio gan ddibynnu ar eu math, lleoliad a graddfa. Mae hyn angen polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu gwahanol. Ceir tabl yn Ffigwr 12.3 (Graddfeydd ynni adnewyddadwy ac isel i ddibenion cynllunio).

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) (paragraff 1.4) yn datgan fod gan Lywodraeth y Cynulliad darged o 4TWh o drydan y flwyddyn i gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad bod angen 800MW o gapasiti gosodedig ychwanegol o ffynonellau gwynt ar y tir.

Mae paragraff 2.12 o TAN 8 yn nodi fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol annog, drwy eu polisïau cynllun datblygu ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol, cynlluniau ffermydd gwynt cymunedol llai (yn gyffredinol yn llai na 5 MW). Gellir ystyried y datblygiad sy'n destun yr adroddiad hwn yn fach, ond nid yw'n gynllun cymunedol.

Noda Paragraff 2.13:

'Dylai rhan fwyaf o ardaloedd yy tu allan i SSAs fod yn rhydd o gynlluniau pŵer gwynt mawr. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno ystyried effaith gronnus cynlluniau bach mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardal Chwilio Strategol a sefydlu meini prawf addas ar gyfer pellteroedd gwahanu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth perimedr cynlluniau ynni gwynt presennol neu yr Ardaloedd Chwilio Strategol. '

Mae Adran 2 Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

*“2.1.1 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i’w chwarae wrth gefnogi cyflenwad cymunedau gwledig cynaliadwy. Gall helpu sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir drwy sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau gwledig. Ar yr un pryd, rhaid i’r system gynllunio ymateb i’r heriau sy’n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhaid iddo hefyd warchod a gwella’r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored.*

Yng nghyswllt arallgyfeirio ar ffermydd mae Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

“3.7.2 Mae’n bosibl lleoli nifer o weithgareddau economaidd yn gynaliadwy ar ffermydd. Mae gweithrediadau bach ar y fferm, megis prosesu bwyd a choed a phecynnu bwyd, ynghyd â gwasanaethau (e.e. swyddfeydd, gweithdai, llogi a chynnal a chadw offer), gwasanaethau chwaraeon a hamdden, cynhyrchu cnydau heblaw am fwyd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i gyd yn debygol o fod yn ddefnyddiau priodol.”

Mae’r Canllaw Cynllunio Atodol: ‘Datblygiadau Ynni Gwynt' (1994) a fabwysiadwyd gan y cyngor yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, oherwydd oed y ddogfen, mae yn y broses o gael ei disodli gan fersiwn wedi'i diweddaru o'r enw 'Ynni Gwynt ar y Tir', sydd ar hyn o bryd yn y cyfnod ymgynghorol, a dim ond ychydig o bwysau y gellir ei briodoli iddi.

Mae'r polisïau a restrir uchod yn rhoi rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar ystyriaethau manwl. Bydd yr effeithiau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy hefyd yn amrywio gan ddibynnu ar eu lleoliad a graddfa, ac mae angen polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu gwahanol.

**Tirwedd ac Effaith Weledol**

Byddai'r cais mewn Ardal a ddynodir fel Ardal Tirwedd Arbennig dan ddarpariaethau polisi 31 Cynllun Lleol Ynys Môn, D3 Cynllun Fframwaith Gwynedd ac EN1 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA), Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994) yn nodi na chaniateir datblygu ar safleoedd a allai amharu ar ansawdd, gosodiad a mwynhad y dirwedd warchodedig. Mae angen asesu ceisiadau sydd o fewn 2km o’r AHNE yn ofalus; ac nad yw'r ffin yn awgrymu rhwystr pendant rhwng gwerthoedd cadwraeth o fewn, a'r tu allan.

Oherwydd maint a lleoliad y tyrbin, ystyrir na fyddai’n arwain at newid sylweddol i gymeriad y dirwedd – byddai hynny’n arwain at wrthod y cais.

**Amwynder Preswyl**

Mae Atodiad D TAN 8 yn rhestru'r ffactorau y dylid fel arfer eu hadolygu i ganfod 'ardaloedd sy’n dechnegol ddichonadwy' ar gyfer datblygu cynlluniau ynni gwynt ar y tir. Ym mharagraff 3.4, nodir 'ar hyn o bryd mae 500m yn cael ei ystyried yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbin gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol, fodd bynnag, pan gaiff ei ddefnyddio mewn modd anhyblyg gall arwain at ganlyniadau ceidwadol ac felly cynghorir rhywfaint o hyblygrwydd”

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt (1994) 'CCA' y Cyngor yn nodi y bydd y cyngor yn rhoi ystyriaeth ffafriol i brosiectau ynni adnewyddadwy yn yr achosion hynny lle y gellir dangos yn glir na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar yr ystyriaethau rhestredig sy'n cynnwys 'safon y mwynderau a fwynheir gan y boblogaeth breswyl a thwristiaid '. O dan 7.3 'Diogelwch y Cyhoedd, Fflachiadau Cysgodion, Ymyrraeth Weledol ac Effaith ar Ddiogelwch y Brifforddd' mae'r 'CCA' yn cynnwys safon a argymhellir na fydd unrhyw dyrbin yn cael ei osod yn nes na 400 metr at y tŷ annedd agosaf, gydag eithriad posibl anheddau a feddiannir gan y perchnogion tir lle bwriedir lleoli'r tyrbinau.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, ychydig o bwysau y gellir ei briodoli i'r CCA drafft sydd wrthi'n cael ei baratoi gan y cyngor.

Mae swyddogion wedi asesu'r effaith ar amwynder gweledol/ preswyl eiddo preswyl cyfagos. Ar sail maint y tyrbin arfaethedig a phellteroedd o'r anheddau hyn, ni ystyrir bod mwynderau y preswylwyr yn cael ei effeithio i raddau annerbyniol.

Mae Atodiad C Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi cyngor ar Fflachiadau Cysgod a Golau a Adlewyrchir. Gwelir nad yw fflachiadau cysgodion ond yn digwydd mewn adeiladau sydd hyd at 10 diamedr rotor oddi wrth dyrbin ac o fewn 130 gradd ar naill ochr ogleddol y lledredau hyn yn y DU. Nid oes unrhyw eiddo preswyl o fewn yr ardal hon yn yr achos hwn, ac ni ddisgwylir niwsans fflachiadau cysgod mewn unrhyw eiddo preswyl o ganlyniad i'r datblygiad; fodd bynnag, mae amod wedi cael ei argymell ar sail ragofalus.

Aiff Atodiad C ymlaen i nodi fod y gall tyrbinau hefyd achosi fflachiadau o olau adlewyrchol, a all fod yn weladwy o gryn bellter. Noda'r canllawiau y gellir lliniaru golau adlewyrchol trwy ddewis lliw llafn priodol, ac mae amod wedi cael ei argymell ynglŷn â'r lliw er mwyn lliniaru'r effeithiau.

Mae'r cais hefyd wedi cael ei asesu gan Adain Gwasanaethau Amgylcheddol y cyngor ac nid ydynt yn ystyried y bydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol o ran sŵn, ond gyda'r amodau a argymhellwyd.

**Materion Eraill**

Nid oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn wrthwynebiad i'r datblygiad..

Nid oes gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru nac Ymgynghorydd Amgylcheddol y cyngor wrthwynebiadau ar sail yr effaith ar rywogaethau a warchodir neu seiliau eraill yn unol â'u hymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae effaith y datblygiad ar dwristiaeth yn ystyriaeth berthnasol. Comisiynodd Cyngor Ynys Môn ymchwil ar 'Effaith Tyrbinau Gwynt ar Dwristiaeth' sydd wedi ei bwysoli wrth wneud yr argymhelliad isod.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol. O ran mwynderau gweledol, fflachiadau cysgodion/adlewyrchu golau a sŵn, mae'r swyddogion yn ystyried bod y cais yn dderbyniol, yn amodol ar amodau. O ran yr effaith ar y dirwedd ac effaith weledol ni fyddai'r tyrbin arfaethedig yn cael effaith gronnus andwyol sylweddol ar y dirwedd a ni fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar y tirwedd.

**8. Argymhelliad**

Bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi ond gyda'r amodau canlynol:

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae caniatâd cynllunio am gyfnod na fydd yn fwy na'r 25 mlynedd ("y cyfnod 25 mlynedd") o'r dyddiad y caiff y datblygiad ei gysylltu gyntaf i'r grid trydan ("y grid"). Rhaid rhoi rhybudd o ddyddiadau (a) cysylltu am y tro cyntaf i'r grid a (b) gweithrediad llawn y tyrbin yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 28 diwrnod i'r ddau beth hyn ddigwydd.**

Rheswm: Fel y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni'r amgylchiadau fydd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod.

**(03) Ni chaniateir i'r tyrbin a ganiateir yma fod yn fwy na:**

| | |
|---|---|
| **13.02 medr** | **Uchafswm uchder llafn* (*i ben fertigol uchaf llafn fydd yn sownd)** |
| **9.42 medr** | **Uchafswm uchder hwb** |
| **9.6 medr** | **Uchafswm diamedr rotor** |

**Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd manylion am y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, lleoliad transformer, graddfa bŵer, lefelau sŵn, gorffeniad a lliw allanol y tyrbinau arfaethedig wedi eu cyflwyno yn ysgrifenedig ac wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol. Rhaid i lafnau'r tyrbin droi i'r un cyfeiriad. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.**

Rheswm: Er mwyn diffinio sgôp y caniatâd hwn o ystyried effaith y datblygiad fel y'i haseswyd.

**(04) Ar ddiwedd y cyfnod 25 mlynedd, rhaid dadgomisiynu'r tyrbin a rhaid i'r holl strwythurau perthynol sydd uwchben y ddaear gael eu symud oddi ar y safle. Ddeuddeng mis cyn dadgomisiynu'r tyrbin, rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig ar gyfer ailadrodd y safle ("y cynllun dadgomisiynu" ) i'r awdurdod cynllunio lleol am ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun dadgomisiynu wneud darpariaeth i symud y tyrbin gwynt a'u hoffer ategol cysylltiol i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear. Rhaid i'r holl waith dadgomisiynu ac adfer gael ei wneud yn hollol unol â'r cynllun dadgomisiynu fydd wedi'i gymeradwyo ac yn unol â'r amserlen ynddo.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau edrychiad boddhaol ar ddiwedd y datblygiad.

**(05) Os bydd y tyrbin gwynt ganiateir yma yn methu cynhyrchu trydan i'w gyflenwi i'r grid am gyfnod parhaol o 12 mis rhaid i'r tyrbin gwynt a'i offer ategol cysylltiol gael ei symud i ffwrdd i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear a'i symud oddi ar y safle gyda'r tir yn cael ei ailosod o fewn cyfnod 6 mis o ddiwedd y cyfnod hwnnw o 12 mis yn unol â chynllun ("y cynllun symud") fydd wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatad ysgrifenedig cyn dechrau'r datblygiad. Rhaid i'r datblygwr ddarparu data gweithredol ysgrifenedig ar gyfer tyrbinau unigol i'r awdurdod cynllunio lleol pan wneir cais ysgrifenedig rhesymol.**

Rheswm: Er budd mwynderau'r ardal.

**(06) O fewn 12 mis i'r "comisiynu" ac ar gais ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol, yn cynnwys unrhyw gyfnodau amser a osodir yn y cais; rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig i liniaru unrhyw achosion o fflachiadau cysgodion yn unrhyw eiddo a effeithir yn cynnwys amserlen ("y cynllun**

**lliniaru") i'r awdurdod cynllunio lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i weithrediad y datblygiad ganlyn ymlaen wedi hynny yn hollol unol â'r "cynllun lliniaru".**

Rheswm: I ddiogelu mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**(07) Rhaid i'r holl geblau mewn cysylltiad a'r datblygiad a ganiateir trwy hyn fod wedi'u gosod o dan y ddaear (oni bai cymeradywyd yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol).**

Rheswm: Er lles mwynderau.

**(08) Ni chaniateir dechrau'r datblygiad hyd nes y bo'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig.**

**1) Y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn dod i ben.**
**2) Hyd ymestyn mwyaf unrhyw offer adeiladu**
**3) Hydred a lledred pob tyrbin.**

**Rhaid gwneud y datblygiad wedi hynny yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau'r amod hwn.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod awyrennau militaraidd yn osgoi'r ardal ac yn osgoi'r perygl o wrthdrawiad.

**(09) Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd cadarnhad o'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig:**

**1) Dim ond person cymwys gaiff osod y tyrbin a hynny'n unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwyr a'r arolwg wnaed o'r safle.**

**2) Rhaid cynnal a chadw'r tyrbin yn unol ag argymhellion y gwneuthurwyr.**

**3) Ni chaniateir i'r sŵn cronnol o'r tyrbin gwynt, wedi'u mesur 3.5m o wyneb unrhyw eiddo cyfagos gyda rhywun yn byw ynddo a heb fod ym mherchnogaeth yr ymgeisydd, fod yn fwy na 35dB LA90 (10 munud) hyd at gyflymder gwynt o 9m/s ar uchder yr hwb. Lle bo rhan o unrhyw eiddo cyfagos sydd yn sensitif i sŵn yn uwch na lefel y ddaear, rhaid i'r lleoliad monitro fod 1m oddi wrth y talcen a chywiriad talcen o -3dB(A) yn cael ei weithredu.**

**4) Ni chaniateir i'r tyrbin gwynt fod yn rhai tonaidd o ran cymeriad.**

**Rhaid i'r datblygiad fynd yn ei flaen wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.**

Rheswm: Er lles mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**Hysbysiadau Cynghori**

Cynghorir yr ymgeisydd i gysylltu â Colin Edwards (Prif Beiriannydd) ar 01248 752350 i drafod y gofynion arolwg o gyflwr y rhwydwaith priffyrdd cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad ar y safle. Bydd yr arolwg yn ddefnyddiol ar gyfer pob parti i ddarparu cofnod o gyflwr y briffordd gyhoeddus cyn cwblhau'r datblygiad.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

FF11 (Traffig)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 (Polisi Cyffredinol)
35 (Diogelu Natur)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)
EN4 (Bioamrywiaeth)

Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)

**12.4** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **26C14H** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Gwilym Owen**
**c/o Mr Dermot McGee**
**Egniol Environmental Ltd**
**Tre Felin**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 4LH**

Cais llawn ar gyfer canolfan ailgylchu anadweithiol yn

Full application for an inert recycling centre at

Nant Newydd Quarry, Brynteg



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (RWW)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Ar ofyn yr Aelod Lleol

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i reoleiddio'r gweithgaredd ailgylchu gwastraff anadweithiol sydd yn digwydd ar hyn o bryd yn y chwarel.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A yw'r bwriad am gyfrannu i wella'r gweithgareddau rheoli gwastraff sydd yn digwydd ar y safle ar hyn o bryd heb beryglu'r rheolaeth amgylcheddol sydd i'r safle? A yw'r cynnig yn dderbyniol o ran polisi cynllunio?

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
Polisi 1 - Cyffredinol
Polisi 29 – Cael Gwared â Gwastraff

**Cynllun Unedol Ynys Môn wedi'I atal**
Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheolaeth Datblygu
Polisi WP5 – Ailgylchu
Polisi WP7 – Safleoedd Mwynderau Dinesig

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
Polisi D18 – Ymgymeriadau Gwaredu Gwastraff

**Nodyn Cyngor Technegol 21 – Gwastraff**

**Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Galw'r Cais I Bwyllgor oherwydd agosrwydd Cors Erddreiniog i'r safle

Cyngor Cymuned

Awdurdod Priffyrdd (Draeniad)

Gwasanaethau Amgylcheddol (Iechyd)

Dŵr Cymru

Asiantaeth yr Amgylchedd

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ymgynghorydd Ecolegol –

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig –

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru -

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais drwy osod rhybudd ar y safle a llythyrau hysbysu i gymdogion. Hyd yma, ni dderbyniwyd unrhyw sylw'n gysylltiedig â'r cyhoeddusrwydd.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

26C14 Estyniad i'r chwarel bresennol yn Nant Newydd, Brynteg
Dim Gwrthwynebiad – 09/07/1986

26C14A - Estyniad i'r chwarel presennol ynghyd a cadw swyddfa a gweithdy yn Chwarel Nant Newydd, Brynteg
Dim Gwrthwynebiad – 10/01/1990

26C14B - Atgywiro'r chwarel wrth ei lenwi a gwastraff anadweithiol yn Nant Newydd, Brynteg
Caniatau 29/03/1996

26C14C - Gosod peiriant ail gylchu gwastraff mwynau ar y safle yn Chwarel Nant Newydd, Brynteg
Caniatau 10/04/1997

26C14D/SCR - Barn sgrinio ar gyfer adnewyddu caniatâd cynllunio 26C14B i ganiatau parhad y gwaith chwarelau a'r adferiad cynyddol y chwarel drwy ei lenwi a gwastraff anadweithiol yn Chwarel Nant Newydd, Brynteg
Dim angen AEA – 27/11/2007

26C14E - Cais i ddiwygio amod (02) ar ganiatâd cynllunio rhif: 26C14B i ganiatau ennill \ gweithio mineralau tan 31\2\2010, gweithrediadau tipio tan 31\12\2011 a chadw'r adeiladau, cerbydau, offer a pheiriannau tan 31\03\2012 yn Chwarel Nant Newydd, Brynteg
Tynnwyd yn ôl – 20/05/2008

26C14F/SCO - Barn sgopio ar gyfer diwygio amod (02) ar ganiatâd cynllunio rhif: 26C14B i ganiatau ennill \ gweithio mineralau tan 31\2\2010, gweithrediadau tipio tan 31\12\2011 a chadw'r adeiladau, cerbydau, offer a pheiriannau tan 31\03\2012 yn Chwarel Nant Newydd, Brynteg
Rhoddwyd Farn – 20/08/2008

26LPA695/CC - Cais am dystysgrif o gyfreithlondeb ar gyfer defnydd neu ddatblygiad sy'n bodoli sef defnyddio tir ar gyfer halio a llogi peiriannau yn Chwarel Nant Newydd, Brynteg
Tynnwyd yn ôl – 29/03/1996

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Caniatawyd cais cynllunio 26C14C i ailgylchu agreg ar y safle ym 1997, gyda'r gweithgaredd i ddod i ben ar y 31 Rhagfyr 2008. Er hyn, nid oedd gweithredwr y chwarel yn ymwybodol mai caniatâd dros dro oedd ganddo o ganlyniad mae wedi parhau i ailgylchu gwastraff ar y safle.

Er gwaetha'r gweithgaredd diawdurdod sydd yn digwydd ar y chwarel mae gofynion Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, yn ogystal ag amcanion Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn amlinellu'r angen i ddatblygu rhwydwaith gynaliadwy o gyfleusterau ar gyfer trin gwastraff gyda phwyslais arbennig ar yr angen i ddarparu cyfleusterau ar gyfer ail ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff. Mae'r galw am ailddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau gwastraff wedi cynyddu'n sylweddol mewn ymateb i'r cyfarwyddyd Ewropeaidd drwy'r Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2000, i ailgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi i ffynonellau lle gellir gwneud defnydd cynaliadwy ohono.

O ganlyniad i'r uchod, mae gweithredwr chwarel Nant Newydd wedi bod yn ailgylchu rhan helaeth o'r gwastraff sydd yn cael ei fewnforio i'r safle gan dirlenwi'r gwastraff anadweithiol hynny na ellir ei ailgylchu fel rhan o gynllun adfer y chwarel.

Noder fod sylw wedi ei leisio ynglŷn ag agosrwydd y safle i Gors Erddreiniog. Hyd yma nid wyf wedi derbyn sylw gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar y cais hwn. Er hynny, mae diogelwch y Gors yn cael ei warchod dan amodau caniatâd cynllunio 26C14G/EIA sydd yn caniatáu'r chwarel weithio hyd 2020 ac i dipio barhau hyd 2021. Er nad wyf wedi derbyn sylw ymgynghorol Asiantaeth yr Amgylchedd hyd yma, rwyf yn ymwybodol fod gweithgareddau gwastraff o'r math hyn yn destun rheolaeth trwydded amgylcheddol yn ogystal, fydd hefyd yn cyfrannu i ddiogelu'r amgylchedd.

Nid wyf wedi derbyn sylw ymgynghorol yr Awdurdod Priffyrdd ar y cais. Er hynny nid yw'n fwriad gan yr ymgeisydd godi lefelau traffig y safle'n uwch na'r lefelau hynny sydd wedi ei ganiatáu dan ganiatâd cynllunio 26C14B o 4 lori'n dychwelyd yr awr neu 32 lori mewn dydd.

Nid wyf wedi derbyn sylw gan Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor ar y cais eto. Er hynny mae'r wybodaeth sydd wedi ei dderbyn gan yr ymgeisydd yn nodi y bydd yn derbyn amodau yn gysylltiedig â chadw llwch i lawr a rheoli lefelau sŵn yn gyson ag amodau cyfredol y chwarel.

Ystyrir fod y gweithgaredd ailgylchu sydd yn digwydd yn Chwarel Nant Newydd yn cyfrannu tuag at godi'r gwastraff o fewn yr hierarchaeth wastraff i ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff anadweithiol ar draul ei dir lenwi. Yn ogystal â hyn, mae'r sgil gynnyrch yn golygu bod modd lleihau'r ddibyniaeth ar agregau primaidd.

**7. Casgliad**

Yn seiliedig ar beidio â derbyn sylw gwrthwynebus perthnasol a materol yn ystod cyfnod ymgynghori'r cais ac yn ddarostyngedig i amodau cynllunio perthnasol argymhellir y dylid caniatáu'r cais hwn.

**8. Argymhelliad**

Caniatáu

12.5 **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **35C304** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**North Wales Housing Association Ltd**
**c/o Cadnant Planning Ltd**
**1 Connaught House**
**Riverside Business Park**
**Benarth Road**
**Conwy**
**LL32 8UB**

Cais llawn i godi 9 ty fforddiadwy ar dir ger

Full application for the erection of 9 affordable dwellings on land near

Bryn Paun, Llangoed



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno rhybudd i Gyngor Sir Ynys Môn.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r cais yn un am 9 o dai fforddiadwy a gwelliannau cysylltiedig i'r briffordd.

Ceir cymysgedd o dai gan gynnwys dau dy 2 lofft, chwech o dai 3 llofft ac un tŷ 4 llofft.

Bydd yr eiddo'n gymysgedd o dai rhent a thai y gellir eu prynu am bris is na'u gwerth ar y farchnad, bydd y cymysgedd y penderfynir arno yn seiliedig ar anghenion y gymuned. Ni fydd y tai a brynir ond yn cael eu gwerthu'n gyfan gwbl os bydd y deiliaid gwreiddiol yn dymuno eu prynu yn y dyfodol a bydd y gwahaniaeth rhwng y pris prynu gwreiddiol a'u gwerth ar y farchnad yn daladwy i'r Cyngor. Bydd y 4 eiddo sydd y tu allan i'r ffin yr anheddiad yn cael eu rhentio neu os byddant yn cael eu prynu, ni fydd modd eu prynu'n gyfan gwbl. Mae'r ymgeisydd yn cynnig cynnwys y darpariaethau hyn mewn prydles ar y tir.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- A yw'r datblygiad yn dderbyniol ar sail eithriad
- Ystyriaethau cynllunio eraill o bwys

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
A1 – Tai
A3 – Tai
A8 – Tai Fforddiadwy

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
49 Trefi/Pentrefi Diffinedig
52 Safleoedd Eithriad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**
HP4 – Pentrefi
HP7 Tai Fforddiadwy – Angen am Dai

**Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy (Mai 2004)**

**Datganiad Darparu Tai Fforddiadwy (2009)**

**Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 5, (Tachwedd 2012)**

**Nodyn Cyngor Technegol 2 (Cynllunio a Tai Fforddiadwy (2006)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Aelod Lleol** Dim sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

**Cyngor Cymuned** Dim sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

**Priffyrdd** Dim sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

**Draenio** Dim sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

**Tai** Cododd y cais o arolwg a wnaed yn 2009 ac mae'r Adran Dai wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Dai i ddatblygu'r cynllun. Mae Hwylusydd Tai Gwledig y Cyngor wedi gweithio gyda Chyngor Cymuned Llangoed i gynnal yr arolwg a thrafod cynlluniau ac wedi cael cyfarfodydd agored i bobl leol weld y cynlluniau a mynegi diddordeb. Daeth 14 o bobl gyda chysylltiad lleol ymlaen ac rydym yn hyderus y byddwn yn gallu gosod y tai un ai trwy gynllun rhannu ecwiti neu ar sail rhent canrannol. Byddwn yn cadw mewn cyswllt gyda'r gymuned os bydd y cais yn llwyddo a hynny er mwyn trefnu rhagor o gyhoeddusrwydd. Bydd y tai yn cyfrannu at y cyflenwad o dai fforddiadwy mewn ardal lle cydnabyddir bod angen amdanynt ac felly mae'r Adran dai yn cefnogi'r cais.

**Gwasanaethau Amgylcheddol.** Dim sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Ymgynghorydd Amgylcheddol.** Dim sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru.** Dim sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Dwr Cymru.** Dim sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Asiantaeth yr Amgylchedd.** Dim sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Cafwyd un llythyr yn dweud bod y "Brownies & Geidiaid" yn defnyddio darn o dir ar hyn o bryd o fewn safle'r datblygiad arfaethedig ac y byddai colli'r tir hwnnw yn cael effaitharnynt. Mae bwriad rfaethedig i greu estyniad i'r cwt wedi ei roi heibio a bydd llawer llai o le i chwarae ac ymarfer sgiliau gwersylla.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

35C304/SCR Barn Sgrinio. Dim angen AEA 11.12.12

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Egwyddor Datblygu**

Mae rhan o safle'r cais wedi ei neilltuo fel llecyn ar gyfer anheddau, sef T28 yng Nghynllun Lleol Ynys Môn ac mae rhan o'r safle y tu allan i ffin yr anheddiad. Mae rhan fwy o'r safle'r cais wedi ei neilltuo fel cynnig tai T42 yng Nghynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Stopiwyd. Mae rhan mwy o safle'r cais y tu allan i ffin ddiffiniedig yr anheddiad.

Mae'r egwyddor o ddatblygu'r anheddau hynny sydd o fewn ffin ar gyfer dibenion preswyl yn dderbyniol. Mewn perthynas â ffin ddatblygu Cynllun Lleol Ynys Môn, mae oddeutu 2 o dai par (4 annedd) y tu allan i ffin

yr anheddiad ac mae angen rhoi sylw iddynt ar sail eithriad.

Cynhaliwyd arolwg o Anghenion Tai yn 2009 mewn cydweithrediad gyda Chyngor Cymuned Llangoed a Phenmon. Daeth yr arolwg i'r casgliad fod fforddiadwyedd yn broblem yn ardal Llangoed. Roedd tystiolaeth o'r holiadur yn dangos bod 27 o aelwydydd yn dymuno symud ac y byddai'r rhan fwyaf o'r aelwydydd yn ystyried Llangoed. Roedd 20 o'r aelwydydd hyn yn cynnwys Llangoed fel eu dewis cyntaf. Roedd y rhan fwyaf o'r aelwydydd a oedd yn dymuno symud angen annedd dwy-tair ystafell wely. Mae'r manylion a gyflwynwyd yn dangos bod y cymysgedd o anheddau o ran maint wedi ei benderfynu ar ôl ymgynghoriad lleol. Gyda golwg ar lefelau incwm, daeth Arolwg Anghenion Tai i'r casgliad byddai 16 o aelwydydd angen tai fforddiadwy yn Llangoed dros yr 1-5 mlynedd nesaf(2009).

Mae'r ddarpariaeth bosib o fewn ffin yr anheddiad yn ystyriaeth o bwys wrth asesu nifer yr unedau tai fforddiadwy a gynigir fel a ganlyn:

- Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cadarnhau nad oes unrhyw safleoedd o fewn ffiniau Llangoed sydd hefo caniatâd cynllunio neu sydd wedi eu clustnodi ar gyfer unedau tai fforddiadwy.
- Mae'r lefel fforddiadwy yn Llangoed o gwmpas £98,000 ac nid oedd unrhyw eiddo ar werth am y pris hwnnw neu'n is na hynny ac nid oedd unrhyw eiddo ar gael i'w rhentio chwaith.
- Stoc y Cyngor - yn ôl y wybodaeth orau sydd gennym ar hyn o bryd mae oddeutu 13 ar y rhestr am eiddo 2 a 3 ystafell wely a chanddynt 60 o bwyntiau neu mwy, ond llawer mwy gyda llai o bwyntiau. Mae trosiant eiddo Cyngor yn yr ardal yn isel sef oddeutu 3 pob 2 flynedd fe amcangyfrifir.
- Cartrefi gweigion - mae 3 eiddo gwag ar y rhestr ac mae dau ohonynt mewn lleoliadau gwledig y tu allan i bentref Llangoed. Mae'r Swyddog Eiddo Gweigion yn ysgrifennu at y perchnogion i wneud ymholiadau ynghylch eu bwriadau ond mae'n tybio, o ystyried eu lleoliadau, y bydd angen gwneud gwaith atgyweirio arnynt.

Ar sail yr uchod, gellid cwrdd â'r angen posib am dai fforddiadwy yn Llangoed o fewn ffin yr anheddiad, ond mae'r egwyddor o ddarparu'r gweddill y tu allan i ffin yr anheddiad yn dderbyniol. Fel y disgrifiwyd eisoes, mae dyluniad a math yr anheddau a'u deiliadaeth yn seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Anghenion Tai(2009).

**Ystyriaethau Eraill sydd o bwys**

Ystyrir bod dyluniad a gosodiad y datblygiad yn dderbyniol mewn perthynas â'r polisïau cynllunio perthnasol.

**7. Casgliad**

Mae'r egwyddor o ddatblygu yn dderbyniol ond mae angen cwblhau nifer o ymgynghoriadau ac mae'r adroddiad felly yn gofyn am bwerau dirprwyol.

**8. Argymhelliad**

Bod Swyddogion yn cael pwerau dirprwyol i gymeradwyo'r cais yn amodol ar yr isod a chydag unrhyw amodau eraill a argymhellir gan ymgyngoreion:

**(01) Rhaid cychwyn y datblygiad y cyfeirir ato yn y caniatad cynllunio hwn ddim hwyrach na (phum) mlynedd o ddyddiad y caniatad hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhai gweithredu'r cynllun tirweddu fel a ddangosir ar ddarlun rhif 12/15/LP/01 ddim hwyrach na'r tymor plannu cyntaf ar ol meddiannu'r adeilad(au) neu gwblhau'r datblygiad, pa un bynnag yw'r cyntaf.**

Rheswm : Er budd mwynderau gweledol yr ardal.

**(03) Os oes unrhyw goeden neu lwyn sydd yn rhan o'r cynllun tirweddu a gymeradwywyd ymhen cyfnod o bum mlynedd o'i ph/blannu yn methu sefydlu, yn cael ei niweidio neu yn cael ei heintio'n ddifrifol, yn marw neu yn cael ei symud am unrhyw reswm yna fe fydd coeden neu lwyn newydd o fath, maint ac aeddfedrwydd a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael ei ph/blannu yn eu lle yn ystod y tymor plannu nesaf.**

Rheswm : Er budd mwynderau gweledol yr ardal.

**(04) Ni chyflawnir unrhyw ddatblygiad hyd nes fo manylion lefelau slabiau arfaethedig yr adeilad(au) mewn perthynas a lefelau presennol ac arfaethedig yr adeilad wedi eu cyflwyno ac wedi eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fe fydd yr adeilad(au) yn cael ei/eu adeiladu/hadeiladu gyda'r lefelau slabiau arfaethedig.**

Rheswm : I osgoi unrhyw amheuaeth ac i sicrhau ffurf foddhaol o ddatblygiad.

**(05) Rhaid defnyddio llechi naturiol o liw unffurf yn ddeunydd to ar yr adeilad(au) arfaethedig.**

Rheswm : I sicrhau golwg foddhaol i'r datblygiad.

**(06) Bydd rhaid cael caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer lliw rendr allanol ar yr anheddau cyn cychwyn ar y datblygiad a gymeradwyir yma. Bydd raid glynu wrth y manylion a gymeradwyir dan ddarpariaethau'r amod hwn ar gyfer y datblygiad a gymeradwyir yma.**

Rheswm : I sicrhau golwg foddhaol i'r datblygiad.

**(07) Rhaid i'r anheddau a ganiateir yma fod wedi'i hadeiladu i gyrraedd isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 a chyrraedd o leiaf 1 o gredydau o dan gategori Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' - yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy: Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (Fersiwn 3) (neu unrhyw cyfatebol dilynol a / neu safon fel y gallai fod mewn grym ar adeg cofrestru). Rhaid adeiladu'r datblygiad yn hollol unol â'r asesiad a'r ardystiad fydd wedi'i gymeradwyo.**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(08) Ni chaniateir dechrau adeiladu'r anheddau a ganiateir yma hyd nes bo 'Tystysgrif Interim' wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac o leiaf 1 o gredydau o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr anheddau yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (Fersiwn 3), (neu unrhyw cyfatebol dilynol a / neu safon fel y gallai fod mewn grym ar adeg cofrestru).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(09) Cyn bod neb yn byw yn yr anheddau a ganiateir yma, rhaid cyflwyno 'Tystysgrif Terfynol' Cod Cartrefi Cynaliadwy i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac isafswm o 1 credyd o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr anheddau yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (Fersiwn 3), (neu unrhyw cyfatebol dilynol a / neu safon fel y gallai fod mewn grym ar adeg cofrestru).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
D28 - Llechi
D29 – Safonau Dylunio
D32 – Tirlunio

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 – Cyffredinol
26 – Parcio Ceir
42 – Dylunio
48 – Meini Prawf Codi Tai

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**
GP1 – Canllawiau Rheoli Datblygu
GP2 – Dylunio
TR10 – Safonau Parcio
EN14 – Gorchmynion Diogelu Coed a Gwrychoedd
HP2 – Dwysedd Tai

**Safonau Parcio Cyngor Sir ynys Môn 2008**

**Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio ar gyfer Amgylchedd Adeiledig, Gwledig a Threfol**

**Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)**

**Nodyn Cyngor Technegol 18 Trafnidiaeth (2007)**

**12.6** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **39C291E/1** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**York Desgin & Construction Ltd**
**c/o Mr Lester Roberts**
**Planscape**
**1 Lychgate House**
**St Marys Court**
**Whitford**
**Holywell**
**Flintshire**
**CH8 9AG**

Gosod dau pontwn arnofio yn Installation of two floating pontoons at

Porth Daniel Boat Yard, Water Street, Menai Bridge



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r ymgeisydd wedi cyflwyno rhybudd i Gyngor Sir Ynys Môn sy’n gweithredu fel asiant ar gyfer Stad y Goron.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cyflwynir cais am ddau bontŵn arnofiol fel y gellir cael at Y Fenai o’r iard gychod ym Mhorth Daniel. Bydd y pontynau arnofiol yn agos at wal sydd yn cynnwys strwythur rhestredig (graddfa II). Oherwydd dyluniad y strwythur, nid yw’n sownd wrth y wal restredig.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Dyluniad ac unrhyw effaith ar y Strwythur Rhestredig
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a dynodiad Y Fenai fel Ardal Gadwraeth Arbennig
- Effaith ar Fwynderau

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
D4 – Lleoliad, Safle a dyluniad
D10 – Diogelu Treftadaeth Sir
D21 – Adeilad Rhestredig
D22 – Gosodiad Adeilad Rhestredig

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 - Cyffredinol
33 – Diogelu Natur
41 – Diogelu Adeiladau
42 – Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP2 – Dyluniad
EN5 – Safleoedd Rhyngwladol
EN6 – Safleoedd Cenedlaethol
EN13 – Cadwraeth Adeiladau

**Polisïau Cynllunio Cymru Argraffiad 5**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy**

**Nodyn Cyngor Technegol 12 (Cymru): Dyluniad**

**Cylchlythyr 61/96 “Cynllunio a’r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth**

## 4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

**Aelod Lleol** Dim Sylwadau

**Cyngor Cymuned** Argymell gwrthod ar sail gor-ddatblygu'r ardal, effaith weledol y gwaith drilio i'r wal restredig hanesyddol, ymwthiol, hefyd angen eglurhad ynghylch pwy sydd biau'r tir.

**Priffyrdd** Disgwyl sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol** Dim sylwadau o safbwynt ecolegol, mae'r cynnig mewn ADdGA a hefyd rai metrau i ffwrdd o Ardal Gadwraeth Arbennig y Fenai. O'r herwydd, rwy'n cynghori y dylid ymgynghori gyda CCGC ar y cynnig hwn.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** Disgwyl am sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Asiantaeth yr Amgylchedd** Disgwyl am sylwadau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

**Ymateb i'r Ymgynghori**

Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

39C291B/1 Gosod pontwn arnofiol. Cymeradwywyd gydag amodau ar 04.08.11.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Hanes Cynllunio**

Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer pontŵn arnofiol sydd yr un fath yn union ond nid yw wedi cael ei adeiladu hyd yma.

**Dyluniad ac unrhyw Effaith ar y Strwythur Rhestredig**

Ystyrir bod dyluniad y datblygiad yn dderbyniol. Nid yw'n sownd wrth y wal restredig felly ni fydd yn cael effaith ar y strwythur rhestredig. Yn unol â gofynion statudol, rhoddwyd sylw arbennig i'r effaith ar osodiad y wal restredig.

**Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a dynodiad y Fenai fel Ardal Gadwraeth Arbennig**

Mae safle'r cais mewn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn ymyl Ardal Gadwraeth Arbennig y Fenai. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ecolegol gan Ymgynghorydd Ecolegol y Cyngor ond roeddid yn disgwyl sylwadau gan y Cyngor Cefn Gwlad ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Effaith ar Fwynderau**
Mae Polisi 1 Cynllun Lleol Ynys Môn a GP1 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn dweud y bydd yr effaith ar fwynderau preswyl a phroblemau llygredd a swn yn cael ei hasesu wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Nid ystyrir y bydd y cynigion yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau unrhyw eiddo cyfagos.

## 7. Casgliad

Yn amodol ar dderbyn sylwadau gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ystyrir bod y datblygiad yn dderbyniol.

## 8. Argymhelliad

**Caniatáu** gyda'r amodau isod:

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**Cyngor**

Efallai y bydd angen cyflwyno cais ar wahân am Ganiatâd Adeilad Rhestredig os bydd unrhyw strwythur yn cael ei roi'n sownd yn y wal restredig neu ei osod arni mewn unrhyw fodd ac ni ddylid cychwyn ar unrhyw waith hyd oni fydd Caniatâd Adeilad Rhestredig wedi dod i law.

**12.7** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **44C182C** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Miss Marie Louise Henaghan**
**c/o RGR Partnership**
**1st Floor NatWest Bank Building**
**Glanhwfa Road**
**Llangefni**
**LL77 7EN**

Cais llawn i godi un twrbin gwyntgyda uchder hwb hyd at 15.1m, diamedr rotor hyd at 5.6m a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 17.5m ar dir yn

Full application for the erection of one wind turbine with a maximum hub height of 15.1m, a rotor diameter of 5.6m and a maximum vertical upright height of 17.5m on land at

Bryn Goleu, Rhosybol



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (MTD)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd penderfynwyd na fydd pwerau dirprwyedig yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â datblygiadau tyrbinau gwynt.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Gwneir cais am un tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder i flaen y llafn o 17.5m metr ac uchafswm diamedr rotor o 5.6 metr. Mae cyfradd pŵer y tyrbin yn 6Kw. Mae’r gwneuthuriad a'r model wedi eu nodi yn y cais cynllunio a bydd yn cael ei osod ar fonopol a osodir ar sylfaen goncrid. Mae'r manylion a gyflwynwyd yn dangos y bydd y ceblau sy’n cysylltu â'r rhwydwaith trydan o dan y ddaear.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Tirwedd ac Effaith Weledol
- Amwynder Preswyl.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
C7 Ynni Adnewyddadwy
D3 Ardal Gadwraeth Tirwedd
D10 Diogelu Treftadeth Naturiol

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
31 Tirwedd
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
EP 18 Ynni Adnewyddadwy
EN1 Cymeriad y Dirwedd

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 5 (Tachwedd 2012)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr’, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror 2011)**

**Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994).**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Cyngor Cymuned** –

**Priffyrdd** – Sylwadau dim gwrthwynebiad

**Draenio** – Argymell hysbysiadau cynghori.

**Gwasanaethau Amgylcheddol** – Caniatâd amodol.

**Ymgynghorydd Amgylcheddol** Dim gwrthwynebiad

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** Ddim yn gwrthwynebu'r cais.

**MOD** Dim gwrthwynebiad

**Arqiva** Dim gwrthwynebiad ar sail yr effeithiau ar dderbyniad teledu.

**Dŵr Cymru** Dim sylwadau.

**Asiantaeth yr Amgylchedd** Risg amgylcheddol isel.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

44C182D/SCR – Barn sgrinio – Dim AEA

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Egwyddor datblygu**

Noda Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:

“Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i’r awdurdod cynllunio lleol. lle bo hynny’n briodol, dylid cefnogi’r cynigion gan asesiad o’r effaith ar yr amgylchedd.”

Noda Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:

“Bydd caniatâd yn cael ei roddi i brosiectau ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir
na chânt effaith annerbyniol ar :- i. Gymeriad y tirwedd. ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o safbwynt diogelu natur.
iii. Rhywogaethau pwysig o safbwynt diogelu natur.
iv. Safleoedd a henebion hanesyddol o bwys.
v. Safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu mwynhau. vi. Sustemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Noda Polisi 8B- Datblygiadau Ynni Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd:

“Caniateir ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac adnewyddadwy lle y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir y flaneoriaeth i ddatblygu ffynonellau ynni glan ac admewuddadwy, ond gellir caniatau cynigion ar gyfer proseictau ynni anadnewyddadwy os byddant yn hyrwyddo manteisio i’r eithaf ar effeithlonrwydd ynni yn eu cynllun.”

Mae Polisi EP18 (Ynni Adnewyddadwy) o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn datgan bydd

prosiectau yni adnewyddadwy yn cael eu caniatáu lle gellir yn glir gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y meini prawf a restrir.

Mae Adran 12.8 (Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) Polisi Cynllunio Cymru (4ydd Argraffiad Chwefror 2011) yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy yn unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), paragraff 12.8.1 sy'n datgan:

" ...Mae'n esbonio ein nod o fod mewn sefyllfa, erbyn 2050, lle y gellir diwallu bron y cyfan o'n hanghenion ynni lleol drwy drydan o ffynonellau carbon isel. Gwnawn hyn drwy leihau defnydd ynni a gwella effeithlonrwydd ynni ar bob graddfa ledled Cymru..."

Noda Paragraff 12.8.2:

*"...Dylai polisïau cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni Datganiad Polisi Ynni cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad, a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy..."*

Mae Adran12.10.1 a atgynhyrchir isod yn tynnu sylw at faterion y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth ymdrin â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys agweddau cadarnhaol megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewropeaidd, ac yn ehangach buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn amlygu'r angen i ystyried yr effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol a'r angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol. Amlygir materion eraill hefyd o fewn yr adran hon, megis lliniaru a materion seilwaith h.y. y cysylltiad â'r grid a'r rhwydwaith cludiant, fel a ganlyn:

*12.10.1 Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried:*

- *cyfraniad y cynnig at fodloni targedau a'r potensial a bennwyd yn genedlaethol, a chan y DU ac Ewrop, ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cyfraniad at dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr;*
- *y manteision a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;*
- *yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler Adran 5.5), yr arfordir (gweler Adran 5.6) a'r amgylchedd hanesyddol (gweler Adran 6.5);*
- *yr angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;*
- *ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt;*
- *effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a'r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a ydy'r mesurau i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn arwain ateffeithiau eraill (gweler 4.2);*
- *materion sy'n ymwneud â'r cysylltiad â'r grid, pan gynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan);*
- *gallu'r seilwaith trafnidiaeth, a'r effeithiau arno, yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu'r cynnig.*

Noda paragraff 12.8.13 y bydd yr effeithiau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig yn amrywio gan ddibynnu ar eu math, lleoliad a graddfa. Mae hyn angen polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu gwahanol. Ceir tabl yn Ffigwr 12.3 (Graddfeydd ynni adnewyddadwy ac isel i ddibenion cynllunio).

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) (paragraff 1.4) yn datgan fod gan Lywodraeth y Cynulliad darged o 4TWh o drydan y flwyddyn i gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad bod angen 800MW o gapasiti gosodedig ychwanegol o ffynonellau gwynt ar y tir.

Mae paragraff 2.12 o TAN 8 yn nodi fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol annog, drwy eu polisïau cynllun datblygu ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol, cynlluniau ffermydd gwynt cymunedol llai (yn gyffredinol yn llai na 5 MW). Gellir ystyried y datblygiad sy'n destun yr adroddiad

hwn yn fach, ond nid yw'n gynllun cymunedol.

Noda Paragraff 2.13:

'Dylai rhan fwyaf o ardaloedd yy tu allan i SSAs fod yn rhydd o gynlluniau pŵer gwynt mawr. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno ystyried effaith gronnus cynlluniau bach mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardal Chwilio Strategol a sefydlu meini prawf addas ar gyfer pellteroedd gwahanu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth perimedr cynlluniau ynni gwynt presennol neu yr Ardaloedd Chwilio Strategol. '

Mae Adran 2 Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

*"2.1.1 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi cyflenwad cymunedau gwledig cynaliadwy. Gall helpu sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir drwy sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau gwledig. Ar yr un pryd, rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhaid iddo hefyd warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored.*

Yng nghyswllt arallgyfeirio ar ffermydd mae Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

"3.7.2 Mae'n bosibl lleoli nifer o weithgareddau economaidd yn gynaliadwy ar ffermydd. Mae gweithrediadau bach ar y fferm, megis prosesu bwyd a choed a phecynnu bwyd, ynghyd â gwasanaethau (e.e. swyddfeydd, gweithdai, llogi a chynnal a chadw offer), gwasanaethau chwaraeon a hamdden, cynhyrchu cnydau heblaw am fwyd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i gyd yn debygol o fod yn ddefnyddiau priodol."

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol: 'Datblygiadau Ynni Gwynt' (1994) a fabwysiadwyd gan y cyngor yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, oherwydd oed y ddogfen, mae yn y broses o gael ei disodli gan fersiwn wedi'i diweddaru o'r enw 'Ynni Gwynt ar y Tir', sydd ar hyn o bryd yn yr 2il gyfnod ôl-ymgynghorol, a dim ond ychydig o bwysau y gellir ei briodoli iddi.

Mae'r polisïau a restrir uchod yn rhoi rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar ystyriaethau manwl. Bydd yr effeithiau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy hefyd yn amrywio gan ddibynnu ar eu lleoliad a graddfa, ac mae angen polisi ac ystyriaethau rheoli datblygu gwahanol.

**Tirwedd ac Effaith Weledol**

Byddai'r cais mewn Ardal a ddynodir fel Ardal Tirwedd Arbennig dan ddarpariaethau polisi 31 Cynllun Lleol Ynys Môn, D3 Cynllun Fframwaith Gwynedd ac EN1 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA), Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994) yn nodi na chaniateir datblygu ar safleoedd a allai amharu ar ansawdd, gosodiad a mwynhad y dirwedd warchodedig. Mae angen asesu ceisiadau sydd o fewn 2km o'r AHNE yn ofalus; ac nad yw'r ffin yn awgrymu rhwystr pendant rhwng gwerthoedd cadwraeth o fewn, a'r tu allan.

Gan ystyried maint a lleoliad y tyrbin ni ystyrir fyddai yn newid cymeriad y tirwedd yn arwyddocaol gan warantu gwrthodiad.

**Amwynder Preswyl**

Mae Atodiad D TAN 8 yn rhestru'r ffactorau y dylid fel arfer eu hadolygu i ganfod 'ardaloedd sy'n dechnegol ddichonadwy' ar gyfer datblygu cynlluniau ynni gwynt ar y tir. Ym mharagraff 3.4, nodir 'ar hyn o bryd mae 500m yn cael ei ystyried yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbin gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol, fodd bynnag, pan gaiff ei ddefnyddio mewn modd anhyblyg gall

arwain at ganlyniadau ceidwadol ac felly cynghorir rhywfaint o hyblygrwydd”

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt (1994) 'CCA' y Cyngor yn nodi y bydd y cyngor yn rhoi ystyriaeth ffafriol i brosiectau ynni adnewyddadwy yn yr achosion hynny lle y gellir dangos yn glir na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar yr ystyriaethau rhestredig sy'n cynnwys 'safon y mwynderau a fwynheir gan y boblogaeth breswyl a thwristiaid '. O dan 7.3 'Diogelwch y Cyhoedd, Fflachiadau Cysgodion, Ymyrraeth Weledol ac Effaith ar Ddiogelwch y Brifford' mae’r 'CCA' yn cynnwys safon a argymhellir na fydd unrhyw dyrbin yn cael ei osod yn nes na 400 metr at y tŷ annedd agosaf, gydag eithriad posibl anheddau a feddiannir gan y perchnogion tir lle bwriedir lleoli'r tyrbinau.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, ychydig o bwysau y gellir ei briodoli i'r CCA drafft sydd wrthi'n cael ei baratoi gan y cyngor.

Mae swyddogion wedi asesu’r effaith ar amwynder gweledol/ preswyl eiddo preswyl cyfagos. Ar sail maint y tyrbin arfaethedig a phellteroedd o'r anheddau hyn, ni ystyrir bod mwynderau y preswylwyr yn cael ei effeithio i raddau annerbyniol.

Mae Atodiad C Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi cyngor ar Fflachiadau Cysgod a Golau a Adlewyrchir. Gwelir nad yw fflachiadau cysgodion ond yn digwydd mewn adeiladau sydd hyd at 10 diamedr rotor oddi wrth dyrbin ac o fewn 130 gradd ar naill ochr ogleddol y lledredau hyn yn y DU. Nid oes unrhyw eiddo preswyl o fewn yr ardal hon yn yr achos hwn, ac ni ddisgwylir niwsans fflachiadau cysgod mewn unrhyw eiddo preswyl o ganlyniad i'r datblygiad; fodd bynnag, mae amod wedi cael ei argymell ar sail ragofalus.

Aiff Atodiad C ymlaen i nodi fod y gall tyrbinau hefyd achosi fflachiadau o olau adlewyrchol, a all fod yn weladwy o gryn bellter. Noda’r canllawiau y gellir lliniaru golau adlewyrchol trwy ddewis lliw llafn priodol, ac mae amod wedi cael ei argymell ynglŷn â’r lliw er mwyn lliniaru’r effeithiau.

Mae'r cais hefyd wedi cael ei asesu gan Adain Gwasanaethau Amgylcheddol y cyngor ac nid ydynt yn ystyried y bydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol o ran sŵn, ond gyda’r amodau a argymhellwyd.

**Materion Eraill**

Nid oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn wrthwynebiad i'r datblygiad ond gydag amodau.

Nid oes gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru nac Ymgynghorydd Amgylcheddol y cyngor wrthwynebiadau ar sail yr effaith ar rywogaethau a warchodir neu seiliau eraill yn unol â'u hymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae effaith y datblygiad ar dwristiaeth yn ystyriaeth berthnasol. Comisiynodd Cyngor Ynys Môn ymchwil ar 'Effaith Tyrbinau Gwynt ar Dwristiaeth' sydd wedi ei bwysoli wrth wneud yr argymhelliad isod.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol. O ran mwynderau gweledol, fflachiadau cysgodion/adlewyrchu golau a sŵn, mae’r swyddogion yn ystyried bod y cais yn dderbyniol, yn amodol ar amodau. O ran yr effaith ar y dirwedd ac effaith weledol ni fyddai'r tyrbin arfaethedig yn cael effaith gronnus andwyol sylweddol ar y dirwedd a ni fyddai’n cael effaith sylweddol ar y tirwedd.

**8. Argymhelliad**

Bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi ond gyda’r amodau canlynol:

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y**

**caniatâd hwn.**

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae caniatâd cynllunio am gyfnod na fydd yn fwy na'r 25 mlynedd ("y cyfnod 25 mlynedd") o'r dyddiad y caiff y datblygiad ei gysylltu gyntaf i'r grid trydan ("y grid"). Rhaid rhoi rhybudd o ddyddiadau (a) cysylltu am y tro cyntaf i'r grid a (b) gweithrediad llawn y tyrbin yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 28 diwrnod i'r ddau beth hyn ddigwydd.**

Rheswm: Fel y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni'r amgylchiadau fydd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod.

**(03) Ni chaniateir i'r tyrbin a ganiateir yma fod yn fwy na:**

| | |
|---|---|
| **17.5 medr** | **Uchafswm uchder llafn* (*i ben fertigol uchaf llafn fydd yn sownd)** |
| **15.1 medr** | **Uchafswm uchder hwb** |
| **5.6 medr** | **Uchafswm diamedr rotor** |

**Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd manylion am y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, lleoliad transformer, graddfa bŵer, lefelau sŵn, gorffeniad a lliw allanol y tyrbinau arfaethedig wedi eu cyflwyno yn ysgrifenedig ac wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol. Rhaid i lafnau'r tyrbin droi i'r un cyfeiriad. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.**

Rheswm: Er mwyn diffinio sgôp y caniatâd hwn o ystyried effaith y datblygiad fel y'i haseswyd.

**(04) Ar ddiwedd y cyfnod 25 mlynedd, rhaid dadgomisiynu'r tyrbin a rhaid i'r holl strwythurau perthynol sydd uwchben y ddaear gael eu symud oddi ar y safle. Ddeuddeng mis cyn dadgomisiynu'r tyrbin, rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig ar gyfer ailadrodd y safle ("y cynllun dadgomisiynu" ) i'r awdurdod cynllunio lleol am ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun dadgomisiynu wneud darpariaeth i symud y tyrbin gwynt a'u hoffer ategol cysylltiol i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear. Rhaid i'r holl waith dadgomisiynu ac adfer gael ei wneud yn hollol unol â'r cynllun dadgomisiynu fydd wedi'i gymeradwyo ac yn unol â'r amserlen ynddo.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau edrychiad boddhaol ar ddiwedd y datblygiad.

**(05) Os bydd y tyrbin gwynt ganiateir yma yn methu cynhyrchu trydan i'w gyflenwi i'r grid am gyfnod parhaol o 12 mis rhaid i'r tyrbin gwynt a'i offer ategol cysylltiol gael ei symud i ffwrdd i ddyfnder o 1m o leiaf o dan y ddaear a'i symud oddi ar y safle gyda'r tir yn cael ei ailosod o fewn cyfnod 6 mis o ddiwedd y cyfnod hwnnw o 12 mis yn unol â chynllun ("y cynllun symud") fydd wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatad ysgrifenedig cyn dechrau'r datblygiad. Rhaid i'r datblygwr ddarparu data gweithredol ysgrifenedig ar gyfer tyrbinau unigol i'r awdurdod cynllunio lleol pan wneir cais ysgrifenedig rhesymol.**

Rheswm: Er budd mwynderau'r ardal.

**(06) O fewn 12 mis i'r "comisiynu" ac ar gais ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol, yn cynnwys**

**unrhyw gyfnodau amser a osodir yn y cais; rhaid cyflwyno cynllun ysgrifenedig i liniaru unrhyw achosion o fflachiadau cysgodion yn unrhyw eiddo a effeithir yn cynnwys amserlen ("y cynllun lliniaru") i'r awdurdod cynllunio lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i weithrediad y datblygiad ganlyn ymlaen wedi hynny yn hollol unol â'r "cynllun lliniaru".**

Rheswm: I ddiogelu mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**(07) Rhaid i'r holl geblau mewn cysylltiad a'r datblygiad a ganiateir trwy hyn fod wedi'u gosod o dan y ddaear (oni bai cymeradywyd yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol).**

Rheswm: Er lles mwynderau.

**(08) Ni chaniateir dechrau'r datblygiad hyd nes y bo'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig.**

**1) Y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn dod i ben.**
**2) Hyd ymestyn mwyaf unrhyw offer adeiladu**
**3) Hydred a lledred pob tyrbin.**

**Rhaid gwneud y datblygiad wedi hynny yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau'r amod hwn.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod awyrennau militaraidd yn osgoi'r ardal ac yn osgoi'r perygl o wrthdrawiad.

**(09) Ni chaniateir gosod unrhyw dyrbin gwynt ar y safle hyd nes y bydd cadarnhad o'r canlynol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig:**

**1) Dim ond person cymwys gaiff osod y tyrbin a hynny'n unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwyr a'r arolwg wnaed o'r safle.**

**2) Rhaid cynnal a chadw'r tyrbin yn unol ag argymhellion y gwneuthurwyr.**

**3) Ni chaniateir i'r sŵn cronnol o'r tyrbin gwynt, wedi'u mesur 3.5m o wyneb unrhyw eiddo cyfagos gyda rhywun yn byw ynddo a heb fod ym mherchnogaeth yr ymgeisydd, fod yn fwy na 35dB LA90 (10 munud) hyd at gyflymder gwynt o 9m/s ar uchder yr hwb. Lle bo rhan o unrhyw eiddo cyfagos sydd yn sensitif i sŵn yn uwch na lefel y ddaear, rhaid i'r lleoliad monitro fod 1m oddi wrth y talcen a chywiriad talcen o -3dB(A) yn cael ei weithredu.**

**4) Ni chaniateir i'r tyrbin gwynt fod yn rhai tonaidd o ran cymeriad.**

**Rhaid i'r datblygiad fynd yn ei flaen wedi hynny yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo.**

Rheswm: Er lles mwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

Rhaid apratoi datganiad dull adeiladwaith ar y cyd hefo'r Cyngor Cefn Gwlad a derbyn cytundeb ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol iddo cyn dechrau unrhyw waith. Rhaid cadw at ofynion y datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladu.

Rheswm: I leihau unrhyw effaith niweidiol i bioamrywiaeth yr ardal.

**Hysbysiadau Cynghori**

Cynghorir yr ymgeisydd i gysylltu â Colin Edwards (Prif Beiriannydd) ar 01248 752350 i drafod y gofynion arolwg o gyflwr y rhwydwaith priffyrdd cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad ar y safle. Bydd yr arolwg yn ddefnyddiol ar gyfer pob parti i ddarparu cofnod o gyflwr y briffordd gyhoeddus cyn cwblhau'r datblygiad.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
FF11 (Traffig)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 (Polisi Cyffredinol)
35 (Diogelu Natur)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)
EN4 (Bioamrywiaeth)

Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)

**12.8** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **46C483B** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr P Evans**
**c/o Alan J Williams & Associates**
**48 Refail Farm,**
**Rhoscolyn,**
**Holyhead,**
**Anglesey.**
**LL65 2EX.**

Cais ôl-weithredol ar gyfer codi modurdy ar dir ger

Retrospective application for the erection of a garage on land adjacent to

The Log Cabin, Off Ravenspoint Road, Trearddur Bay



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (SCR)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Lleolir y safle oddi ar Ffordd Ravenspoint ar dir sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ddibenion preswyl. Lleolir y safle y tu cefn i'r eiddo a adwaenir fel Garth a drws nesa' i Gwynfair. Y tu cefn i'r safle, mae maes carafanau sydd wedi ei hen sefydlu. Ceir mynediad i'r safle ar hyd lôn fechan ddi-ddosbarth oddi ar Ffordd Ravenspoint sy'n gwasanaethu eiddo cyfagos a'r maes carafanau. Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo o amgylch y safle yn anheddau un llawr neu'n dai dormer annibynnol.

Rhoddwyd caniatâd amlinellol ar gyfer eiddo a garej annibynnol ym Mehefin 2010. Yn ystod y broses o benderfynu ar y cais ar gyfer codi annedd a garej annibynnol yn nhu blaen y safle, cychwynnwyd codi adeilad ar hyd y ffin y tu cefn i'r safle. Dywedwyd wrth yr ymgeisydd am roi gorau i'r gwaith ar y safle oherwydd na chafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr adeilad hwn a dywedwyd wrthynt y byddai angen cyflwyno cais cynllunio llawn petaent yn dymuno cadw'r adeilad.

Mae'r cais cyfredol yn un ôl-weithredol i godi a chadw'r garej y tu cefn i'r safle. Fel rhan o'r cais cyfredol, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Cytundeb Unochrog yn dweud y dylid rhoi caniatâd cynllunio ôl-weithredol ar gyfer y garej y tu cefn i'r safle ac y byddai'r caniatâd ar gyfer y garej a roddwyd dan ganiatâd cynllunio 46C483A/DA yn cael ei ddiddymu.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y materion allweddol yw a fydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos neu ar gymeriad ac edrychiad yr ardal o'i gwmpas.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 31 – Tirlunio
Polisi 42 – Dylunio

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
Polisi D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio
Polisi D28 – Dylunio
Polisi D29 – Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**
Policy GP1 – Canllawiau Rheoli Datblygu
Policy GP2 – Dylunio

Policy EN1 – Cymeriad y Tirwedd

**Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol - Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig**

**Nodyn Cyngor Technegol 9: Gorfodi Rheolaeth Gynllunio**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – yn fodlon i'r swyddog wneud penderfyniad ar y cais

Cyngor Cymuned – Dim sylwadau

Priffyrdd – Dim argymhelliad

Draenio – Sylwadau safonol

Dwr Cymru – Sylwadau

Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Dim gwrthwynebiad

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn dwy ffordd. Arddangoswyd rhybudd ger y safle ac anfonwyd rhybuddion personol at berchenogion eiddo cyfagos. Y dyddiad diwethaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 14 Awst 2012 ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr adran wedi derbyn 12 o lythyrau yn cynnig sylwadau. Gellir crynhoi'r materion a godwyd fel a ganlyn:

i) Colli preifatrwydd, golygfa a goleuni oherwydd mae'r adeilad mawr yn taflu cysgod dros y carafanau yn y maes carafanau cyfagos.

ii) Aflonyddwch cyffredinol oherwydd sŵn a llygredd o gerbydau, llygredd goleuni o'r goleuadau diogelwch

iii)Llifogydd o'r safle

iv) Nid yw'n gweddu â chymeriad yr ardal o'i gwmpas

v) Oherwydd maint yr adeilad, efallai y caiff ei ddefnyddio i ddibenion preswyl yn y dyfodol

vi) Mae'r adeilad wedi cael ei godi mewn lleoliad gwahanol i'r lleoliad y cafwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer
vii) Mae'r cynlluniau'n anghywir

viii) Mae'r adeilad yn rhy agos at ffin y maes carafanau cyfagos ac oherwydd hyn, mae un perchennog carafán wedi gadael y safle

ix) Mae carafán statig wedi cael ei lleoli ar y safle

x) Dylid codi'r garej yn nhu blaen y plot sydd wedi cael caniatâd cynllunio cyn cyflwyno cais i gadw'r garej y tu cefn i'r safle

xi) Caniatawyd i'r gwaith adeiladu barhau ar y safle heb ganiatâd cynllunio

Byddwn yn ymateb fel a ganlyn i'r materion a godwyd:

i) Mae astudiaeth haul a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn dangos na fydd y cynnig yn taflu cysgod dros y

carafanau cyfagos tan oddeutu 8pm yn ystod mis Awst ac nid ystyrir y byddai hyn yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r carafanau cyfagos i'r graddau y dylid gwrthod y cais.  Nid oes unrhyw ffenestri yn ochr neu gefn y garej a fyddai'n golygu y gellid edrych dros yr eiddo/carafanau cyfagos.

ii)  Bydd amod yn cael ei osod ar y caniatâd i gyfyngu'r defnydd o'r garej i ddefnydd preifat sy'n gysylltiedig â'r annedd.  Nid ystyrir y byddai cerbydau preifat/cychod yn tarfu ar eiddo cyfagos i'r graddau y dylid gwrthod y cais.  Mae'n debygol y byddai goleuadau diogelwch ar gyfer y tŷ yn cael eu gosod o flaen y garej ac nid y tu cefn iddi - ni fyddant felly'n wynebu'r maes carafanau cyfagos.

iii)  Mae'r cais wedi cael ei anfon at Adain Ddraenio'r Awdurdod ac at Dwr Cymru ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan y naill na'r llall.

iv)  Bydd y garej oddeutu 5.2 metr o uchder a bydd yn is na'r eiddo preswyl cyfagos.  Cydnabyddir y bydd y garej arfaethedig yn uwch na'r carafanau y tu cefn i'r safle, fodd bynnag, mae'n strwythur parhaol o fewn libart tŷ preswyl ac mae'n parchu cymeriad yr eiddo o'i gwmpas.

v)  Gofynnir am ganiatâd cynllunio ar gyfer garej breifat yn unig.  Petai'r ymgeisydd yn cyflwyno cais i newid defnydd yr adeilad yn y dyfodol, gwneir penderfyniad ar hynny yn unol â'r polisïau a fydd yn weithredol ar y pryd.

vi) Mae'r cais yn gais cynllunio ôl-weithredol oherwydd mae'r adeilad wedi cael ei godi heb ganiatâd cynllunio.   Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Cytundeb Unochrog a fyddai'n diddymu'r caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer y garej annibynnol yn nhu blaen y safle dan ganiatâd cynllunio 46C483A/DA.

vii)  Mae'r cynlluniau wedi cael eu diwygio i ddangos yr hyn sydd wedi cael ei godi ar y safle.

viii) Mae'r adeilad wedi cael ei godi oddeutu 1.2 metr o ffin y safle gyda'r maes carafanau cyfagos.  Fel y dywedwyd uchod, mae'r astudiaeth haul wedi dangos na fydd y garej yn cael effaith ar fwynderau'r carafanau cyfagos drwy daflu cysgod o'r pellter hwn.

ix)  Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer lleoli carafán statig dros dro yn ystod gwaith adnewyddu/codi annedd nac ychwaith ar gyfer ei chadw wedyn i ddefnydd achlysurol.

x)  Fel y dywedwyd uchod,  mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Cytundeb Unochrog a fyddai'n diddymu'r caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer y garej annibynnol yn nhu blaen y safle dan ganiatâd cynllunio 46C483A/DA.

xi)  Yn ystod y broses o wneud penderfyniad ar gais
46C483A/DA, dywedwyd wrth yr ymgeisydd/adeiladwr am roi'r gorau i'r gwaith adeiladu a chyfeiriwyd y mater i Adain Orfodaeth yr Adran.  Y drefn gywir mewn achos fel hyn yw gwahodd yr ymgeisydd i gyflwyno cais. Ym mharagraff 12 Nodyn Cyngor Technegol 9: Gorfodi Rheolaeth Gynllunio, dywedir y dylai awdurdod lleol, lle mae o'r farn y gellid gwneud datblygiad a godwyd heb ganiatâd yn dderbyniol drwy fynnu ar amodau cynllunio, wahodd y perchennog neu ddeiliad y tir i gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

46C483 - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd a garej breifat ar dir ger Log Cabin, Ffordd Road, Trearddur – Caniatáu 09:06:10

46C483A/DA - Cais am faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi annedd a garej breifat ar dir ger Log Cabin, Ffordd Ravenspoint, Trearddur – Caniatáu 01:06:12

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Effaith ar fwynderau eiddo cyfagos** - Mae’r astudiaeth haul a gyflwynwyd fel rhan o’r cais yn dangos na fyddai’r garej yn taflu cysgod dros y carafanau cyfagos hyd oddeutu 8pm. Nid oes unrhyw ffenestri yn nrychiadau cefn neu ochr y garej ac o’r herwydd, ni fydd yn edrych dros y carafanau. Yn y cynllun safle a gyflwynwyd fel rhan o’r cais, dangoswyd y byddai gwrychyn yn cael ei blannu i bwrpas sgrinio ar hyd ffin y safle gyda’r maes carafanau cyfagos.

**Effaith ar y dirwedd o gwmpas y safle** - Bydd maint ac uchder y garej a’r deunyddiau y bwriedir eu defnyddio i adeiladu’r garej yn parchu cymeriad eiddo cyfagos ac ni fydd yn cael effaith andwyol ar y dirwedd o’u cwmpas.

## 7. Casgliad

Ni fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar fwynderau deiliaid eiddo cyfagos ac ni fydd ychwaith yn cael effaith andwyol ar y dirwedd o’u cwmpas.

## 8. Argymhelliad

**Caniatáu**

**(01) Rhaid ymgymryd â'r datblygiad a ganiateir dan y caniatâd hwn yn gwbl unol â’r cynllun a gyflwynwyd ar 12:07:12 o dan gais cynllunio rhif 46C483B.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**(02) Caiff y garej a ganiateir trwy hyn, ei defnyddio fel garej breifat yn unig, yn gysylltiedig â’r defnydd o’r annedd gyfagos a ganiatawyd dan gais rhif 46C483A/DA ac nid i unrhyw bwrpas masnachol neu fusnes o gwbl.**

Rheswm: Er lles mwynderau preswyl.

This page is intentionally left blank

**13.1** **Materion Eraill** **Other Matters**

Rhif y Cais: **16C136C** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Robert Gethin Parry**
**Treban Meurig**
**Bryngwran**
**Holyhead**
**Ynys Môn**
**LL65 3YN**

Cais i bennu os oes angen caniatad cynllunio ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer cartrefu da byw ar dir yn

Application to determine whether prior approval is required for the erection of an agricultural shed for the housing of livestock on land at

Treban Meurig, Bryngwran



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(AMG)**

Mae'r ymgeisydd yn perthyn i Gynghorydd.

Penderfynwyd nad oedd angen caniatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw ar gyfer y datblygiad uchod a'i fod yn gyfystyr â datblygiad a ganiateir.

O'r herwydd, cyflwynir adroddiad ar y mater er gwybodaeth yn unig.

**13.2** **Materion Eraill** **Other Matters**

Rhif y Cais: **47C134** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mrs Ann Elizabeth Owen**
**Plas Newydd**
**Llanddeusant**
**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 4AD**

Cais i bennu os oes angen caniatad cynllunio ar gyfer codi siediau amaethyddol ar gyfer cartrefu da byw ar dir yn

Application to determine whether prior approval is required for the erection of agricultural sheds for the housing of livestock on land at

Plas Newydd, Llanddeusant, LL65 4AD



**Pwyllgor Cynllunio: 09/01/2013**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(EH)**

Mae'r ymgeisydd yn perthyn i aelod o staff

Penderfynwyd nad oedd angen caniatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw ar gyfer y datblygiad uchod a'i fod yn gyfystyr â datblygiad a ganiateir.

O'r herwydd, cyflwynir adroddiad ar y mater er gwybodaeth yn unig.